



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:  
52/2016  
DYDDIAD CYHOEDDI:  
20/07/2016

# Gwerthusiad Her Ysgolion Cymru: Gweithredu mewn Ysgolion Llwybrau Llwyddiant (2014/15)

# **Gwerthusiad Her Ysgolion Cymru: Gweithredu mewn Ysgolion Llwybrau Llwyddiant (2014/15)**

## **Carr C a Morris M, SQW**

Adroddiad ymchwil llawn - dyfyniad: Carr and Morris (2016). Gwerthusiad Her Ysgolion Cymru: Gweithredu mewn Ysgolion Llwybrau Llwyddiant (2014/15). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif YG: 52/2016.

Ar gael yn: <http://llyw.cymru/statistics-and-research/evaluation-schools-challenge-cymru/?lang=cy>

Eiddo'r ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru

I gael gwybodaeth bellach cysyllter â:

Launa Anderson

Isadran Gwybodaeth ac Ymchwil Gymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 9274

E-bost: [launa.anderson@wales.gsi.gov.uk](mailto:launa.anderson@wales.gsi.gov.uk)

## Tabl cynnwys

Rhestr geirfa .....	2
Crynodeb Gweithredol .....	3
1 Rhagymadrodd .....	9
2 Deall anghenion ysgolion LI LI .....	20
3 Canllawiau lefel rhaglen a chefnogaeth ar gyfer ysgolion LI LI .....	28
4 Y gefnogaeth a ddarparwyd gan Gyngorwyr Her Ysgolion Cymru .....	41
5 Gwaith Byrddau Gwella Carlam .....	53
6 Defnyddio cyllid HYC .....	63
7 Dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI .....	72
8 Nodi effeithiau sy'n dod i'r amlwg o gyfranogi yn Her Ysgolion Cymru ar ysgolion LI LI a'r camau nesaf ar gyfer y gwerthusiad .....	85
Cyfeiriadau .....	94
Atodiad A: Dyluniad yr Ymchwil .....	96

## Rhestr geirfa

ALI	Awdurdod Lleol
BGC	Bwrdd Gwella Carlam
CDY	Cynllun Datblygu Ysgol (mewn rhai ysgolion cyfeirir at hwn fel Cynllun Gwella Ysgol)
CDY (Sengl)	Cynllun Datblygu Ysgol Sengl. Defnyddir y term hwn i wahaniaethu rhwng cynlluniau sydd wedi'u datblygu yn dilyn cyflwyniad canllawiau 'newydd' gan Lywodraeth Cymru yn 2014 a'r rheini a ddatblygwyd cyn ei gyhoeddi
Clwstwr ysgol	Grŵp o ysgolion lle mae tystiolaeth o weithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd
Consortia	Consortia Addysg Rhanbarthol
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
HYC	Her Ysgolion Cymru
L2 Cynhwysol	Lefel 2 Cynhwysol yw 5 TGAU gradd A*-C neu gyfatebol, yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Mathemateg a naill ai Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf
LI LI	Ysgolion Llwybrau Llwyddiant
Profion Cenedlaethol	Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol
UDA	Uwch Dîm Arwain

## Crynodeb Gweithredol

1. Mae Her Ysgolion Cymru (HYC), a lansiwyd ym mis Mehefin 2014, yn ymdrech gydunol gan Lywodraeth Cymru i ymateb i'r amrywioldeb ym mherfformiad gwahanol ysgolion ledled Cymru o ran cefnogi datblygiad eu disgyblion, yn arbennig y rheini o gefndiroedd difreintiedig. Elfen allweddol o'r rhaglen fu recriwtio hyd at 40 o ysgolion Llwybrau Llwyddiant (LI LI) y teimlwyd eu bod yn tanberfformio ac yn wynebu'r rhwystrau mwyaf i wella. Bydd pob ysgol, a nodwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Consortia Addysg Rhanbarthol (a enwir wedi hyn yn Consortia) a'i chlwstwr ehangach, yn derbyn rhaglen gefnogi wedi'i thargedu dros gyfnod o ddwy flynedd. Wedi hynny penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylid gwneud y gefnogaeth ar gael i ysgolion LI LI am drydedd flwyddyn.
2. Gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd yn flaenorol gan fentrau o'r math hyn, megis Heriau Llundain a Manceinion Fwyaf, mae ysgolion LI LI wedi cael eu hannog, drwy'r rhaglen, i ystyried ansawdd eu harweinyddiaeth a'u rheolaeth, addysgu a dysgu, ac effeithiolrwydd eu gwaith gyda'r gymuned ehangach. Drwy wneud gwelliannau yn y meysydd hyn, y gobaith yw y bydd HYC yn cefnogi gwelliant yn y canlyniadau dysgu mewn ysgolion LI LI, yn ogystal â chreu gwarsi o'r datblygiadau hyn er mwyn cynorthwyo i gryfhau gallu'r system addysg gyfan i wella ei hun.
3. Er mwyn eu cynorthwyo i oresgyn eu rhwystrau i wella, mae ysgolion LI LI wedi gallu cael mynediad at nifer o wahanol fathau o gefnogaeth. Mae'r elfennau allweddol wedi cynnwys:
  - cefnogaeth gan **Gynghorydd Her Ysgolion Cymru (Cynghorydd)** wedi'i enwi i gynorthwyo Uwch Arweinwyr mewn ysgolion LI LI i ganfod dulliau y gallant eu defnyddio i oresgyn eu rhwystrau i wella
  - y cyfle i wneud cais am **gyllid ychwanegol** gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithrediad y strategaeth gwella ysgol
  - cefnogaeth gan **Fwrdd Gwella Carlam (BGC)**
  - y cyfle i ddatblygu **Cynllun Datblygu Ysgol (Sengl)**.

4. Mae dau nod cyffredinol i'r gwerthusiad:
  - ystyried gweithrediad y rhaglen
  - asesu canlyniadau'r rhaglen.
5. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y nod cyntaf, hynny yw y materion sy'n gysylltiedig â phroses a gweithrediad HYC mewn ysgolion LI LI. Mae'r casgliadau wedi eu seilio'n bennaf ar waith maes a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2015. Lle bo hynny'n briodol, cyfeirir hefyd at ddadansoddiad data a gasglwyd o arolygon disgyblion ym Mlwyddyn 6, 7 a 9 dros yr un cyfnod. Cynhelir ail don o waith maes rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2016. Cynhyrchir adroddiad arall a fydd yn ystyried, mewn llawer mwy o ddyfnder, yr allbynnau a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â gweithgaredd yn ymwneud â'r rhaglen.

#### **Casgliadau o Flwyddyn 1 y rhaglen**

6. Mae'r adran hon yn ystyried prif gasgliadau gwerthusiad blwyddyn gyntaf y rhaglen.

#### *Deall anghenion ysgolion LI LI*

7. Mae dadansoddiad ffynonellau data gweinyddol cenedlaethol yn dangos lefel gymharol uchel o amrywioldeb ymhlith ysgolion LI LI. Mae synthesis o'r dadansoddiad ffynonellau data gweinyddol cenedlaethol ac adborth gan randdeiliaid yn awgrymu y dylanwadir ar y dulliau a fabwysiadir gan ysgolion LI LI gan eu cyfeiriad cyn iddynt gael eu cynnwys yn HYC ac, yn arbennig, perfformiad arweinwyr eu hysgol.
8. Yn seiliedig ar ein dadansoddiad, gwnaethom nodi dri gwahanol fath o ysgolion LI LI.
  - **Grŵp A:** Ysgolion yr oedd ansawdd y ddarpariaeth yn ymddangos fel pe bai wedi bod yn **gostwng** cyn ymgysylltu ag HYC ac a oedd mewn perygl o ddirywio ymhellach. Gwnaethom asesu 8 o'r 38 ysgol LI LI y gwnaethom ymweld â hwy fel ysgolion Grŵp A.
  - **Grŵp B:** Ysgolion yr oedd ansawdd y ddarpariaeth yn ymddangos fel pe bai'n **sefydlog** cyn ymgysylltu ag HYC ond y canfyddwyd eu

bod angen gwella. Gwnaethom asesu **16** o'r 38 ysgol LI LI y gwnaethom ymweld â hwy fel ysgolion Grŵp B.

- **Grŵp C:** Ysgolion yr oedd ansawdd y ddarpariaeth wedi **dechrau gwella** cyn ymgysylltu ag HYC. Gwnaethom asesu 14 o'r 38 ysgol LI LI y gwnaethom ymweld â hwy fel ysgolion Grŵp C.

*Canllawiau a chefnogaeth lefel rhaglen*

9. Yn y rhan fwyaf o achosion, croesawodd y cyfweleion y cyfle a roddwyd i ysgolion LI LI drwy gael eu cynnwys yn HYC ac argaeledd cefnogaeth ychwanegol i gynorthwyo clystyrau i oresgyn eu rhwystrau i wella. Wedi dweud hynny, yn y rhan fwyaf o achosion, teimlai'r cyfweleion bod y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma ddim yn wahanol i'r hyn oedd wedi cael ei wneud cyn lansio HYC.
10. Dywedodd mwyafrif yr ysgolion LI LI eu bod yn gweithio gyda phartneriaid uwchradd eraill. Mewn ysgolion o'r fath roedd nifer o fathau gwahanol o bartneriaethau i'w gweld. Yn arbennig y rheini a ddatblygwyd ag ysgolion oedd â '*meysydd rhagoriaeth*' i gefnogi rhannu arfer effeithiol; gwaith cydweithio gydag ysgolion LI LI eraill yn aml yn canolbwyntio ar ddatblygu ymatebion i heriau a rennir; a threfniadau cydweithio gydag ysgolion lleol eraill, yn gyffredinol gyda'r nod o ddatblygu ymateb a rennir i ddatblygiadau lleol/rhanbarthol.
11. Ar y cyfan roedd cyfweleion yn gefnogol i'r cysyniad o Gynllun Datblygu Ysgol *Sengl* a'r awydd i sicrhau bod y gweithgareddau a nodwyd yn y cynllun datblygu yn cael eu hadnoddu'n llawn. Gwahoddodd y cyfweleion Lywodraeth Cymru i ystyried a ellid cymryd camau pellach i gefnogi ysgolion i ddatblygu eu cynlluniau. Yn arbennig: adnoddu'r cynllun llawn, o gofio'r anghysondebau rhwng y cylch grant a chynllunio datblygu; ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol; a chynhyrchu un ddogfen a oedd yn cynnwys digon o wybodaeth i gael ei defnyddio mewn ysgol, tra'n dal i fod o hyd y gellid gweithio gyda hi.

*Y gefnogaeth a ddarparwyd gan y Cyngorwyr Her*

12. Dywedodd cyfweleion bod gan Gyngorwyr llwyddiannus yn aml nifer o ddulliau cyffredin.

- Bod â chydbwysedd priodol rhwng **herio arfer aneffeithiol a rhoi digon o gefnogaeth** i alluogi Uwch Arweinwyr i wella.
- Dangos eu **hannibyniaeth**. Roedd cyfweleion yn gwerthfawrogi'r modd yr oedd eu Cyngorwyr wedi ceisio sicrhau bod llais ysgolion LI LI unigol yn cael ei glywed mewn trafodaethau rhwng eu Hawdurdod Lleol, Consortia a Llywodraeth Cymru.
- Cynnal **ffocws strategol**. Teimlwyd bod Cyngorwyr effeithiol yn sicrhau na fyddai ysgolion yn colli golwg ar y '*darlun mawr*'.

13. Mae'n ymddangos bod Cyngorwyr wedi defnyddio tri phrif fodel ymarfer, wedi'u llywio'n bennaf gan gyfeiriad blaenorol ysgolion LI LI.

- **Model 1 – Canolbwyntio ar wella arweinyddiaeth a rheolaeth:** Lle nododd y Cyngorwyr mai gallu'r Uwch Dîm Arwain presennol mewn ysgolion LI LI oedd y prif rwystr i wella, mae Cyngorwyr wedi cymryd amrywiaeth o rolau i sefydlogi'r ysgol hyd nes bod newidiadau wedi eu gwneud i'r tîm. Roedd rolau o'r fath yn gofyn am lefel ymgysylltu a oedd ymhell y tu hwnt i'r hyn a gysylltir yn arferol gyda Chynghorydd allanol.
- **Model 2 – Canolbwyntio ar gynllunio gwella ysgol:** Yn yr ysgolion hynny y canfyddwyd eu bod yn sefydlog, ond lle teimlwyd bod Uwch Arweinwyr angen cefnogaeth ychwanegol os oedd yr ysgol i wella, gwelwyd Cyngorwyr yn mabwysiadu rôl cyfaill beirniadol. Yn gyffredinol gwelwyd eu bod wedi canolbwyntio ar gefnogi Uwch Arweinwyr i wella ansawdd eu seilwaith hunanwerthuso.
- **Model 3 - Cefnogaeth arbenigol i gynllunio gwella ysgol:** Yn yr ysgolion hynny y canfyddwyd eu bod wedi dechrau gwella cyn eu cynnwys yn HYC, yn aml roedd yn rhaid i Gyngorwyr chwarae rôl fwy cyfyngedig. Mewn achosion o'r fath, roedd mewnbyn yn aml wedi'i gyfyngu i gyfarfodydd y Bwrdd Gwella Carlam. Yn aml roedd Uwch Arweinwyr yn pwysleisio pwysigrwydd eu Cyngorwyr fel



eiriolwr annibynnol ar gyfer yr ysgol, yn arbennig mewn deialog gyda Llywodraeth Cymru a Consortia.

#### *Gwaith Byrddau Gwella Carlam*

14. Roedd gan bob un ond un o'r 38 ysgol LI LI y gwnaethom ymweld â hwy Fwrdd Gwella Carlam (BGC) ar waith. Roedd aelodaeth o bob BGC yn cynnwys Pennaeth yr ysgol LI LI, Cynghorydd yr ysgol, Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethu a Phennaeth ysgol gynradd o fewn y clwstwr LI LI.
15. Mewn nifer o ysgolion, mynychwyd cyfarfodydd gan aelodau eraill o'r Uwch Dîm Arwain a theimlwyd eu bod wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr, nid yn lleiaf mewn ysgafnhau'r baich ar eu Pennaeth. Roedd cyfweleion yn ystyried rôl y Cynghorydd fel un hollbwysig er mwyn gosod tôn cywir ar gyfer y cyfarfodydd a llywio'r deialog tuag at y materion hynny oedd â'r potensial i gael yr effaith fwyaf ar wella ysgol. Mewn rhai enghreifftiau nodwyd bod y Cynghorwyr wedi arwain cyfarfodydd BGC. Mewn achosion o'r fath teimlwyd yn gyffredinol bod hyn wedi cynorthwyo i sicrhau bod yr ysgol yn symud yn ei blaen. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd bod posibilrwydd y gallai cymryd yr awenau yn y modd hwn danseilio awdurdod yr Uwch Dîm Arwain.
16. Ar y cyfan, roedd cyfweleion yn gadarnhaol ynglŷn â chyfraniad eu BGC mewn cefnogi gwelliannau yn eu hysgolion. Mae'n ymddangos bod BGC wedi bod yn fwyaf effeithiol pan oedd gan ysgolion eisoes brosesau gwella ysgol priodol ar waith. Pan nad felly oedd hi, teimlwyd y gallai BGC fod â diffyg cyfeiriad. Teimlai rhai cyfweleion, yn arbennig o ysgolion lle canfyddwyd eu bod wedi dechrau gwella cyn eu cynnwys yn HYC, bod y gofyniad iddynt gynnal BGC yn or-fiwrocraataidd.

#### *Defnyddio cyllid HYC*

17. Dywedodd mwyafrif y cyfweleion mewn ysgolion eu bod yn teimlo bod cyllid HYC wedi cael effaith gadarnhaol.
18. Datgelodd adborth gan gyfweleion nifer o feysydd cyffredin o wariant:
  - cyllid i gefnogi **ymyriadau disgyblion wedi'u targedu**
  - cyllid i gynnal **cyrsgiau DPP ar gyfer athrawon**

- buddsoddiad cyfalaf i wella **amgylchedd dysgu yr ysgol**
- cyllid i recriwtio **staff cefnogi ychwanegol**.

*Dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI*

19. Wrth geisio goresgyn eu rhwystrau i wella, mae ysgolion LI LI wedi ceisio ymateb (er i wahanol raddau) i un o dair blaenoriaeth allweddol:

- cefnogi gwelliannau yn ansawdd yr **arweinyddiaeth a rheolaeth**
- gwella **ymgysylltiad disgyblion**
- cefnogi gwelliannau yn ansawdd yr **addysgu a dysgu**.

20. Er ei bod hi'n ymddangos bod ysgolion LI LI wedi mabwysiadu nifer o ddulliau cyffredin er mwyn goresgyn eu rhwystrau i wella, yn ymarferol, roedd y pwyslais cymharol a roddwyd ar bob maes wedi amrywio'n fawr, nid yn lleiaf oherwydd gwahanol anghenion bob ysgol.

*Nodi effeithiau sy'n dod i'r amlwg o ran cyfranogi yn HYC ar ysgolion LI LI*

21. Ar adeg ein gwaith maes (Mawrth-Gorffennaf 2015), nid oedd cyfweleion yn gallu meintoli effaith gweithgaredd gwella ysgol ar eu hysgolion. Er hynny, dywedodd cyfweleion yn y rhan fwyaf o'r ysgolion LI LI eu bod yn teimlo bod ymgysylltiad yn HYC wedi cael effaith gadarnhaol.

*Y camau nesaf ar gyfer y gwerthusiad*

22. Byddwn yn cynnal ton arall o waith maes ym misoedd Mai-Gorffennaf 2016. Bydd hyn yn cefnogi llunio adroddiad terfynol. Bydd yr adroddiad yn ystyried, mewn llawer mwy o ddyfnder, yr allbynnau a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â gweithgaredd yn ymwneud â'r rhaglen.

# 1 Rhagymadrodd

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno casgliadau ymchwil a gynhaliwyd gan SQW ar ran Llywodraeth Cymru fel rhan o werthusiad annibynnol Her Ysgolion Cymru (HYC). Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar waith maes a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2015 ac mae'n cynnwys canlyniadau dangosol o arolygon a gynhaliwyd gyda disgyblion ym Mlwyddyn 6, 7 a 9 yn yr un cyfnod<sup>1</sup>. Mae'n canolbwyntio ar faterion sy'n gysylltiedig â phroses a gweithrediad HYC mewn ysgolion Llwybrau Llwyddiant (LI LI). Cynhelir ail don o waith maes rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2016 i gefnogi cynhyrchu adroddiad arall. Bydd hwn yn ystyried, mewn llawer mwy o fanylder, allbwn a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â gweithgaredd yn ymwneud â'r rhaglen.

## Cefndir

1.2 Mae Her Ysgolion Cymru yn gorwedd o fewn strategaeth gwella ysgol ehangach ar gyfer Cymru, sy'n cynnwys newidiadau mawr i gymwysterau, cwricwlwm ac asesiad. Yn arbennig, cyflwyniad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd<sup>2</sup>; cyflwyniad profi cenedlaethol llythrennedd a rhifedd ym Mlynnyddoedd 2 i 9<sup>3</sup> a diwygiadau i gymwysterau a'r cwricwlwm yn dilyn cyhoeddi Dyfodol Llwyddiannus gan yr Athro Graham Donaldson (2015). Ar yr un pryd gwnaed newidiadau i'r seilwaith cefnogol ar gyfer ysgolion, er enghraifft drwy gyflwyno'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol ym mis Chwefror 2014 yn dilyn argymhellion adolygiad Hill (2013) ac o ganlyniad i'r gwaith a wnaed yn dilyn cyhoeddiad Cymwys am Oes (2014).

1.3 O dan y Model Cenedlaethol, mae Awdurdodau Lleol yn cadw'r atebolrwydd statudol am berfformiad ysgol, ynghyd â chyfrifoldeb am weithredu pwerau statudol ymyrraeth a threfniant ysgolion. Yn eu cefnogi, fodd bynnag, mae pedwar Consortia Addysg Rhanbarthol (a

<sup>1</sup>Cynhaliwyd y gwaith maes yn yr ail dymor llawn yn dilyn lansio'r rhaglen.

<sup>2</sup>Gwnaed hwn yn statudol ym mis Medi 2014.

<sup>3</sup>Mae'r profion diagnostig hyn wedi'u cynllunio i roi ffynhonnell allweddol o ddata lefel disgyblion ar gynnydd mewn llythrennedd a rhifedd ymhlith pobl ifanc o Gyfnod Allweddol 1 i 3.

elwir wedi hyn yn Consortia) yn gweithio ar ran yr Awdurdodau Lleol i hyrwyddo gwell canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc (Llywodraeth Cymru, 2014a). Colofn ganolog y fframwaith gweithio rhanbarthol yw'r ymrwymiad y dylid clustnodi Cynghorydd Her wedi'i enwi i *bob* ysgol. Crëwyd y rôl hon o ganlyniad i bryder ynglŷn ag ansawdd Arweinwyr System presennol a'u gallu i ddarparu'r lefel o '*her*' sydd ei hangen i gyflawni'r newid mawr angenrheidiol er mwyn gwella ysgol.

- 1.4 Mae'r fframwaith hefyd yn nodi isafswm y cyllid y dylai pob Awdurdod Lleol ei gyfrannu i gynnal y Consortia, er bod pob ardal wedi cael yr ystwythder i sicrhau setliad gwahanol. Mae'r ysgolion ym mhob ardal Consortia yn penderfynu ba raddau y maent yn comisiynu cefnogaeth benodol gan y Consortia (yn ychwanegol at y gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion gan Lywodraeth Cymru).
- 1.5 Mae cael eu cynnwys fel ysgol Llwybrau Llwyddiant yn Her Ysgolion Cymru (HYC) yn darparu ar gyfer lefel fwy dwys o gefnogaeth i ysgolion y teimlwyd eu bod yn wynebu heriau mwy, fel y nodir isod.

### **Cyflwyno Her Ysgolion Cymru**

- 1.6 Mae HYC, a lansiwyd ym mis Mehefin 2014, yn cynrychioli ymdrech gyddunol ar ran Llywodraeth Cymru i ymateb i'r amrywioldeb ym mherfformiad gwahanol ysgolion ledled Cymru o ran cefnogi datblygiad eu disgyblion, yn arbennig y rheini o gefndiroedd difreintiedig. Gwnaed £20 miliwn ar gael yn ystod y flwyddyn gyntaf i gefnogi darpariaeth y rhaglen. Yn ychwanegol at yr adnoddau hynny a wnaed ar gael i 40 o ysgolion Llwybrau Llwyddiant (LI LI) a'u clystyrau ehangach (pob un fel arfer yn cynnwys yr ysgolion cynradd sy'n ei bwydo), mae cyllid hefyd wedi bod ar gael i'r Consortia er mwyn cynorthwyo i feithrin gallu o fewn y system addysg ehangach. Wedi ei nodi i gychwyn gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Consortia, targedwyd cefnogaeth at yr ysgolion hynny a nodwyd fel rhai oedd yn tanberfformio ac yn wynebu'r rhwystrau mwyaf i wella. Gan ddefnyddio dysgu blaenorol gan fentrau o'r math hyn, megis Heriau Llundain a Manceinion Fwyaf, anogwyd ysgolion LI LI, drwy'r rhaglen, i ystyried ansawdd eu harweinyddiaeth a'u rheolaeth, addysgu a dysgu, ac effeithiolrwydd eu gwaith gyda'r

gymuned ehagnach. Drwy wneud gwelliannau yn y meysydd hyn, y gobraith yw y bydd HYC yn cefnogi gwelliant mewn canlyniadau dysgu disgyblion, yn ogystal â chreu gwersi o'r datblygiadau hyn er mwyn cefnogi'r system addysg ehangach i wella. Mae'r rhaglen yn cynnwys ystod o ddulliau mesur megis darpariaeth cefnogaeth ac arweiniad allanol er mwyn cynorthwyo ysgolion sy'n cyfranogi i asesu'n fwy cywir yr heriau y maent yn eu hwynebu, a rhoi strategaeth all fynd i'r afael â'r rhain ar waith. Caiff prif elfennau'r rhaglen eu crynhoi isod.

### *Cynghorwyr Her Ysgolion Cymru*

- 1.7 Fel rhan o'r rhaglen clustnodwyd Cynghorydd Her Ysgolion Cymru (a elwir wedi hyn yn Gynghorydd) i bob ysgol LI LI. Mae disgwyl i Gynghorwyr chwarae rhan weithredol mewn cefnogi prosesau gwella eu hysgol. Wedi'u recriwtio gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Consortia, mae Cynghorwyr wedi'u contractio i ddarparu hyd at 25 diwrnod y flwyddyn o gefnogaeth broffesiynol i bob ysgol LI LI.
- 1.8 I ddechrau, yn dilyn proses recriwtio agored, recriwtiwyd 12 Cynghorydd. Yn dibynnu ar eu hymrwymadau proffesiynol presennol, clustnodwyd gwahanol niferoedd o ysgolion LI LI i'r Cynghorwyr yn amrywio, yn y flwyddyn gyntaf, o 2 i 8. Recriwtiwyd Cynghorwyr ar sail y gallu i ddangos *'hanes da o wella ysgol a thrawsnewid addysg ar gyfer plant a phobl ifanc'* (Llywodraeth Cymru, 2014b, t6)<sup>4</sup>.
- 1.9 Er mwyn darparu rhyngwyneb rhwng Cynghorwyr a Llywodraeth Cymru mae pob ysgol LI LI hefyd wedi derbyn swyddog cyswllt a enwir o'r Grŵp Hyrwyddwyr HYC<sup>5</sup>. Mae cyfarfodydd misol, a gadeirir gan yr Athro Mel Ainscow (hyrwyddwr penodedig Llywodraeth Cymru ar gyfer HYC), yn rhoi'r cyfle i Gynghorwyr rannu arfer effeithiol a thrafod sut y gellir cael yr effaith orau o'r rhaglen. Fel rhan o'u rôl mewn monitro perfformiad y

---

<sup>4</sup>Yn ymarferol mae Cynghorwyr wedi dod o ystod o gefndiroedd, gyda rhai â phrofiad o weithio fel uwch arweinydd (er nid bob amser fel Pennaeth) yn ysgolion Cymru, tra bod eraill wedi gweithio yn Lloegr yn unig.

<sup>5</sup>Mae'r Grŵp Hyrwyddwyr, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Mel Ainscow yn cynnwys Dewi Lake, Debbie Lewis, Syr Alasdair MacDonald ac Alan Tudor Jones. Gwaith y grŵp yw monitro perfformiad y rhaglen a sicrhau ei bod yn cael yr effaith mwyaf.

rhaglen, mae Hyrwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau ansawdd gwaith Cynghorwyr unigol.

#### *Cyllid Her Ysgolion Cymru*

- 1.10 Drwy'r rhaglen LI LI caiff ysgolion gyfle i wneud cais am gyllid ychwanegol i'w cynorthwyo i oresgyn eu rhwystrau i wella. Gan gofio'r gwahanol heriau sy'n wynebu pob ysgol LI LI, bu'n ofynnol i Uwch Arweinwyr, mewn partneriaeth â'u Cynghorydd a gyda chefnogaeth gan eu Hyrwyddwr, gyflwyno ceisiadau yn flynyddol. Rhaid i bob cais ddangos sut y bydd cyllid HYC yn cyfrannu at gynllun datblygu cyffredinol ysgol ac ychwanegu at (yn hytrach na dyblygu) gweithgaredd a gynlluniwyd. Ni osodwyd nenfwd ar gyfer ceisiadau am gyllid, er y gofynnir i Uwch Arweinwyr ystyried cynaliadwyedd unrhyw weithgareddau a gefnogir gan y cyllid. Bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno ar geisiadau unigol gyda chyllid yn cael ei dalu drwy'r Consortiwm perthnasol. Mae'r cyfrifoldeb am fonitro gwariant cyllid HYC, yn y man cyntaf, gan y Bwrdd Gwella Carlam ym mhob ysgol. Bydd Consortia (y mae gan bob un ohonynt Swyddog Cyswllt HYC penodol) yn goruchwyllo taliad priodol cyllid HYC.

#### *Bwrdd Gwella Carlam*

- 1.11 Fel amod o'u cyfranogiad yn HYC, mae gofyn i ysgolion LI LI sefydlu Bwrdd Gwella Carlam (BGC). Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu y dylai'r Bwrdd gyfarfod yn fisol ac y dylai gynnwys cynrychiolaeth o Bennaeth yr ysgol LI LI (a ddylai, pan fo hynny'n briodol, hefyd gadeirio'r cyfarfod), Cadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol, cynrychiolydd o'r Awdurdod Lleol, y Cynghorydd penodedig, a Phennaeth ysgol gynradd o fewn yr un clwstwr o ysgolion. Bwriedir i'r BGC ddal Uwch Arweinwyr ym mhob ysgol LI LI i gyfrif am weithrediad eu strategaeth gwella ysgol ddewisol a sicrhau bod unrhyw gyllid ychwanegol a gyrchir drwy HYC yn cael ei wario'n effeithiol (Llywodraeth Cymru, 2014).

### *Cynllun Datblygu Ysgol (Sengl)*

1.12 Mae gan bob ysgol LI LI hefyd gyfrifoldeb (gyda chefnogaeth gan eu Cynghorydd) am sicrhau bod eu Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) yn gyson â chanllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru cyn ei fod yn dod yn ofyniad gorfodol ym mis Medi 2015. Mae'r canllawiau'n nodi y dylai'r cynllun roi eglurhad cynhwysfawr o sut mae ysgol yn bwriadu goresgyn ei rhwystrau i wella. Wrth wneud hyn mae disgwyl i'r cynllun nodi blaenoriaethau a thargedau gwella tymor byr a hirdymor (cynaliadwy), y dulliau a ddefnyddir i ymateb i'r rhain, ac ar ba sail yr asesir perfformiad yr ysgol yn erbyn canlyniadau a ragwelir. Dylai'r gweithgareddau a gynigir yn y cynllun hefyd gael eu costio (yn ddelfrydol gyda chyfeiriad at ba ffynhonnell gyllido a ddefnyddir i'w cefnogi).

### **Nodau a dyluniad y gwerthusiad**

1.13 Mae dau nod cyffredinol i'r gwerthusiad:

- ystyried gweithrediad y rhaglen
- asesu canlyniadau'r rhaglen.

1.14 Nod Llywodraeth Cymru, drwy'r astudiaeth, yw deall effaith y dull a fabwysiadir drwy HYC i gefnogi ysgolion LI LI ac yn arbennig i ba raddau y mae'r gefnogaeth a roddwyd i ysgolion unigol wedi eu cynorthwyo i oresgyn eu rhwystrau i wella. Fel y nodir yn y canllawiau lefel rhaglen a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru (2014b), y prif feysydd i ganolbwyntio arnynt yw:

- **arweinyddiaeth a rheolaeth**, yn cynnwys strategaethau a fabwysiadwyd i wella sgiliau a galluoedd Uwch Arweinwyr a newidiadau mewn prosesau a gweithdrefnau
- **addysgu a dysgu**, yn cynnwys technegau a ddefnyddiwyd i nodi a chefnogi gwelliannau o ran gwybodaeth am bynciau ac arfer addysgedd, a chefnogi defnydd mwy effeithiol o asesu ffurfiannol a chyfunol
- **gweithio gyda'r gymuned ehangach** gan gynnwys ysgolion cynradd lleol i leihau effaith pontio ar ddisgyblion sy'n symud o

Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 a sicrhau ymgysylltiad effeithiol disgyblion drwy gydol eu cyfnod mewn addysg ffurfiol.

- 1.15 Mae cylch gwaith o'r fath wedi cael nifer o oblygiadau ar gyfer dyluniad y gwerthusiad. Nid y lleiaf ohonynt yw'r angen i addasu i natur amlweddol y rhaglen, a'r ffaith, yn dibynnu ar y dull a fabwysiadir gan ysgolion LI LI unigol, y gallai buddiolwyr gweithgaredd rhaglen gynnwys athrawon, disgyblion a rhieni sy'n gysylltiedig ag ysgol LI LI ond hefyd partneriaid lleol eraill.

*Dyluniad yr Ymchwil*

- 1.16 Cwblhawyd dyluniad yr ymchwil yn dilyn astudiaeth gwmpasu. Roedd hyn yn cynnwys cyfres o gyfweiliadau strategol gyda thîm polisi canolog Llywodraeth Cymru ac ystod o randdeiliaid perthnasol eraill, ac adolygiad o ddogfennau, er mwyn deall y cysyniadau, polisiâu a strategaethau sy'n sail i ddyluniad a lansiad y rhaglen. Cefnogodd y gweithgareddau hyn y gwaith o greu model rhesymeg cyffredinol ar gyfer yr astudiaeth. Fel y nodir yn Ffigur 1.1, mae'r model hwn yn crynhoi:

- **cysyniadau gwaelodol newid** ar gyfer HYC (yn cynnwys y bydd mynediad at raglen gefnogaeth bwrpasol o fewn fframwaith cyffredin yn cynorthwyo i nodi rhwystrau ar gyfer cynnydd mewn ysgolion LI LI a chefnogi gwelliannau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth, addysgu a dysgu ac ymgysylltu â'r gymuned)
- y **tybiannau** polisi ac arfer sy'n waelodol i'r ymyrraeth (yn tanategu lefel llwyddiant HYC mae nifer o dybiannau, yn cynnwys gallu ysgolion LI LI i weithio'n effeithiol gydag ysgolion cynradd y clwstwr)
- y gwahanol **fewnbynnau** sy'n codi o gyflwyniad HYC (yn cynnwys mynediad at gefnogaeth gan Gynghorydd a'r cyfle i wneud cais am gyllid ychwanegol)
- y berthynas ddisgwyliedig rhwng y mewnbynnau a'r **allbynnau** a ragwelir, megis sut mae cyllid HYC wedi ei ddefnyddio
- y **canlyniadau a ragwelir** (yn y tymor byr a'r hirdymor), a allai gynnwys gwelliannau yn ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn



ysgolion LI LI, yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu, ac o ran ymgysylltiad disgyblion

- yr **effaith** a ragamcannir ar gyfer yr ymyriadau, yr oedd disgwyl iddynt, ar y dechrau, gynnwys gwelliant mewn canlyniadau dysgu disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 (yn arbennig y gyfran o bobl ifanc sy'n cyrraedd L2 Cynhwysol a lleihad yn y bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion - yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ceisio cefnogi gwelliant mewn canlyniadau dysgu disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3.

**Ffigur 1.1: Model rhesymeg cryno ar gyfer Her Ysgolion Cymru**

Cyd-destun	Nodau ac amcanion	Mewnbynnau	Gweithgareddau	Allbynnau	Canlyniadau	Effeithiau
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Lefel isel o gyrhaeddiad/safonau addysgiadol mewn ysgolion gydag amgylchiadau cymdeithasol economaidd gwael</li> <li>• Cydweithio prin rhwng ysgolion</li> <li>• Strategaethau gwella ysgol presennol yn cynnwys y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu sgiliau ac arbenigedd gweithlu (addysgu ac arweinyddiaeth)</li> <li>• Rhannu arfer da, gwella ansawdd/amlder cydweithio proffesiynol</li> <li>• Gwella ymgysylltiad â'r gymuned</li> <li>• Gwella canlyniadau ar gyfer yr holl ddysgwyr a lleihau effaith amddifadedd ar gyflawniad disgybl</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyllid ac arbenigedd i gefnogi 40 ysgol uwchradd (ac ysgolion cynradd clwstwr)</li> <li>• Tim o Gyngorwyr Her Ysgolion Cymru</li> <li>• Cydweithio gyda Consortia Addysg Rhanbarthol ac ati</li> <li>• Adnoddau mewn nwyddau gan ysgolion partner (o fewn clwstwr yr ysgol ac yn fwy eang)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogaeth ddwys gan Gyngorydd Her Ysgolion i;</li> <li>• Gefnogi hunanwerthusiad ysgol</li> <li>• Gwella ansawdd cynllunio gwella ysgol</li> <li>• Cydlynu defnydd adnoddau gwella ysgol</li> <li>• Cefnogi datblygiad partneriaethau gydag ysgolion eraill</li> <li>• Cefnogi datblygiad 'Cynnig i Ddisgyblion' cynaliadwy</li> <li>• Annog ymgysylltiad â'r gymuned</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aseidiadau hunanwerthuso wedi'u cwblhau (ysgol a Chyngorydd)</li> <li>• Cynllun Datblygu Ysgol Sengl</li> <li>• Bwrdd Gwella Carlam</li> <li>• Data adborth disgyblion</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnydd mewn hyder /lefelu sgiliau ymhlith uwch arweinwyr/athrawon dosbarth</li> <li>• Gwelliannau yn ansawdd yr arweinyddiaeth a rheolaeth</li> <li>• Gwelliannau yn ansawdd yr addysgu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella canlyniadau dysgu ar gyfer pobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 2, 3 a 4.</li> <li>• Culhau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion</li> <li>• Gwell lles disgyblion</li> </ul>

Ffynhonnell: SQW

## *Ffynonellau tystiolaeth*

1.17 Codwyd y data sydd yn yr astudiaeth hon o:

- adolygiadau desg o ddogfennaeth sydd ar gael yn gyhoeddus a dogfennaeth sy'n benodol i HYC, yn cynnwys ffurflenni hunanwerthuso wedi'u cwblhau, CDY Sengl ac adroddiadau Cynghorwyr - adolygwyd 217 o ddogfennau
- cyfres o gyfweiliadau cwmpasu gyda phersonél allweddol a oedd yn gysylltiedig â HYC (o'r tîm polisi, y Consortia ac aelodau o Grŵp Hyrwyddwyr HYC) - cynhaliwyd 11 o gyfweiliadau
- dadansoddiad eilaidd o ddata sydd ar gael ar wefan StatsCymru ac ar wefannau ysgolion unigol er mwyn mapio'r man cychwyn ar gyfer pob un o'r 40<sup>6</sup> ysgol LI LI
- ymgynghoriadau gyda'r 12 Cynghorydd Her HYC
- ymweliadau â 38 o'r 39 clwstr LI LI - cwblhawyd 250 o gyfweiliadau yn ystod yr ymweliadau, yn cynnwys gyda'r canlynol:
  - Penaethiaid/Uwch Arweinwyr a staff eraill mewn ysgolion LI LI a'u hysgolion cynradd clwstr
  - aelodau BGC gweithredol (yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol)
  - llywodraethwyr ysgol
- arolygon ar-lein a phapur gyda disgyblion
  - 802 o ddisgyblion Blwyddyn 6 mewn 28 ysgol gynradd clwstr
  - 1,526 o ddisgyblion Blwyddyn 7 a 1,590 o ddisgyblion Blwyddyn 9 mewn 19 ysgol (LI LI) uwchradd

---

<sup>6</sup>Yn dilyn lansio'r rhaglen fe wnaeth Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Michaelston uno gan greu Ffederasiwn Glyn Derw a Michaelston. Er bod y ddwy ysgol, yn weinyddol, yn parhau'n endidau ar wahân, dangosodd tystiolaeth a gasglwyd yn ystod ein hymweliad raddau uchel o orgyffwrdd mewn staffio gydag ymarferwyr yn gweithio ar y ddau safle. Felly ar gyfer dibenion dadansoddi, rydym wedi ystyried Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Michaelston fel un safle astudiaeth achos.

- cwblhaodd bedwar o bob pump o'r ymatebwyr (3,161) yr arolwg ar-lein, gyda 757 (19%) yn ei gwblhau ar bapur.

### *Strwythur yr Adroddiad*

1.18 Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn.

- **Adran 2: Deall anghenion ysgolion LI LI:** Yn yr adran hon rydym yn ystyried yr heriau a wynebwyd gan ysgolion LI LI o ran goresgyn rhwystrau i wella. Rydym hefyd yn ystyried a ellid deall orau'r dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI drwy gyfeirio at eu cyfeiriad gwella blaenorol.
- **Adran 3: Canllawiau lefel rhaglen a chefnogaeth ar gyfer ysgolion LI LI:** Mae'r adran hon ystyried i ba raddau y mae canllawiau lefel rhaglen gan Llywodraeth Cymru wedi dylanwadu ar ddulliau ysgolion LI LI.
- **Adran 4: Y gefnogaeth a ddarparwyd gan Gynghorwyr Her Ysgolion Cymru:** Yn yr adran hon rydym yn ystyried cyfraniad Cynghorwyr o ran cefnogi gwelliannau mewn ysgolion LI LI. Rydym hefyd yn myfyrio ar y strategaethau a fabwysiadwyd gan Gynghorwyr er mwyn ymgysylltu ag Uwch Arweinwyr a phriodweddau Cynghorwyr llwyddiannus mewn cyflawni eu rôl.
- **Adran 5: Gwaith Byrddau Gwella Carlam:** Mae'r adran hon yn archwilio ymateb ysgolion LI LI i'r gofyniad i sefydlu BGC. Rydym hefyd yn ystyried rôl a chyfraniad canfyddedig aelodau BGC mewn cefnogi ysgolion LI LI i oresgyn eu rhwystrau i wella.
- **Adran 6: Defnydd cyllid HYC:** Yn yr adran hon rydym yn edrych ar y ffyrdd y mae ysgolion LI LI wedi defnyddio cyllid HYC. Rydym hefyd yn archwilio'r canfyddiad o addasrwydd y polisiau a'r gweithdrefnau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru o ran cefnogi taliad y cyllid ac asesu cyfraniad cyllid HYC mewn cynorthwyo ysgolion LI LI i oresgyn eu rhwystrau i wella.
- **Adran 7: Dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI:** Mae'r adran hon yn ystyried dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI er mwyn diwallu eu hamcanion gwella ysgol a sut y maent yn symud tuag at

fframwaith ar gyfer deall y gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd gan wahanol ysgolion.

- **Adran 8: Nodi effeithiau sy'n dod i'r amlwg o gyfranogi yn Her Ysgolion Cymru ar ysgolion LI LI a'r camau nesaf ar gyfer y gwerthusiad:** Yn yr adran hon rydym yn edrych ar y dulliau a ddefnyddiwyd gan ysgolion LI LI er mwyn asesu eu cynnydd o ran diwallu eu hamcanion gwella ysgol, ystyried pa dystiolaeth sydd ar gael ar y cam hwn i gefnogi asesiad effaith y rhaglen. Rydym hefyd y trafod goblygiadau ein casgliadau ar gyfer y gwerthusiad parhaus.

## 2 Deall anghenion ysgolion LI LI

2.1 Yn yr adran hon rydym yn archwilio nodweddion a pherfformiad hanesyddol yr ysgolion hynny a ddewiswyd i gael eu cynnwys yn HYC fel ysgol Llwybrau Llwyddiant (LI LI). Drwy gydnabod yr hyn sy'n gyffredin ac yn wahanol rhwng ysgolion unigol, rydym yn ystyried canlyniadau tebygol rhain ar gyfer cyflwyniad y rhaglen a'r gwerthusiad. Rydym hefyd yn archwilio grym esboniadol posibl edrych ar yr ysgolion LI LI gan gyfeirio at eu perfformiad hanesyddol ac at yr hyn a welwyd yn ystod y gwaith maes ansoddol o ran cyfeiriad eu datblygiad. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn defnyddio'r grwpio archwiliadol hwn fel lens werthuso er mwyn ystyried gwahaniaethau yn y dulliau y maent wedi'u mabwysiadu, ac i archwilio perfformiad gwahanol ysgolion LI LI dros gyfnod yr ymyriad.

### Deall perfformiad hanesyddol ysgolion LI LI

- 2.2 Cydnabu Llywodraeth Cymru, er y dylai'r rhaglen gael ei thargedu at yr ysgolion sydd wedi'u '*herio*' fwyaf yng Nghymru, bod gwahanol ysgolion yn debygol o wynebu '*gwahanol heriau*' (Llywodraeth Cymru, 2014b). Er mwyn adlewyrchu hyn, defnyddiwyd amrywiaeth o ddangoswyr i greu mynegai her. Gan ddefnyddio cyfartaledd tair blynedd, defnyddiwyd data perfformiad ysgolion i greu rhestr hir o ysgolion, ac o hon dewiswyd y 40 ysgol derfynol mewn ymgynghoriad â Consortia<sup>7</sup>.
- 2.3 Hyd yn oed o fewn y 40 o ysgolion LI LI mae lefel cymharol uchel o amrywioldeb ar draws nifer o ddangosyddion perfformiad, gyda rhai ysgolion yn fel petaent yn perfformio'n well ar rai dangosyddion cenedlaethol nac eraill. Yn 2014, er enghraifft, roedd y gyfran uchaf o ddisgyblion yn cyflawni L2 Cynhwysol yng Nghyfnod Allweddol 4 mewn ysgol LI LI yn 70.7%, gyda'r cymedr cenedlaethol yn 55.4%. Fodd bynnag, ar ben arall y raddfa, roedd y gyfran isaf o ddisgyblion yn cyflawni'r meincnod hwn mewn ysgol LI LI yn 21.5%, gwahaniaeth o 49.2 pwynt canran a 33.9 pwynt canran yn is na'r cymedr cenedlaethol.

---

<sup>7</sup> Pan gaslwyd ynghyd yr adroddiad hwn, roeddem wedi ymweld â 38 o'r 39 ysgol.

Canfuwyd hefyd bod lefelau amddifadedd economaidd-gymdeithasol hefyd yr un mor amrywiol. Yn 2014, pan oedd y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer disgyblion oedd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 17.5%, roedd gan yr ysgolion LI LI mwyaf difreintiedig 43.0% o ddisgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, tra bod 11.4% o'r disgyblion (6.1 pwynt canran yn is na'r cymedr cenedlaethol) yn gymwys yn yr ysgol LI LI lleiaf difreintiedig (Llywodraeth Cymru, 2016b).

- 2.4 Er bod data o'r fath yn amlwg yn bwysig er mwyn fframio unrhyw drafodaeth ynglŷn â lefel yr her sy'n wynebu'r ysgolion hyn, nid yw'n dweud llawer wrthym am y dull a fabwysiadwyd gan wahanol ysgolion i nodi a goresgyn unrhyw rwystrau i wella, neu eu llwyddiant cymharol yn hyn o beth cyn eu cynnwys yn HYC. Ar gyfer hyn, mae'n bwysig cael asesiad llawer mwy cyfannol o'r ysgol, gan syntheseisio data meintiol ac ansoddol gan randdeiliaid allweddol.
- 2.5 Pan ofynnwyd iddynt feddwl am yr heriau y gwnaethant eu hwynebu, dywedodd cyfweleion mewn nifer o'r ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy (35 o'r 38) eu bod, yn y gorffennol, wedi ei chael hi'n anodd goresgyn y rhwystrau a berwyd gan lefelau uchel o amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn eu dalgyrch. Teimlwyd yn gyffredinol bod hyn yn cyfrannu at lefelau isel o ymgysylltiad disgyblion a rhieni. Wrth geisio lliniaru'r heriau hyn, nododd y cyfweleion nad oedd '*un ateb addas i bawb*' (Cynghorydd). Fel y dadleuodd un Pennaeth mewn ysgol LI LI wledig, un o'r prif heriau yn wynebu ei ysgol oedd sut i wella presenoldeb disgyblion. Er mwyn gwneud hynny roedd angen i'r ysgol ddechrau goresgyn yr heriau a berwyd gan natur wledig yr ysgol a'r diffyg gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus rheolaidd. Nododd, mewn nifer o achosion, pe bai disgybl yn methu'r bws ysgol yn y bore nid oedd unrhyw ffordd arall y gallai gyrraedd yr ysgol y diwrnod hwnnw. Mewn ysgol arall, lle ystyriwyd hefyd bod presenoldeb yn her, dywedodd y Pennaeth mai'r rhesymau dros hyn oedd nid lleoliad yr ysgol (roedd mewn dalgyrch trefol), ond yn hytrach demograffeg y gymuned leol. Dywedodd mai'r brif broblem oedd datblygu perthynas effeithiol gyda nifer fawr o ddisgyblion o'r gymuned Teithwyr a oedd ar gofrestr yr ysgol.

- 2.6 Er bod nifer o'r cyfweleion yn yr ysgolion LI LI (a'u hysgolion cynradd clwstwr) wedi dweud bod ymateb i heriau cyd-destunol o'r fath yn rhan bwysig o gynllunio gwella ysgol, gwnaethant hefyd gydnabod bod effeithiolrwydd y cynllunio hwn yn dibynnu ar welliannau yn arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgolion. Yn wir, teimlai mwyafrif y staff mewn tri chwarter yr ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy (29 o'r 38) mai hwn oedd un o'r prif rwystrau i wella.
- 2.7 Fodd bynnag, dywedodd y cyfweleion hefyd bod eu hysgolion ar gamau gwahanol iawn yn eu hymateb i'r her hon o wella arweinyddiaeth. Mewn ychydig dan un o bob pump ysgol LI LI y gwnaethom ymweld â hwy nodwyd y bu, dros y flwyddyn academaidd cyn eu cynnwys yn HYC, newidiadau mawr yn Uwch Dîm Arwain yr ysgol. Mewn ysgolion o'r fath roedd y pwyslais ar roi'r gofod a'r amser i arweinwyr newydd nodi ac yna gyflawni rhaglen wella (briodol). Mewn ysgolion eraill, lle roedd yr Uwch Dîm Arwain wedi bod yn ei le ers cwpl o flynyddoedd, roedd hi'n amlwg, yn y rhan fwyaf o achosion, bod glasbrint ar gyfer gwella eisoes ar waith a bod y ffocws ar weithredu hwn.

### **Symud tuag at system ar gyfer deall cynnydd mewn ysgolion LI LI**

- 2.8 Gan gofio'r amrywioldeb a welwyd yn lefel yr her a wynebwyd gan wahanol ysgolion LI LI, er mwyn datblygu dealltwriaeth o natur y dull a fabwysiadwyd gan yr ysgolion hyn rydym yn awgrymu y gallai fod yn ddefnyddiol i ystyried yr ysgolion yn ôl cyfeiriad eu cyfeiriad *cyn* gweithrediad HYC. Yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata gweinyddol<sup>8</sup> a gwybodaeth am berfformiad a gasglwyd yn ystod ein gwaith maes ansoddol mewn 38 o'r 39 ysgol LI LI, gwnaethom nodi tri grŵp gwahanol o ysgolion.
- **Grŵp A:** Ysgolion yr oedd ansawdd y ddarpariaeth yn ymddangos fel pe bai wedi bod yn **lleihau** cyn ymgysylltu â HYC ac roeddent mewn perygl o ddirywio ymhellach.

---

<sup>8</sup>Roedd mynegiadau cyd-destunol allweddol yn cynnwys; cyfran y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim, lefelau cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 4 ac adroddiadau arolwg a gynhyrchwyd gan Estyn.




- **Grŵp B:** Ysgolion yr oedd ansawdd y ddarpariaeth yn ymddangos fel pe bai'n **sefydlog** cyn ymgysylltu â HYC ond y canfyddwyd eu bod angen gwella.
- **Grŵp C:** Ysgolion yr oedd ansawdd y ddarpariaeth wedi **dechrau gwella** cyn ymgysylltu â HYC.

2.9 Wrth ddefnyddio'r dull hwn mae'n bwysig cydnabod y cyfyngiadau methodoleg a ddefnyddiwyd i grwpio ysgolion, yn arbennig y ffaith mai drwy gyfweiliadau gyda rhanddeiliaid allweddol y cafwyd y brif ffynhonnell wybodaeth. Er gwaethaf hyn, teimlwn fod dull o'r fath yn cynnig yr asesiad mwyaf cywir o'r cam y teimlai mwyafrif y rhanddeiliaid perthnasol fod pob ysgol LI LI arno cyn eu cynnwys yn HYC. Wrth wneud hyn, rydym hefyd yn cydnabod cyfyngiadau data gweinyddol ar ei ben ei hun a'r cyfnod amser anochel cyn y gallai unrhyw newidiadau yn ansawdd y ddarpariaeth ddechrau troi'n welliant yng nghanlyniadau dysgu disgyblion. Mae'n anochel, wrth geisio grwpio fel hyn, y bydd wastad ysgolion sydd ddim yn ffitio'n daclus i un grŵp neu'r llall. Mewn achosion o'r fath, rydym wedi ymestyn ein gwybodaeth gyda chyfeiriad at ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus, megis data Estyn a gwybodaeth ddiweddar am berfformiad disgyblion, er mwyn gwirio barn y rhanddeiliaid hynny y gwnaethom siarad â hwy. Mae grwpio ysgolion fel hyn wedi rhoi modd i ddeall a dehongli gwahaniaethau yn y dulliau a fabwysiadwyd gan wahanol ysgolion.

2.10 Cyflwynir canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn Ffigur 2-1. Yn gryno, teimlwyd bod 8 ysgol mewn perygl o barhau i ddirywio hyn yn oed yn dilyn eu cynnwys yn HYC. Teimlwyd yn gyffredinol bod 16 arall o'r 38 ysgol LI LI yn sefydlog cyn eu cynnwys yn y rhaglen, ond eu bod angen gwelliant mawr. Teimlwyd bod y 14 ysgol sy'n weddill wedi dechrau gwella cyn ymgysylltu â HYC, er bod meysydd lle gallai fod angen cefnogaeth ychwanegol.

**Ffigur 3 1: Grwpio ysgolion Llwybrau Llwyddiant**



Ffynhonnell: SQW

2.11 Efallai y caiff grym esboniadol y fframwaith cysyniadol hwn ei ddangos orau drwy ystyried y gwahaniaethau amlwg mewn blaenoriaethu arweinyddiaeth a rheolaeth gan gyfweleion mewn gwahanol ysgolion LI LI, a gan y dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion mewn ymateb i'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu yn hyn o beth. Fel y crynhoir ym mharagraff 2.6, dywedodd mwyafrif y staff yn 29 o'r 38 ysgol LI LI y gwnaethom ymweld â hwy mai ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn eu hysgol oedd un o'r prif rwystrau i wella. Fodd bynnag, ymhlith yr ysgolion hynny y canfyddwyd eu bod yn Grŵp C (hynny yw, y rheini a fyddai wedi dechrau gwella cyn eu cynnwys yn HYC) dywedodd y cyfweleion mewn dim ond hanner o'r rhain (7 o'r 14) mai arweinyddiaeth a rheolaeth oedd un o'u prif bryderon. Mewn ysgolion o'r fath, teimlwyd yn llawer mwy cyffredinol mai **ansawdd yr addysgu** oedd un o'r prif rwystr i wella. I'r gwrthwyneb, mewn ychydig dan ddwy ran o dair o ysgolion Grŵp A (5

o'r 8), dywedodd cyfweleion mai gwella ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth oedd eu prif bryder.

2.12 Gwelwyd hefyd bod gan wahaniaethau o'r fath mewn blaenoriaethu cyffredinol oblygiadau sylweddol ar gyfer y math o ddulliau a fabwysiadwyd ar gyfer gwella gan wahanol ysgolion. Er enghraifft, mewn 5 o'r 14 ysgol Grŵp C y gwnaethom ymweld â hwy (ysgolion y teimlwyd yn gyffredinol eu bod wedi dechrau gwella cyn eu cynnwys yn y rhaglen), dywedodd y cyfweleion eu bod yn teimlo mai un o brif gryfderau'r ysgol oedd sgiliau ac arbenigedd y Pennaeth. Yn yr ysgolion hyn roedd y pwyslais ar feithrin gallu arweinyddiaeth ehangach drwy'r ysgol yn gyfan, yn arbennig ymhlith arweinwyr canol (megis Pennaethiaid Adran neu Gyfadran). I'r gwrthwyneb, mewn ysgolion Grŵp A (yr ysgolion hynny y teimlwyd yn gyffredinol eu bod yn rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i wella) roedd cyfweleion ar y cyfan o'r farn bod cryfder yr Uwch Dîm Arwian yn fater o bryder a bod gwaith yn mynd rhagddo i feithrin sgiliau'r grŵp hwn i gefnogi datblygiad a chyflawni strategaeth gwella ysgol briodol.

2.13 Mae'r dull hwn ar gyfer dosbarthu ysgolion LI LI hefyd yn cael cefnogaeth, pa bynnag mor betrus ydyw, yn ein dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg 'Chi a'ch Ysgol'. Rhoddwyd yr arolwg i ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 a/neu Blwyddyn 9 yn 19 o'r 39 ysgol LI LI<sup>9</sup>. Roedd yn archwilio sut yr oedd disgyblion yn gweld eu hamgylchedd dysgu a'r gefnogaeth yr oeddent yn ei chael gan eu hathrawon a'u rhieni. Roedd hefyd yn ystyried effaith eu hysgol ar eu barn am (a'i dyheadau ar gyfer) eu cynnydd o ran dysgu. Canfu dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg bod gwahaniaethau sylweddol ym marn disgyblion yn y tri gwahanol fath o ysgolion<sup>10</sup>. Er enghraifft, roedd disgyblion yn yr ysgolion hynny y teimlwyd yn gyffredinol eu bod yn wynebu'r rhwystrau mwyaf i wella (ysgolion Grŵp A) yn llawer llai tebygol na'u cyfoedion i ddweud eu bod yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau gwahanol yn yr

---

<sup>9</sup>Gofynnwyd i bob un o'r 39 ysgol LI LI a fyddent yn fodlon cefnogi gweinyddiad yr arolwg. Gallai pedair ysgol ar bymtheg wneud hynny.

<sup>10</sup>I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag arolwg 'Chi a'ch Ysgol', Gweler Atodiad A.

ysgol (yn cynnwys chwaraeon a chelfyddydau perfformio). Dywedodd y disgyblion hyn hefyd bod eu hathrawon, er yn gefnogol, yn defnyddio ystod fwy cyfyngedig o strategaethau addysgu nag a welodd disgyblion ymhlith athrawon mewn naill ai ysgolion Grŵp B neu Grŵp C. Roedd yr ystod o wahanol strategaethau addysgu y dywedodd disgyblion oedd yn rhai sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd (yn aml yn ddyddiol) yn sylweddol uwch mewn ysgolion y teimlwyd yn gyffredinol eu bod wedi dechrau gwella cyn eu cynnwys yn y rhaglen (ysgolion Grŵp C).

2.14 Yn drawiadol, roedd y gwahaniaethau yn y mathau o gyfleoedd dysgu a gynigiwyd i ddisgyblion mewn gwahanol ysgolion LI LI yn cyfateb i dystiolaeth o wahanol lefelau o ymgysylltu. Er enghraifft, adroddwyd lefelau uwch o driwantiaeth a bod yn hwyr gan ddisgyblion mewn ysgolion Grŵp A, er (yn ddiamau) roeddent yn dueddol o sôn am lefelau uwch o'r ddwy elfen ymhlith eu ffrindiau yn hytrach na rhywbeth yr oeddent hwy eu hunain yn rhan ohonynt. Fe wnaeth disgyblion yn yr ysgolion hyn hefyd fynegi lefelau is o ymgysylltu â'u hysgol (er nid gyda'u cyfoedion, yr oeddent ar y cyfan yn teimlo'n hapus gyda hwy) na disgyblion cyfatebol mewn ysgolion eraill. Dylid bod yn ofalus wrth ystyried y casgliadau hyn, o gofio'r nifer cyfyngedig o ysgolion LI LI a gymerodd ran.<sup>11</sup> Fodd bynnag maent yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad i wahaniaethau o ran profiad ac ymddygiad posibl ymhlith disgyblion a all, yn ei dro, gael goblygiadau ar gyfer eu canlyniadau tymor hwy. Er enghraifft, cydnabyddir bod presenoldeb gwael yn ffactor gyfranogol gref mewn canlyniadau cyrhaeddiad is (gweler Morris a Rutt, 2005).

2.15 O gofio lefel yr amrywioldeb a welwyd mewn ysgolion LI LI, mae'n bwysig ystyried goblygiadau hyn ar gyfer y gwerthusiad. Er nad yw'r fframwaith a nodir uchod wedi'i fwriadu i egluro perfformiad ysgolion LI LI, mae'n rhoi fframwaith cysyniadol y gellir ei ddefnyddio i ddeall ac, yn y pen draw, i brofi effeithiolrwydd y dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI.

---

<sup>11</sup> Cymerodd pedair ar bymtheg ysgol LI LI ran. Cafwyd ymatebion gan 3,016 o bobl ifanc. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag arolwg 'Chi a'ch Ysgol', Gweler Atodiad A.

2.16 Gan gydnabod y gall nodau/amcanion gwahanol ysgolion LI LI fod yn wahanol iawn, bydd hi hefyd yn bwysig ystyried i ba raddau y mae'n ystyrlon i asesu effeithiolrwydd y rhaglen drwy ddulliau mesur rhaglen-gyfan. Hyd yn oed pan fo ysgolion yn archwilio eu perfformiad gan ddefnyddio dulliau mesur tebyg (megis canran y disgyblion L2 Cynhwysol), mae gwahaniaethau yn eu cyfeiriad perfformiad hanesyddol yn gwneud unrhyw gymhariaeth uniongyrchol o ganlyniadau a gyflawnwyd yn annoeth.

### **Crynodeb Adran: Deall anghenion ysgolion LI LI**

#### **Deall perfformiad hanesyddol ysgolion LI LI**

- Mae dadansoddiad o ffynonellau data gweinyddol cenedlaethol yn dangos lefel cymharol uchel o amrywioldeb ymhlith ysgolion LI LI ar draws ystod o ddangosyddion perfformiad a chyd-destunol, yn cynnwys y gyfran o ddisgyblion a oedd, yn y gorffennol, wedi cyflawni L2 Cynhwysol.
- Mae deall y **gwahanol** heriau sy'n wynebu ysgolion LI LI i oresgyn eu rhwystrau i wella yn bwysig er mwyn gwneud asesiad mwy cyfannol o'r ysgol, gan ystyried barn rhanddeiliaid allweddol.

#### **Symud tuag at system ar gyfer deall cynnydd mewn ysgolion LI LI**

- Mae synthesis o'r dadansoddiad o ffynonellau data gweinyddol cenedlaethol ac adborth gan rhanddeiliaid yn awgrymu ei bod yn debygol y dylanwadir ar y dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI gan eu llwybr cyn iddynt gael eu cynnwys yn HYC ac, yn arbennig, perfformiad arweinwyr eu hysgol.
  - **Grŵp A:** Ysgolion y mae ansawdd y ddarpariaeth yn ymddangos fel pe bai wedi bod yn **lleihau** cyn ymgysylltu â HYC. Gwnaethom asesu **8** o'r 38 ysgol LI LI y gwnaethom ymweld â hwy i fod yn ysgolion Grŵp A.
  - **Grŵp B:** Ysgolion y mae ansawdd y ddarpariaeth yn ymddangos fel pe bai'n **sefydlog** cyn ymgysylltu â HYC ond y canfyddwyd eu bod angen gwella. Gwnaethom asesu **16** o'r 38 ysgol LI LI y gwnaethom ymweld â hwy i fod yn ysgolion Grŵp B.
  - **Grŵp C:** Ysgolion yr oedd ansawdd y ddarpariaeth wedi **dechrau gwella** cyn ymgysylltu â HYC. Gwnaethom asesu **14** o'r 38 ysgol LI LI y gwnaethom ymweld â hwy i fod yn ysgolion Grŵp C.

### 3 Canllawiau lefel rhaglen a chefnogaeth ar gyfer ysgolion LI LI

3.1 Yn yr adran hon rydym yn ystyried i ba raddau y mae canllawiau wedi effeithio ar y ffyrdd y mae ysgolion LI LI wedi nodi ac ymateb i'w rhwystrau i wella. Mae meysydd allweddol yr ydym yn eu hystyried yn cynnwys:

- y wybodaeth a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n trafod nodau ac amcanion y rhaglen
- y canllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi creu 'Cynlluniau Datblygu Ysgol (Sengl)' (CDY Sengl)
- y canllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cyflwyniad y Cynnig i 'Ddisgyblion'.

#### Canllawiau lefel rhaglen

3.2 Yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen, dywedodd y cyfweleion bod ansawdd gwybodaeth a chanllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ysgolion LI LI (a'r clwstwr ehangach) wedi gwella. Roedd llawer, fodd bynnag, yn feirniadol o'r modd y cafodd diben y rhaglen ei chyfathrebu'n allanol. Er gwaethaf ymdrechion Llywodraeth Cymru i wneud yn iawn am gamsyniadau'r cyhoedd, roedd cyfweleion yn aml yn cyfeirio at y cysyniad ehangach ohonynt ymhlith y gymuned, fel rhan o'r '*deugain drwg*'. Nodwyd bod y cyfryngau wedi defnyddio'r term hwn i ddisgrifio ysgolion LI LI yn dilyn lansio'r rhaglen.

3.3 Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd Uwch Arweinwyr fel petaent wedi symud heibio'r nodwedd wreiddiol hon, ond dywedodd nifer bod hyn wedi bod yn rhwystr i gael gweddill y tîm staff i fod yn gefnogol. Mewn ysgolion a oedd yn wynebu lleihad yn y nifer ar y gofrestr, nododd nifer o Benaethiaid bod hyn yn cael ei ystyried yn lleol fel '*un rheswm arall i rieni anfon eu plentyn i rywle arall*' (Pennaeth, Ysgol LI LI). Fodd bynnag, gan ei bod wedi dod yn gliriach y byddai ysgolion LI LI ac ysgolion yn eu clwstwr ehangach yn elwa o gefnogaeth ychwanegol, yn arbennig mynediad at gyllid newydd, nododd y cyfweleion mewn ysgolion eu bod

wedi ei chael hi'n haws i siarad am y rhaglen fel '*cyfle yn hytrach na chosb*' (Uwch Arweinydd, Ysgol LI LI).

- 3.4 Gyda'r cyfle i gyrchu cefnogaeth ychwanegol, bu nifer o'r cyfweleion yn meddwl am y cyfrifoldeb a roddwyd ar y rheini oedd yn gysylltiedig â chefnogi ysgolion LI LI i sicrhau bod gwelliant amlwg yng nghanlyniadau disgyblion dros fywyd y rhaglen. Tra cafodd ffocws o'r fath groeso cyffredinol, roedd pryder ynglŷn ag i ba raddau yr oedd hi'n rhesymol i ddisgwyl y byddai canlyniad o'r fath yn cael ei gyflawni dros yr amserlen gymharol fyr y byddai'r rhaglen yn cael ei chyflenwi. Gwnaethant bwysleisio mai hyn yn arbennig oedd yr achos os byddai'r pwyslais cywir i'w roi ar sicrhau bod ysgolion LI LI yn cael eu rhoi ar lwybr gwella cynaliadwy. Nododd nifer o'r cyfweleion y gwnaethom siarad â hwy, yn arbennig y rheini oedd yn gweithio gyda neu mewn ysgolion Grŵp A (yr ysgolion hynny oedd yn wynebu rhai o'r heriau mwyaf), eu bod wedi treulio'r flwyddyn gyntaf yn gosod y blociau adeiladu yn eu lle ar gyfer amgylchedd dysgu gweithredol. Pe bai'n llwyddiannus, byddai hyn yn rhoi'r ysgol ar lwybr cynnydd sefydlog, ond byddai angen llawer mwy o waith i gael yr ysgol i gyrraedd man lle roedd wedi gwneud yr holl welliannau a oedd yn ofynnol ganddi.

#### *Gweithio mewn clwstwr*

- 3.5 Drwy'r rhaglen, mae Llywodraeth Cymru wedi annog ysgolion LI LI i weithio gyda'u clwstwr ehangach (sydd fel arfer yn cynnwys yr ysgolion cynradd sy'n eu bwydo). Y gobaith yw y bydd gwell gweithio mewn clwstwr yn sicrhau bod manteision HYC yn cael eu rhannu ar draws tirwedd addysgol ehangach. Wrth ymgysylltu ag ysgolion cynradd clwstwr, anogwyd ysgolion LI LI i ystyried beth yn rhagor allant ei wneud i gefnogi gwell canlyniadau dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 ac i leihau unrhyw effaith negyddol disgyblion yn symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Fel y gellid disgwyl, roedd tystiolaeth o weithio mewn clwstwr yn y mwyafrif (ychydig dros ddwy ran o dair) o ysgolion LI LI yr ymwelwyd â hwy. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion teimlai'r cyfweleion bod y gwaith a wnaed yn ym Mlwyddyn 1 y rhaglen (2014/15) fawr ddim gwahanol i'r hyn oedd wedi digwydd yn y gorffennol. Er enghraifft, roedd

gan nifer o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy drefniadau ar waith eisoes i alluogi disgyblion Blwyddyn 6 i ymweld â'r ysgol LI LI uwchradd a chwrdd â'r athrawon Blwyddyn 7 er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gyfarwydd â'r amgylchedd. Fel mae hyn yn dangos, roedd pwyslais gweithgaredd yn parhau'n drwm ar liniaru effaith emosiynol neu gymdeithasol y pontio, yn hytrach na gwella canlyniadau dysgu disgyblion.

3.6 Roedd uchelgais ymhlith nifer o gyfweleion i wneud mwy yn ail flwyddyn y rhaglen. Fel y crynhowyd gan un Pennaeth, er bod *'gwaith [pontio] o'r fath yn bwysig, nid hwn ddylai fod y man cychwyn'* (Pennaeth, Ysgol Gynradd Clwstwr). Mewn clystyrau a oedd yn rhannu'r farn hon, gwelwyd bod diddordeb cynyddol mewn archwilio cyfleoedd i *'wella parhad dysgu'* (Pennaeth, Ysgol Gynradd Clwstwr). Mewn clystyrau oedd wedi datblygu rhaglen waith gyda'r nod hwn, gellid nodi nifer o elfennau cyffredin:

- **Cymedroli Aseidiadau Athrawon yng Nghyfnod Allweddol 2:** Er bod cyfweleion yn dweud bod clystyrau (yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ysgol uwchradd briodol) oedd yn hanesyddol wedi dod ynghyd i gefnogi cymedroli aseidiadau athrawon yng Nghyfnod Allweddol 2, mewn nifer o achosion roedd cael eu cynnwys yn HYC wedi golygu bod hyn yn dod yn llawer mwy o flaenoriaeth. Er enghraifft, lle byddai gwaith cymedroli yn y gorffennol wedi cael ei wneud gan Gydlynwyr Pontio, roedd Pennaethiaid (neu o leiaf aelod o'r Uwch Dîm Arwain) o bob ysgol wedi mynychu cyfarfodydd eleni. Dywedodd y cyfweleion bod y cyfarfodydd, gyda llawer mwy o gefnogaeth gan bob cyfnod, wedi bod yn llawer mwy effeithiol o ran herio diffyg parhad canfyddedig rhwng perfformiad disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 6 ac wrth fynd i mewn i Flwyddyn 7.
- **Cyfleoedd DPP:** Mewn saith clwstwr, dywedodd cyfweleion y bu cynnydd, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn nifer y cyfleoedd DPP neu gyfleoedd hyfforddi eraill a oedd yn agored i ymarferwyr ym mhob cyfnod. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y rhain yn ceisio defnyddio gwybodaeth bynciol ymarferwyr uwchradd i rannu eu



harbenigedd gyda'u cydweithwyr cynradd. Fodd bynnag, mewn nifer fechan o achosion, teimlwyd y byddai ymarferwyr uwchradd hefyd yn elwa o gael mwy o ymwybyddiaeth o'r dulliau addysgeg a ddefnyddir gan gydweithwyr cynradd ac, yn y clystyrau hyn, rhoddwyd y pwyslais ar ddarparu digwyddiadau hyfforddi ar y cyd.

- **Gweithio i alinio arferion addysgeg ym Mlwyddyn 6 a Blwyddyn 7:** Mewn nifer fechan o glystyrau nododd cyfweleion eu bod, dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi archwilio beth ellid ei wneud i alinio'n agosach y dulliau addysgeg a fabwysiadwyd ym Mlwyddyn 6 a Blwyddyn 7. Fel y nodwyd gan un Pennaeth [ar hyn o bryd] *pan fydd disgyblion yn mynd i Flwyddyn 7, rydym yn disgwyl iddynt ddechrau o'r man y gwnaethant orffen cyn yr haf ond eto'n disgwyl iddynt ddysgu mewn ffordd wahanol'* (Pennaeth, Clwstwr Cynradd). Mewn clystyrau o'r fath, roedd gwaith wedi canolbwyntio ar newid y dull yr oedd ymarferwyr uwchradd yn addysgu disgyblion 7 er mwyn rhoi profiad dysgu mwy cyfarwydd. Gobeithiwyd, drwy ddarparu profiad pontio mwy graddol rhwng y dulliau addysgeg a ddefnyddir gan ymarferwyr cynradd ac uwchradd, y byddai disgyblion yn ei gweld hi'n haws i wneud cynnydd yng nghamau cyntaf Cyfnod Allweddol 3.

- 3.7 Mewn ychydig dan draean yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy dywedodd cyfweleion nad oedd gweithio mewn clwstwr wedi ei flaenoriaethu yn y gorffennol. Teimlwyd bod nifer o ffactorau wedi cyfrannu at hyn, a'r mwyaf cyffredin oedd ansefydlogrwydd mewn ysgolion LI LI a olygai bod Uwch Arweinwyr wedi canolbwyntio eu hegri ar waith gwella ysgol yn eu hysgolion eu hunain. Nododd rhai Uwch Arweinwyr hefyd bod datblygu perthynas gref gydag ysgolion eraill o fewn y clwstwr yn heriol oherwydd anwaladrwydd ynglŷn â lle byddai disgyblion Blwyddyn 6 yn mynd. Fel y nodwyd gan un Pennaeth ysgol LI LI *'bydd disgyblion fel arfer yn dod i'r ysgol o 15-20 o ysgolion bwydo gwahanol'* (Pennaeth, Ysgol LI LI). Teimlwyd bod hyn yn gwneud penderfynu pa ysgol i gynnig gweithgareddau pontio iddynt yn anodd dros ben. Er gwaethaf hyn, nododd cyfweleion o ysgolion LI LI a'r clwstwr ehangach y byddent yn

ceisio defnyddio adnoddau ychwanegol sydd ar gael drwy HYC i hyrwyddo rhaglen o weithgaredd traws-gyfnod ym Mlwyddyn 2 yr her.

*Gwaith gyda phartneriaid uwchradd*

- 3.8 Er mwyn cynorthwyo ysgolion LI LI i gyflawni eu hamcanion gwella ysgol, mae Llywodraeth Cymru wedi eu hannog i ystyried, lle bo hynny'n briodol, gyfleoedd i ddatblygu partneriaethau gydag ysgolion uwchradd eraill (rhai wedi'u lleoli yng Nghymru ac yn fwy eang). O gofio gwaith sy'n mynd rhagddo ar lefel genedlaethol a lleol i wella ansawdd cydweithio ysgol ac ysgol, er enghraifft drwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgol (ac yn ddiweddar y Grant Gwella Addysg) a Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, gwelwyd bod mwyafrif (tair o bob pump) o ysgolion LI LI wedi nodi eu bod ar hyn o bryd yn gweithio gydag ysgolion uwchradd eraill. Er hynny, roedd nifer sylweddol o ysgolion LI LI (15) nad oedd hyd yma fel petaent wedi dechrau cyfranogi yn y math hwn o weithgaredd ar adeg ein hymweliad (Mehefin-Gorffennaf 2015).
- 3.9 Er ei bod yn amlwg yn bwysig i ddeall y rheswm pam fod Uwch Arweinwyr heb geisio meithrin partneriaethau gydag ysgolion uwchradd eraill, mae hi hefyd yn bwysig ystyried a yw partneriaethau rhwng ysgolion (a reolir gan Uwch Arweinwyr) o reidrwydd yn fwy neu llai effeithiol na'r rheini a ddatblygir yn is i lawr yn yr ysgol gan Bennaeth Adran/Cyfadran neu gan ymarferwyr unigol. Yn wir, hyd yn oed yn yr ysgolion LI LI hynny lle dywedodd Uwch Arweinwyr nad oedd partneriaethau wedi eu sefydlu rhwng ysgolion, nid yw'n golygu nad oedd cysylltiadau ar lefel Adran neu dan arweiniad ymarferwyr (na fyddai Uwch Arweinwyr efallai wedi bod yn ymwybodol ohonynt).
- 3.10 Atgyfnerthir safbwynt o'r fath gan Uwch Arweinwyr yn yr ysgolion hynny lle nad oes unrhyw drefniadau partneriaethau rhwng ysgolion ar waith. Mewn nifer o achosion, roedd Uwch Arweinwyr yn amau a oedd buddsoddi amser arweinwyr mewn trefniadau o'r fath yn briodol neu a ddylid meithrin perthynas ar sail mwy *ad hoc*, yn seiliedig ar anghenion eu hysgol. Cafodd safbwyntiau o'r fath eu crynhoi gan eiriau un Pennaeth a ddywedodd ei bod yn fwy effeithiol i rymuso ei staff i '*ddilyn eu trwynau*' yn eu maes pwnc nac ydoedd i arwain o'r blaen bob amser.

- 3.11 Nid yw hyn i ddweud bod pob ysgol o'r fath yn gweithio yn y modd hwn. Yn wir, mewn rhai, mae'n ymddangos mai dim ond ychydig o weithio mewn partneriaeth, os o gwbl, oedd wedi digwydd. Mewn ysgolion o'r fath, yn unol â chasgliadau ymchwil blaenorol yn y maes hwn (er enghraifft gweler Muijs D et al, 2011) mae'n ymddangos mai'r prif reswm am hyn oedd agwedd yr Uwch Dîm Arwain. Er bod cyfweleion yn dadlau bod diwylliant sy'n edrych i mewn yn aml wedi datblygu ar adeg lle teimlwyd bod ysgol yn perfformio'n dda (ac felly'n teimlo dim angen i weithio gydag ysgolion eraill), roedd anawladrwydd wedyn wedi arwain at *'ynysigrwydd o'r fath i gael ei wreiddio'* (Pennaeth, Ysgol LI LI). Fel y nododd Uwch Arweinydd yn un o'r ysgolion hyn: *'ni fyddai'r hen Bennaeth byth yn gadael yr ysgol, felly wnes i erioed feddwl am wneud hynny chwaith. Mae'n demtasiwn i feddwl bod eich ysgol yn unigryw ac y gellir datrys yr heriau yr ydych yn eu hwynebu gennyh chi'n unig'* (Uwch Arweinydd, Ysgol LI LI). Mewn ysgolion o'r fath, roedd hi'n amlwg bod yn rhaid i Gynghorwyr weithio'n galed i geisio hyrwyddo cyfleoedd cydweithio ac, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd peth tystiolaeth bod yr ysgol yn edrych i ddatblygu perthynas gydag ysgolion uwchradd eraill yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf (2016/17). Fodd bynnag, roedd rhai ysgolion yn parhau i anwybyddu cyfleoedd o'r fath. Wrth symud ymlaen, efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried beth yn rhagor ellid ei wneud i annog ysgolion LI LI i gydweithio mwy o dan raglen HYC.
- 3.12 Yn yr ysgolion LI LI hynny a oedd yn ymddangos eu bod wedi ymgysylltu mewn gweithio ar y cyd, teimlwyd bod cael eu cynnwys yn HYC (yn y rhan fwyaf o achosion) yn gyfle i adeiladu ar gysylltiadau sy'n bodoli'n barod yn ogystal â chanfod cyfleoedd newydd. Efallai nad yw'n syndod, yn gyson â gwaith Hadfield (2007) ac eraill, y gwelwyd bod ysgolion LI LI wedi datblygu ystod o wahanol berthnasoedd cydweithio, yn aml ar gyfer gwahanol ddibenion. Er hynny, mae edrych ar yr ysgolion a ddewiswyd fel partneriaid gan ysgolion LI LI yn dangos nifer o wahanol fathau o berthynas.
- **Ysgolion gyda 'meysydd rhagoriaeth'**: Dywedodd cyfweleion mewn 11 ysgol LI LI oedd â phartneriaid eu bod wedi ceisio datblygu

cysylltiadau gydag ysgolion y teimlwyd bod ganddynt faes arbenigedd y gallent elwa ganddo. Er enghraifft, roedd nifer wedi dewis anfon uwch arweinwyr/arweinwyr canol yn eu hysgolion LI LI ar gyrsiau hyfforddi a gynhelir gan ysgolion y credir sydd wedi dangos cryfderau penodol mewn arweinyddiaeth a rheolaeth. Mewn achosion eraill, roedd arweinwyr canol wedi ymweld ag ysgolion er mwyn deall yn well eu dull mewn maes cwricwlwm penodol, megis mathemateg.

- **Ysgolion LI LI eraill:** Roedd ychydig dan draean yr ysgolion LI LI a oedd wedi ymgysylltu mewn gweithio ar y cyd yn gweithio gydag ysgolion LI LI eraill. Mewn nifer o achosion, roedd y berthynas hon yn rhagddyddio eu cynhwysiad yn HYC, a nododd y cyfweleion bod y berthynas wedi bod yn amhrisiadwy mewn llywio ymateb a rennir i'r rhwystrau ar gyfer gwella ac i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle a gyflwynir gan eu cynhwysiad yn y rhaglen. Er enghraifft, roedd Uwch Arweinwyr mewn dwy ysgol o'r fath wedi sôn am her a rennir yn ymwneud â chasglu a defnyddio gwybodaeth rheoli perfformiad. Roedd gweithio ar y cyd wedi arwain at i'r ddwy ysgol wneud newidiadau tebyg i aelodaeth a rôl y Tîm Arwain Canol.
- **Ysgolion lleol:** Dywedodd cyfweleion mewn pum ysgol LI LI bod eu hysgol wedi ceisio ymgysylltu ag ysgolion uwchradd lleol eraill. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd perthynas o'r fath wedi ei seilio ar gydnabyddiaeth bod ysgolion o'r fath, oherwydd eu hagosatrwydd daearyddol, yn wynebu heriau tebyg. Lle bo ysgolion partner wedi eu lleoli yn yr un Awdurdod Lleol/ardal Consortiwm, roedd cyfweleion yn sôn yn aml am fanteision gallu datblygu ymateb a rennir i faterion sy'n codi ar lefel leol/ranbarthol.

3.13 Pan ofynnwyd iddynt wneud sylwadau am effeithiolrwydd canfyddedig (hyd yma) gwahanol ddulliau o weithio ar y cyd, ni wnaeth yr un o'r cyfweleion nodi bod un dull o reidrwydd yn fwy neu llai gwerthfawr nac unrhyw un arall. Yn wir, roedd y mwyafrif yn teimlo bod gwahanol ddulliau yn briodol ar wahanol gamau o siwrnai gwella ysgol ac wedi cyflawni dibenion gwahanol ac yr un mor ddilys. Fodd bynnag, dros

gyfnod ein hymweliadau roedd hi'n amlwg bod pob math o berthynas, er mwyn bod yn effeithiol, yn dibynnu ar nifer o ffactorau:

- **Dealltwriaeth a rennir o nodau/amcanion** y bartneriaeth. Lle roedd partneriaethau wedi bod yn effeithiol, roedd hi'n amlwg y bu digon o fuddsoddiad o'r dechrau i wneud yn siŵr bod pawb oedd wedi ymgysylltu mewn unrhyw weithgaredd cydweithio yn gwybod yn glir beth y gallent ei ddisgwyl gan bartneriaid a beth, yn ei dro, y gallai partneriaid ei ddisgwyl ganddynt hwy. Yn wir, fel y nodwyd gan Huxham a Vangen (2000), mae gosod nifer o nodau a rennir o'r dechrau yn ffordd ddefnyddiol iawn i sicrhau y cynhelir perthynas o gydweithio. Fel y nodwyd gan un Pennaeth; *'er mwyn iddi weithio, mae angen i bartneriaeth fod o fudd i'r ddwy ochr - nid oes gan ysgolion lawer o amser felly mae angen iddynt fuddsoddi eu hamser yn ddoeth'* (Pennaeth, Ysgol LI LI).
- Darpariaeth **digon o allu i reoli'r berthynas**. Fel y crynhowyd gan un Pennaeth, congifaen unrhyw berthynas effeithiol yw *'ymddiriedaeth'*. Fodd bynnag, roedd cyfweleion yn dadlau bod datblygu perthynas o ymddiriedaeth yn cymryd amser ac ymdrech gan y ddwy ochr. Yn gyson â chasgliadau gwaith diweddar gan Muijs (2015), teimlwyd bod datblygu perthynas o ymddiriedaeth yn arbennig o bwysig pan fo un ysgol yn darparu, ac un ysgol yn derbyn, cefnogaeth. Nodwyd bod deinameg o'r fath ond yn effeithiol pan fo ymarferwyr a oedd yn derbyn cefnogaeth yn teimlo'n hyderus i agor eu harfer ar gyfer craffu. Heb y lefel hon o agoredrwydd roedd posibl i safon y cyngor fod yn arwynebol (gan ymateb i'r anghenion hynny a dderbyniwyd gan yr ymarferwr yn hytrach na'r rheini a nodwyd drwy asesiad cyfannol o ansawdd eu hymarfer) ac felly methu cynorthwyo i fynd i'r afael â'r rhwystrau gwaelodol i wella.
- **Iaith a rennir** ar gyfer gwella. Ar y cyfan, croesawodd y cyfweleion y cyfle i ymgysylltu ag ysgolion/ymarferwyr a ystyriwyd i fod yn 'rhagorol' mewn mwy nac un maes. Cydnabuwyd, fodd bynnag, wrth geisio dysgu gan ysgol arall, roedd hi'n bwysig meddwl am *'allforiadwyedd'*. Fel y nodwyd gan un Pennaeth, er y gallai rhai

strategaethau ar gyfer ymgysylltu disgyblion mewn gweithgareddau ar ôl ysgol fod yn briodol ar gyfer ysgol yng nghanol Llundain (lle roedd gan ddisgyblion fynediad at gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus da) efallai na fyddant yn gweithio mewn ardal wledig megis Bannau Brycheiniog (lle roedd mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn fwy prin). Gofynnodd rhai cyfweleion hefyd a oedd y ffaith bod rhai ymarferwyr yn cael eu hystyried fel rhai sy'n darparu'r cwricwlwm mewn modd effeithiol yn golygu bod ganddynt y sgiliau i gefnogi ymarferwyr eraill i wella ansawdd eu haddysgu hwythau. Dywedodd un Pennaeth y bu anfon ei Dîm Arwain Canol ar ymweliad â'i ysgol bartner yn werthfawr gan fod hyn *'wedi bod yn agoriad llygad gwirioneddol i rai [ohonynt] a oedd wedi dechrau sylweddoli faint ar ei hôl hi yr oedden nhw'* (Pennaeth, Ysgol LI LI). Gofynnodd a oedd, mewn gwirionedd, y cyfle i fanteisio ar hyn wedi ei fethu wrth i arweinwyr canol yn yr ysgol bartner oedd â'r gwaith o ddarparu'r gefnogaeth *'heb allu darparu digon o sgaffaldau i bontio'r bwlch rhwng yr hyn yr oedd... [arweinwyr canol yn yr ysgol LI LI]... wedi ei weld a lle roeddent [yn eu hymarfer eu hunain].'* (Pennaeth, Ysgol LI LI).

## Cynlluniau Datblygu Ysgol (Sengl)

- 3.14 Dros gyfnod ein hymweliadau, roedd ymwybyddiaeth uchel ymhlith Penaethiaid ac Uwch Arweinwyr eraill mewn ysgolion LI LI o'r canllawiau yn ymwneud â'r gofyniad i ysgolion gynhyrchu Cynllun Datblygu Ysgol (Sengl) erbyn mis Medi 2015. Nododd ychydig dros dri chwarter yr ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy bod ganddynt naill ai CDY Sengl ar waith neu eu bod yn y broses o gynhyrchu un (fel arfer gyda disgwyliad y byddai hwn wedi ei orffen erbyn diwedd y flwyddyn ysgol – 2014/15). Yn ogystal â hyn, roedd hi'n ymddangos bod cefnogaeth eang ar gyfer y cysyniad, sef sicrhau bod y gweithgareddau a nodwyd mewn CDY Sengl wedi eu hadnoddu'n llawn a bod cynnydd yn erbyn amcanion gwella ysgol yn fesuradwy. Fel y nodwyd gan un Pennaeth *'dyma mae pob ysgol dda wedi bod yn ei wneud beth bynnag* (Pennaeth, Ysgol LI LI).
- 3.15 Yn ymarferol, roedd ysgolion LI LI fel petaent yn wynebu nifer o heriau mewn cynhyrchu cynllun a oedd yn diwallu'r meini prawf hyn a'u hanghenion eu hunain.
- **Adnoddu'r cylch cynllunio cyfan:** Roedd cyfweleion yn yr ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy yn gefnogol o ymdrechion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gweithgareddau a nodir mewn cynlluniau datblygu wedi eu hadnoddu'n llawn. Fodd bynnag, dywedodd cyfweleion bod gwahaniaeth rhwng amseriad y cylch cynllunio ysgol (a ddatblygir fel arfer ar sail cylch tair blynedd) ac amseriad grantiau sydd ar gael i ysgolion (y mae mwyafrif ohonynt yn flynyddol) wedi ei gwneud hi'n anodd dros ben i adnoddu cynlluniau datblygu mewn modd a allai fod wedi'i ragweld ar y dechrau gan Lywodraeth Cymru. O dan amgylchiadau o'r fath, noddodd y cyfweleion hefyd ei bod hi'n anodd gosod targedau ystyrlon.
  - **Ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol:** Yn y rhan fwyaf o achosion roedd hi'n ymddangos bod tystiolaeth mewn dogfennau cynllunio sy'n bodoli'n barod bod ysgolion LI LI wedi gwneud ymdrech i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol. Roedd eu cynlluniau'n cynnwys awydd i gefnogi gwelliannau mewn ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd

a hefyd yn cydnabod pwysigrwydd bod â strategaeth ar waith i gefnogi gwaith o fewn y gymuned. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, ac yn arbennig ymhlith yr ysgolion oedd â'r her fwyaf (ysgolion Grŵp A), gofynnodd y cyfweleion (ac yn arbennig rhai Cynghorwyr) a oedd gan y rhwymedigaeth ar ysgolion i adrodd yn erbyn blaenoriaethau cenedlaethol y potensial i dynnu eu sylw rhag mynd i'r afael â'r materion hynny a allai wneud y gwahaniaeth mwyaf (megis yr angen i wella eu cynllunio hunanwerthuso).

- **Cynhyrchu dogfen 'fyw':** Roedd mwyafrif y cyfweleion y gwnaethom siarad â hwy yn croesawu uchelgais Llywodraeth Cymru i leihau'r baich ar ysgolion ac i annog cynhyrchu un ddogfen cynllun datblygu '*sengl*'. Yn ymarferol, roedd ysgolion LI LI fel petaent yn ei chael hi'n anodd cynhyrchu dogfen gydlynol a oedd yn dwyn ynghyd yn llwyddiannus gwahanol gynlluniau gwario grant yn cynnwys y rhai a gynhyrchwyd ar gyfer HYC, cynllun ôl-arolwg a chynlluniau adrannau unigol (a ddatblygwyd yn aml gan Uwch Arweinwyr mewn ysgol). O ganlyniad, roedd peth tystiolaeth, er bod CDY Sengl wedi'i gynhyrchu, a chynnydd yn erbyn hwn wedi'i adolygu'n rheolaidd, yn ymarferol roedd gweithredu'r cynllun yn cael ei lywodraethu gan un neu fwy o ddogfennau cynllunio ychwanegol (mewn rhai achosion yn cael eu harwain gan aelodau eraill o'r Uwch Dîm Arwain). Fel y nododd un Pennaeth '*i gadw'r Cynllun Sengl fel un ddogfen posibl ei rheoli, mae'n rhaid i ddisgrifiad gweithgareddau unigol fod yn fyr. Nid yw gwybodaeth o'r fath yn ddigonol i gefnogi staff i gyflawni'r cynllun, felly rydym wedi gorfod datblygu cynlluniau eraill i gefnogi hyn*' (Pennaeth, Ysgol LI LI).

### **Cynnig i Ddisgyblion**

- 3.16 Roedd ymwybyddiaeth o'r 'Cynnig i Ddisgyblion' ymhlith cyfweleion ysgolion LI LI yn gyfyngedig. Pan ofynnwyd pa gyllid oedd wedi'i gyrchu gan yr ysgol ar ôl iddi gael ei chynnwys yn HYC, nodwyd 'Cynnig i Ddisgyblion' gan gyfweleion ysgolion mewn ychydig dros ddwy o bob pump o'r rheini y gwnaethom ymweld â hwy (16 o 38). Ymhlith y



cyfweleion hynny a oedd yn ymwybodol bod eu hysgol wedi cyrchu'r cyllid hwn, roedd y mwyafrif yn croesawu diddordeb Llywodraeth Cymru mewn materion yn ymwneud ag ymgysylltiad a dyheadau disgyblion. Roedd derbyniad a chefnogaeth eang ar gyfer gwella'r ystod o gyfleoedd oedd ar gael i ddisgyblion mewn ysgolion LI LI. Er hynny, roedd hi'n ymddangos bod peth dryswch ymhlith rhai cyfweleion ynglŷn â diben y grant a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ysgolion yn hyn o beth. Er enghraifft, gofynnodd nifer o gyfweleion i ba raddau y byddai £5,000 yn ddigon i fynd i'r afael â'r difreintedd ddwfn sydd i'w weld yn eu cymuned. Mewn gwirionedd, nododd swyddogion Llywodraeth Cymru mai bwriad y grant o'r dechrau fu darparu had-gyllid i ganiatáu i ysgolion dreialu dulliau newydd/gwahanol.

- 3.17 Dywedodd cyfweleion bod cyllid ar gyfer y Cynnig i Ddisgyblion wedi cael ei ddefnyddio'n fwyaf effeithiol pan oedd wedi'i integreiddio i weithgareddau a gynlluniwyd, a oedd wedi'u hamserlennu fel rhan o'r CDY *presennol*. Mewn un ysgol, lle defnyddiwyd cyllid 2015 (yn rhannol) er mwyn talu i rai disgyblion ymweld â Thŷ'r Cyffredin a chwrdd â'u Haelod Seneddol, nododd y Pennaeth eu bod, yn y flwyddyn oedd i ddod, yn gobeithio defnyddio'r arian (wedi'i gyfuno â chyllid o ffynonellau eraill) i gyrraedd mwy o ddisgyblion yn fwy rheolaidd. Er bod cyfweleion wedi nodi bod y rheini a aeth ar y daith wedi enwa'n fawr o'r cyfle, teimlwyd y byddai buddsoddi mewn Swyddog Datblygu Undeb Rygbi Cymru i ddarparu sesiynau ar ôl ysgol *bob wythnos* yn ystod y tymor yn sicrhau y byddai'r cyllid yn cefnogi croestoriad llawer ehangach o'r gymuned (yn cynnwys disgyblion o ysgolion cynradd lleol).

## **Crynodeb Adran: Canllawiau lefel rhaglen a chefnogaeth ar gyfer ysgolion LI LI**

### **Ymateb i ganllawiau lefel rhaglen**

- Yn y rhan fwyaf o achosion, croesawodd y cyfweleion y cyfle a roddwyd i ysgolion LI LI drwy gael eu cynnwys yn HYC ac argaeledd cefnogaeth ychwanegol i gynorthwyo clystyrau i oresgyn eu rhwystrau i wella.
- Roedd tystiolaeth o waith clwstwr mewn dros ddwy ran o dair o'r ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy. Yn y rhan fwyaf o'r achosion teimlai cyfweleion nad oedd y gwaith a wnaed hyd yma yn annhebyg i'r gwaith a wnaed cyn lansiad HYC.
- Mynegodd nifer o'r cyfweleion awydd i ehangu ffocws gwaith yn y dyfodol y tu hwnt i ystyriaethau'n ymwneud yn bennaf â lles cymdeithasol ac emosiynol disgyblion er mwyn ystyried ffyrdd i wella *'parhad dysgu'*.
- Dywedodd y mwyafrif o'r ysgolion LI LI eu bod yn gweithio gyda phartneriaid uwchradd eraill (tua thair ym mhob pump). Hefyd, mewn rhai o'r ysgolion LI LI hynny lle nad oedd gweithgaredd cydweithio yn cael ei gyfarwyddo'n weithredol gan Uwch Arweinwyr, roedd tystiolaeth ei fod yn cael ei wneud ar sail *ad hoc* gan arweinwyr canol a/neu ymarferwyr unigol.
- Yn yr ysgolion LI LI hynny a oedd fel petaent wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid uwchradd eraill, gwelwyd nifer o wahanol fathau o bartneriaeth a oedd wedi'u datblygu at wahanol ddibenion. Roedd y rhain yn cynnwys partneriaethau a ddatblygwyd gydag **ysgolion oedd â 'meysydd rhagoriaeth'** i gefnogi rhannu arfer effeithiol; gwaith cydweithio gydag **ysgolion LI LI eraill** yn aml yn canolbwyntio ar ddatblygu ymatebion i heriau a rennir; a threfniadau cydweithio **gydag ysgolion lleol eraill**, yn gyffredinol gyda'r nod o ddatblygu ymateb a rennir i ddatblygiadau lleol/rhanbarthol.

### **Cynnydd mewn datblygu CDY (Sengl)**

- Roedd ymwybyddiaeth o'r canllawiau i gefnogi datblygiad CDY Sengl ymhlith Uwch Arweinwyr yn uchel mewn ysgolion LI LI. Ar adeg ein hymweliadau roedd gan ychydig dros dri chwarter yr ysgolion LI LI CDY Sengl ar waith, neu eu bod yn y broses o gynhyrchu un.
- Ar y cyfan roedd cyfweleion yn gefnogol i gysyniad CDY Sengl a'r awydd i sicrhau bod y gweithgareddau a nodwyd yn y cynllun datblygu yn cael eu hadnoddu'n llawn.
- Nododd 38 o'r ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy eu bod wedi wynebu heriau wrth ddatblygu CDY Sengl. Yn arbennig: **adnoddu'r cynllun llawn**, o gofio'r anghysondebau rhwng y cylch grant a chynllunio datblygu; **ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol**; a **chynhyrchu un ddogfen** a oedd yn cynnwys digon o wybodaeth i gael ei defnyddio mewn ysgol, tra'n dal i fod o hyd y gellid gweithio gyda hi.

### **Ymwybyddiaeth a'r defnydd o'r Cynnig i Ddisgyblion**

- Roedd ymwybyddiaeth o'r Cynnig i Ddisgyblion yn gyfyngedig. Dim ond cyfweleion ysgol uwch mewn dwy ran o bump o'r ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy oedd yn gwybod sut yr oedd y cyllid wedi'i ddefnyddio.
- Ymhlith y cyfweleion hynny a oedd yn ymwybodol o sut yr oedd cyllid wedi ei ddefnyddio yn eu hysgol, roedd y mwyafrif yn cydnabod yr angen i wella'r ystod o gyfleoedd a oedd ar gael i bobl ifanc o gefndir difreintiedig. Fodd bynnag, gofynnodd nifer o'r cyfweleion a oedd digon o gyllid ar gael iddynt i fynd i'r afael â'r amddifadedd dwfn yn eu cymuned..

## **4 Y gefnogaeth a ddarparwyd gan Gyngorwyr Her Ysgolion Cymru**

4.1 Yn yr adran hon rydym yn trafod y gefnogaeth a ddarparwyd gan Gyngorwyr i gefnogi gwelliannau mewn clystyrau LI LI. Yn benodol rydym yn ystyried:

- y dulliau a fabwysiadwyd gan Gyngorwyr i nodi ac yna ymateb i anghenion cefnogaeth ysgolion LI LI a rhai'r clwstwr yn gyfan
- y dulliau a ddefnyddiwyd gan Gyngorwyr i ymgysylltu ag Uwch Arweinwyr ym mhob ysgol LI LI
- y priodweddau a ddangoswyd gan y Cyngorwyr hynny y teimlai cyfweleion oedd wedi bod fwyaf llwyddiannus yn eu rôl.

### **Dulliau a ddefnyddiwyd gan Gyngorwyr i nodi a diwallu anghenion cefnogaeth ysgolion LI LI**

4.2 Penodwyd pob Cyngorydd gan Lywodraeth Cymru (mewn partneriaeth â'r Consortiwm perthnasol) i ddarparu hyd at 25 diwrnod o gefnogaeth ar gyfer pob clwstwr LI LI yr oeddent wedi'i glustnodi iddo. Fodd bynnag, gyda chyfrifoldeb am nifer o wahanol glystyrau, anogwyd y Cyngorwyr i deilwra eu mewnbwn er mwyn diwallu anghenion amrywiol gwahanol ysgolion. Yn ymarferol, ymddengys bod Cyngorwyr, yn dibynnu ar nodweddion yr ysgolion o fewn eu cylch gwaith, wedi defnyddio hyn yn hyblyg i ddatblygu gwahanol fathau o berthynas gyda phob un o'u clystyrau. Yn fras, mae'n ymddangos bod hyn wedi arwain at weithredu tri model ymarfer.

### **Model 1: Canolbwyntio ar wella arweinyddiaeth a rheolaeth**

4.3 Ar draws yr holl glystyrau LI LI y gwnaethom ymweld â hwy, mae'n ymddangos mai'r dasg gyntaf a wnaed gan Gyngorwyr oedd asesu cymhwysedd (ac yn wir gallu) Pennaeth yr ysgol LI LI a chymhwysedd ei Uwch Dîm Arwain. Ymhlith yr ysgolion hynny a ddewiswyd i'w cynnwys yn y rhaglen, daeth yn amlwg bod rhai Cyngorwyr, dros amser, wedi dod i'r farn mai'r Pennaeth neu Uwch Arweinwyr eraill mewn ysgolion penodol oedd un o'r prif rwystrau i wella. Mewn achosion o'r fath,

nododd y cyfweleion bod y Cynghorydd wedi dweud hyn wrth Gorff Llywodraethu'r ysgol, y Consortiwm Priodol a Llywodraeth Cymru. Lle roedd rhanddeiliaid yn cytuno ynglŷn â'r angen am newid mewn arweinyddiaeth, cafodd arweinwyr unigol eu hannog i ystyried eu safle. Ar y cyfan gwelwyd mai'r ysgolion hynny oedd y rhai y canfyddwyd eu bod mewn perygl o ddirywio ymhellach hyd yn oed wedi iddynt gael eu cynnwys yn y rhaglen (ysgolion Grŵp A). Yn yr ysgolion hyn rhoddodd y Cynghorwyr gefnogaeth ddwys a oedd yn cynnwys ymweliadau wythnosol a chysylltiad dyddiol (aml) gydag Uwch Arweinwyr. Adroddwyd bod mewnbynnau o'r fath yn aml yn uwch na'r 25 diwrnod o fewnbwn proffesiynol a glustnodwyd i bob ysgol.

- 4.4 Gwelwyd bod Cynghorwyr yn yr ysgolion hyn wedi cymryd amrywiaeth o rolau a chyfrifoldebau y tu hwnt i'r rhai a gysylltir yn arferol â Chynghorwr allanol. Arweiniodd rhai y broses ar gyfer recriwtio tîm Uwch Arwain newydd, neu ysgrifennu'r adroddiad Cyn-arolwg cyn ymweliad gan Estyn. Mewn un ysgol, arweiniodd trafodaethau cynnar gyda Phennaeth a oedd newydd ei benodi at benderfyniad i newid aelodaeth yr Uwch Dîm Arwain. Wedi hyn, chwaraeodd y Cynghorydd rôl allweddol mewn cefnogi rheolaeth cyllideb yr ysgol (a oedd ar y pryd yn cael ei rheoli gan yr Awdurdod Lleol), gan ryddhau'r Pennaeth i ganolbwyntio ar reolaeth o ddydd i ddydd yr ysgol hyd nes y gellid penodi dirprwyon llawn amser.
- 4.5 Lle roedd Uwch Arweinwyr mewn swydd a bod ganddynt y gallu i wella, buddsoddodd y Cynghorwyr amser ac ymdrech sylweddol i feithrin eu gallu fel eu bod yn gallu rheoli'n well yr heriau a wynebai eu hysgol. Tra'n annog arweinwyr o'r fath – yn arbennig y rheini a oedd mewn uwch rolau am y tro cyntaf – i fynychu cyrsiau hyfforddi ffurfiol, cafodd Cynghorwyr eu hystyried yn gyffredinol gan Uwch Arweinwyr eraill mewn ysgolion LI LI i fod fwyaf effeithiol pan oeddent yn modelu ymarfer effeithiol. Dywedodd nifer o Uwch Arweinwyr y gwnaethom siarad â hwy, yn arbennig y rheini mewn ysgolion a oedd mewn perygl o ddirywiad pellach, eu bod wedi croesawu'r cyfle i fynd ar deithiau dysgu ar y cyd/arsylwi ar wersi. Yn ogystal â rhoi golwg fanwl i'r Cynghorwyr o ansawdd yr addysgu a'r dysgu, ystyriwyd gweithgareddau o'r fath yn

gyfle gwerthfawr i ddangos i arweinwyr pa fathau o ymddygiadau y dylent fod yn eu hannog a sut y dylent fod yn rhyngweithio gydag ymarferwyr yn y dosbarth.

### **Model 2: Canolbwyntio ar gynllunio gwella ysgol**

- 4.6 Mewn ysgolion lle teimlai Cynghorydd bod digon o allu o fewn yr Uwch Dîm Arwain i gefnogi rheolaeth o ddydd i ddydd yr ysgol, ond dim digon i symud yr ysgol ymlaen, symudodd ffocws y Cynghorydd yn fwy tuag at asesu ansawdd CDY presennol yr ysgol. Yn aml defnyddiwyd archwiliad cychwynnol o'r cynllun fel cyfrwng i agor trafodaeth ehangach ynglŷn â chryfder dull yr ysgol ar gyfer hunanwerthuso (yn cynnwys olrhain data), pa mor addas oedd y strwythurau rheoli presennol i gefnogi rhannu gwybodaeth rheoli/perfformio ar draws yr ysgol a sicrhau atebolrwydd am berfformiad disgyblion ar draws y corff staff.
- 4.7 Mewn achosion o'r fath, yn aml gwelwyd bod Cynghorwyr wedi strwythuro eu hymgysylltu ar sail cyfarfodydd BGC misol. Mewn cyfarfodydd dyddiol, neu o leiaf wythnosol gyda'r Pennaeth yn yr ysgol honno, teimlwyd yn gyffredinol bod Cynghorwyr yn mabwysiadu rôl cyfaill beirniadol. Gan ddibynnu ar gryfderau a gwendidau perthnasol seilwaith hunanwerthuso pob ysgol, gwelwyd bod Cynghorwyr wedi cefnogi ystod o wahanol weithgareddau. Er hynny, gwelwyd nifer o elfennau cyffredin.
- Ffocws ar wella **defnydd data monitro** i gefnogi hunanwerthuso. Mewn nifer o'r ysgolion hyn nododd y cyfweleion bod eu Cynghorydd wedi annog dull llawer mwy cadarn ar gyfer defnyddio data cyrhaeddiad disgyblion i gefnogi rheoli perfformiad. Yn y rhan fwyaf o ysgolion o'r math yma roedd hi'n amlwg, yn dilyn cael eu cynnwys yn HYC, bod Uwch Arweinwyr wedi dechrau ystyried perfformiad disgyblion yn y dosbarth yn hytrach na lefel carfan ac i chwilio am wahaniaethau ym mherfformiad is-grwpiau o ddisgyblion, megis y rheini sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim.
  - Mewn nifer o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy, roedd Cynghorwyr wedi annog Uwch Arweinwyr i ddefnyddio ystod ehangach o **ddulliau mesur i asesu ansawdd addysgu**. Teimlai

Uwch Arweinwyr yn yr ysgolion hyn, er mai'r prif fecanwaith ar gyfer asesu ansawdd addysgu yn y gorffennol oedd rhaglen dymhorol o arsylwi ar wersi, roedd y rhain nawr wedi eu cyfuno gydag '*edrych ar lyfrau*' yn rheolaidd a sefydlu triadau hyfforddi er mwyn annog rhannu arfer effeithiol ymhlith staff addysgu.

- Dymuniad i feithrin **gallu'r Tîm Arwain Canol**. Mewn nifer o ysgolion LI LI, soniodd y cyfweleion am ddiffyg strwythurau atebolrwydd effeithiol, a oedd yn golygu nad oedd y mentrau a gefnogwyd gan yr Uwch Dîm Arwain yn cael yr effaith oedd ei hangen ar lefel ystafell ddosbarth. Yn dilyn ymgysylltiad yn HYC, soniodd nifer o'r cyfweleion am y pwyslais a roddodd eu Cynghorydd ar adolygu strwythurau rheoli perfformiad oedd yn bodoli'n barod ar draws yr ysgol, a grymuso Arweinwyr Canol i gymryd atebolrwydd cynyddol am athrawon/disgyblion ym maes eu pwnc/disgyblaeth.
- Cefnogaeth i nodi gweithgareddau partneriaeth posibl a **brocreu mynediad at ffynonellau cefnogaeth ychwanegol**. Er bod y cyfleoedd hyn yn amrywiol, yn dibynnu ar farn Cynghorwyr unigol, roedd hi'n amlwg bod Cynghorwyr yn annog yr Uwch Dîm Arwain i edrych ar y system ehangach fel ffynhonnell bosibl o gefnogaeth hirdymor yn cynnwys datblygu cysylltiadau gydag ysgolion neu ddarparwyr preifat eraill.

### **Model 3: Cefnogaeth arbenigol ar gyfer cynllunio gwella ysgol**

- 4.8 Mewn nifer o glystyrau LI LI, teimlai rhanddeiliaid allweddol fod tystiolaeth i'w chael eisoes bod yr ysgol LI LI, cyn ei chynnwys yn HYC, wedi dechrau gwella. Mewn ysgolion o'r fath, nodwyd bod gan yr Uwch Dîm Arwain eisoes CDY addas ar waith, wedi'i gefnogi gan sail tystiolaeth cadarn. O ganlyniad, roedd hi'n amlwg bod Cynghorwyr wedi defnyddio dull mwy '*gwrthrychol*'. Mewn nifer o achosion, roedd ymweliadau â'r ysgol wedi'u cyfyngu i'r rheini a oedd yn cyd-fynd â chyfarfodydd BGC, gydag unrhyw weithgareddau cefnogi ychwanegol a nodwyd mewn ymateb i faterion a oedd yn codi ynddynt. Er bod Penaethiaid yn yr ysgolion hyn ar y cyfan yn ganmoliaethus ynglŷn â chyfraniad eu Cynghorydd, roedd hi'n amlwg eu bod yn rhoi pwyslais ar

ei rôl fel arbenigwr ‘*annibynnol*’ yn hytrach na ‘*chyfaill beirniadol*’. Nododd un ei bod wedi croesawu'r ‘*gofod a roddwyd gan y Cynghorydd o ran cefnogi eu cais am gyllid a chysylltu gyda’u Swyddog Cyswllt HYC yn y Consortiwm*’ (Pennaeth, Ysgol LI LI).

### **Dulliau a ddefnyddiwyd gan Gynghorwyr er mwyn ymgysylltu ag Uwch Arweinwyr mewn ysgolion LI LI**

- 4.9 Wrth geisio cefnogi gwelliannau mewn ysgolion LI LI, trawyd y cyfweleion ar bob lefel gan bwysigrwydd Cynghorydd yn datblygu perthynas waith effeithiol gyda'r Uwch Dîm Arwain. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn amgylchiadau lle ystyriwyd bod ei waith cychwynnol â'r ysgol wedi cyfrannu at newidiadau i arweinyddiaeth yr ysgol honno. Efallai'n fwyaf pwysig ymhlith y rhain oedd y berthynas a gafodd ei meithrin rhwng y Cynghorydd a'r Pennaeth fel prif geidwad y porth y gellid cael mynediad drwyddo i weddill carfan staff yr ysgol. Waeth beth fo maint yr heriau a oedd yn wynebu'r ysgol, roedd hi'n amlwg bod y Cynghorwyr mwyaf llwyddiannus wedi meithrin eu perthynas â'r Uwch Dîm Arwain ar dair elfen.

#### **Elfen 1: Dod o hyd i'r cydbwysedd rhwng herio a chefnogi**

- 4.10 Efallai bod dod o hyd i'r cydbwysedd cywir rhwng **herio arfer aneffeithiol** a rhoi **digon o gefnogaeth** i alluogi Uwch Arweinwyr i wella yn fwyaf pwysig lle roedd cryfder yr Uwch Dîm Arwain yn yr ysgol wedi'i gwestiynu (er enghraifft, mewn Arolwg Estyn diweddar). Mewn achosion o'r fath, roedd angen i'r Cynghorydd asesu a oedd gan yr Uwch Reolwyr, yn eu barn hwy, y potensial i wneud y gwelliannau oedd eu hangen er mwyn cefnogi newid mewn perfformiad. Roedd hi'n ddiddorol nodi y dywedodd dros hanner yr ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy (pump o'r wyth) y canfyddwyd eu bod mewn perygl o ddirywiad pellach (ysgolion Grŵp A) mai un o'r prif resymau eu bod wedi dewis ymgysylltu â'u Cynghorydd oedd y ffaith ei fod wedi ceisio gweithredu'n ‘*ddilys*’ ac fel ‘*cyfaill beirniadol*’ (Pennaeth, Ysgol LI LI). Fel y dadleuodd un Uwch Arweinydd y gwnaethom siarad ag ef: ‘*mae'r rhaglen hon wedi bod yn wahanol. Yn y gorffennol rydym wedi cael ein herio, ond ni*

*chynigwyd cefnogaeth*'. (Pennaeth, Ysgol LI LI). Heb ddarparu cefnogaeth ochr yn ochr â her, dywedasant ei bod hi'n annochel y byddai Uwch Arweinwyr yn ymddwyn yn amddiffynnol. Lle gwelwyd Cynghorwyr yn y pen draw fel penseiri newid mewn arweinyddiaeth ysgol, dadleuwyd ei bod yn bwysig bod yr unigolyn dan sylw, a gweddill yr uwch dîm, yn teimlo eu bod wedi cael pob cyfle i gymryd y camau oedd eu hangen arnynt i gyrraedd y lefel perfformiad oedd yn ofynnol.

### **Elfen 2: Dangos annibyniaeth**

- 4.11 Dywedodd Uwch Arweinwyr mewn ychydig dros chwarter y clystyrau LI LI y gwnaethom ymweld â hwy (11 o'r 38) eu bod wedi gwerthfawrogi'r modd yr oedd eu Cynghorydd wedi pwysleisio ei annibyniaeth ar ei Awdurdod Lleol, ei Consortia ac yn wir Llywodraeth Cymru. Fel y nodwyd gan un Pennaeth *'yn yr ysgol, rydym yn aml yn teimlo ein bod yn gwasanaethu nifer o feistri. Mae HYC wedi chwalu hyn drwy roi cyswllt uniongyrchol i ni at Lywodraeth Cymru. Mae [ein Cynghorydd] wedi bod yn hollbwysig mewn sicrhau y gallwn gyfathrebu'n effeithiol a chyrchu'r cyllid sydd ei angen arnom'* (Pennaeth, Ysgol LI LI). Mae adborth o'r fath yn bwysig wrth ystyried sut i weithredu er mwyn lliniaru pryderon cynrychiolwyr y Consortia (ac yn wir yr Awdurdod Lleol) bod gan *'annibyniaeth'* o'r fath y potensial i arwain at leihad yn lefel y cydweithio rhwng asiantaethau perthnasol. Yn aml roedd Swyddogion Cyswllt HYC yn teimlo bod eu diffyg cyfranogiad mewn penderfyniadau a wneir ynglŷn â gofynion cefnogaeth ysgolion LI LI wedi bod yn niweidiol i'w datblygiad parhaus.

### **Elfen 3: Cynnal ffocws strategol**

- 4.12 Mewn amgylchedd heriol, croesawodd nifer o'r Uwch Arweinwyr y gwnaethom siarad â hwy y cyfle i gyfarfod â'u Cynghorwyr a'u bod yn mynnu canolbwyntio ar y *'darlun mwy yn hytrach na'r dydd i ddydd'* (Pennaeth, Ysgol LI LI ). Mewn nifer o achosion nododd y Pennaethiaid mai dim ond ar ôl sgwrs gyda'u Cynghorydd y gwnaethant sylweddoli eu bod yn *'ceisio gwneud mwy nag a allent'*. Yn aml ysgogodd trafodaethau



o'r fath ehangiad yr Uwch Dîm Arwain a defnydd o gyllid HYC i gefnogi Uwch Arweinwyr i gyrchu mwy o amser di-gyswllt.

4.13 Ar y cyfan, dywedodd Uwch Arweinwyr y gwnaethom siarad â hwy eu bod, yn eu rhyngweithio â'u Cynghorydd, wedi dangos eu bod yn gyfarwydd ag un neu ragor o ddulliau. Er hynny, ac efallai'n annochel, ar rai achlysuron teimlwyd bod yr holl Gynghorwyr (er rhai yn fwy na'i gilydd) wedi cael y cydbwysedd yn anghywir o ran sut yr oeddent yn delio â staff mewn ysgolion LI LI. Teimlwyd bod nifer o ganlyniadau negyddol i hyn.

- Er y cydnabu'r Uwch Arweinwyr y gwnaethom siarad â hwy yn ystod ein hymweliadau yr angen, ar y cyfan, i'w hysgol wella, mynegodd pob un ohonynt bryder bod perygl, fel un o'r *'deugain drwg'*, na fyddai'r ysgol yn cael ei chydabod am yr hyn yr oedd yn dda am ei wneud. Fel y dywedodd un Pennaeth oedd newydd ei benodi *'pan gyrhaeddais roedd y staff yn amheus iawn o beth fyddwn efallai'n ei wneud. Teimlai llawer y byddwn, er mwyn gwella cyrhaeddiad disgyblion lefel TGAU, yn aberthu ethos yr ysgol - un a oedd yn gofalu am les ei myfyrwyr, waeth beth oedd eu gallu academaidd'* (Pennaeth, Ysgol LI LI). Yn yr un ffordd teimlai Uwch Arweinwyr, ar brydiau, bod eu Cynghorydd, yn ei frys i gefnogi gwelliant, wedi methu â chydabod - nac yn wir ddathlu - yr hyn a oedd yn mynd yn dda. Ar adegau teimlai Uwch Arweinwyr y byddai canmoliaeth wedi bod yn symbol grymus i garfan ehangach y staff bod yr ysgol mewn gwirionedd yn symud i'r cyfeiriad cywir.
- Yn yr ysgolion hynny lle roedd Cynghorwyr wedi gweithio'n ddwys, dywedodd nifer o'r Swyddogion Cyswllt HYC a chynrychiolwyr Awdurdod Lleol bod y Cynghorwyr wedi *'mynd yn blwyfol'* ac wedi colli eu hannibyniaeth a'u ffocws strategol. Ar adegau o'r fath, gofynnodd y cyfweleion a oedd gan ysgolion o'r fath y potensial i ddod yn ddibynnol ar lefel y gefnogaeth a ddarparwyd (a ystyriwyd yn llawer mwy na fyddai'r Consortiwm yn gallu ei gynnig unwaith y byddai'r rhaglen yn dod i ben).

## Deall priodweddau Cynghorydd Ilwyddiannus

4.14 Yn ystod ein cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid allweddol mewn clystyrau LI LI, gofynnwyd i gyfweleion ystyried beth wnaeth eu profiad o'r rhaglen ei ddweud wrthynt am briodweddau Cynghorydd Ilwyddiannus. Er gwaethaf gwahaniaethau yn y lefel ganfyddedig o her mewn gwahanol ysgolion, roedd hi'n amlwg y nodwyd nifer o briodweddau cyffredin. Canfuwyd bod priodweddau allweddol Cynghorydd effeithiol yn cynnwys:

- **Profiadol:** Teimlai Uwch Arweinwyr mewn ychydig dros ddwy o bob pump o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy bod angen i Gynghorydd, er mwyn bod yn effeithiol, fod wedi profi'r galw sydd ar Bennaeth. Dywedodd un Pennaeth *'hyd nes eich bod wedi gwneud y rôl mae'n anodd uniaethu â'r pwysau sy'n rhan ohoni'* (Pennaeth, Ysgol LI LI). Dywedodd un arall mai dim ond unwaith iddi ddechrau yn y rôl y gwnaeth ddeall *'yr unigedd sy'n rhan o fod yr un sydd â'r gofal'*. Bu'r cyfle i gwrdd yn rheolaidd â chyd Bennaeth yn *'falf ddiogelwch'* bwysig (Pennaeth, Ysgol LI LI). Myfyriodd nifer o gyfweleion ymhellach ar yr hyn a oedd yn gefndir effeithiol ar gyfer Cynghorydd.
- Mynegodd y cyfweleion amrywiaeth barn ynglŷn ag a oedd angen i Gynghorydd effeithiol gael profiad o fewn system addysg Cymru neu a oedd hi'n fwy manteisiol pe byddent mewn sefyllfa i herio normau sy'n bodoli.
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfweleion bod angen i Gynghorydd effeithiol fod wedi gweithio yn yr un cyfnod addysgu ag y maent yn ei gefnogi ac wedi gweithio mewn ysgolion sy'n wynebu heriau tebyg. Heb ffrâm gyfair o'r fath, teimlai cyfweleion y byddai wastad amheuan ynglŷn ag addasrwydd y dulliau a awgrymwyd gan y Cynghorydd.
- **Meddylwr strategol:** Dywedodd nifer o'r cyfweleion y gwnaed argraff arnynt gan ba mor gyflym yr oedd eu Cynghorydd wedi gallu dod i ddeall yr heriau a wynebwyd gan yr ysgol ac i nodi ystod o ymatebion posibl, eto gyda'r amynedd a'r dyfalbarhad i annog eraill i

gymryd yr awenau a'u rhoi ar waith. Gwelir safbwyntiau o'r fath drwy sylwadau un Uwch Arweinydd a ddywedodd '*yn reddfol pobl sy'n gwneud yw athrawon. Mae cael yr hyder i eistedd yn ôl a meddwl bron yn annaturiol i ni ymarferwyr*' (Pennaeth, Ysgol LI LI).

- **Person pobl:** Er y mynegwyd hyn mewn llawer o ffyrdd, cydnabu nifer o'r cyfweleion bwysigrwydd sgiliau rhyngpersonol cryf mewn Cynghorydd llwyddiannus i ddiarfogi ymarferwyr a meithrin eu hymddiriedaeth gan ei fod yn eu natur i fod yn ddrwgdybus neu'n ofnus o ganlyniadau agor eu hymarfer i feirniadaeth allanol.

### **Effeithiolrwydd Cynghorwyr mewn nodi a chynorthwyo i ddiwallu anghenion ysgolion LI LI**

- 4.15 Ar y cyfan, roedd cyfweleion yn gadarnhaol ynglŷn â'r rôl a chwaraewyd gan y Cynghorydd a glustnodwyd i'w clwstwr LI LI, gyda mwyafrif y cyfweleion mewn ychydig dros dri chwarter (29) o'r 38 clwstwr LI LI yn teimlo felly. Mae'n ddiddorol nodi mai'r cyfweleion mewn clystyrau a oedd angen y mwyafrif o gefnogaeth oedd yn aml fwyaf cadarnhaol am y gefnogaeth a dderbyniwyd. Roedd mwyafrif y cyfweleion mewn saith o'r wyth clwstwr y gwnaethom ymweld â hwy a oedd yn cynnwys ysgol Grŵp A yn gadarnhaol ynglŷn â'r gefnogaeth a ddarparwyd gan eu Cynghorydd. Roedd yr adborth yn llai cadarnhaol yn y clystyrau hynny lle roedd ysgol LI LI yn cael ei hystyried i fod yn sefydlog (ond a deimlwyd yn gyffredinol ei bod angen gwella). O'r rhain, dywedodd mwyafrif y cyfweleion ysgol mewn ychydig dan draean (5 o'r 16 clwstwr) o ysgolion a ddynodwyd yn rhai Grŵp B eu bod wedi teimlo bod y gefnogaeth a gynigwyd gan eu Cynghorydd yn aneffeithiol.
- 4.16 O gofio'r gwahaniaethau yn y lefel cyffredinol o angen mewn gwahanol ysgolion, mae gwahaniaethau barn fel hyn yn ddealladwy. Er hynny, mae'n werth meddwl am y rhesymau a roddwyd gan gyfweleion ysgol am eu barn, yn arbennig lle bo gan anian Uwch Arweinwyr (yn benodol) y potensial i gael effaith ar effeithiolrwydd unrhyw gefnogaeth a derbyniwyd. O gofio lefel yr her a wynebwyd gan nifer o ysgolion Grŵp A, roedd hi'n drawiadol bod, yn y rhan fwyaf o achosion, y Tîm Uwch Arwain yn cydnabod bod angen i bethau newid er mwyn i'r ysgol wella.

Mewn amgylchiadau o'r fath roeddent wedi tueddu i dderbyn unrhyw gefnogaeth ychwanegol a oedd yn cael ei chynnig os oedd gan y gefnogaeth honno'r potensial i'w cynorthwyo i wneud y gwelliannau oedd eu hangen. Yn yr ysgolion hynny a oedd wedi bod yn fwy sefydlog (er yn tanberfformio) cyn eu cynnwys yn HYC, roedd cyfweleion ysgol fel petaent yn syrthio i un neu ddwy garfan. Roeddent yn dadlau naill ai nad oeddent angen cefnogaeth gan Gynghorydd (ac eithrio fel cyfrwng y gallent ei ddefnyddio i gyrchu cyllid ychwanegol), neu nad oedd gan y Cynghorydd, o gofio'r heriau a wynebwyd gan yr ysgol, ddigon o amser i roi'r lefel o gefnogaeth oedd ei hangen arnynt i wella. Mae'n ddiddorol bod y Cynghorwyr a'r cynrychiolwyr yn y Consortiwm Addysg Rhanbarthol/Awdurdod Lleol perthnasol yn anghytuno â'r farn hon. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd y ddau barti yn ystyried bod swm y gefnogaeth a ddarparwyd i'r ysgolion hyn gan Gynghorwyr yn briodol o gofio eu hanghenion.

- 4.17 Roedd staff mewn ysgolion Grŵp C (y rheini y canfyddwyd eu bod ar lwybr gwella cadarnhaol cyn eu cynnwys yn HYC), yn y rhan fwyaf o achosion, yn hynod gadarnhaol ynglŷn â'r gefnogaeth a ddarparwyd gan eu Cynghorwyr. Dywedodd mwyafrif y staff ysgol mewn ychydig dan bedwar o bob pump o'r 14 clwstwr mai dyma oedd yr achos.
- 4.18 O'r rheini a oedd yn anfodlon ag ansawdd y gefnogaeth a ddarparwyd (mwyafrif y cyfweleion mewn tair ysgol Grŵp C), yn y rhan fwyaf o achosion nododd Uwch Arweinwyr bod eu Cynghorwyr wedi treulio llai o lawer o amser yn cefnogi eu clwstwr hwy o gymharu â chlystyrau LI LI eraill. Mewn achosion o'r fath roedd Uwch Arweinwyr yn poeni nad oeddent, o ganlyniad, mewn sefyllfa i elwa o gyfranogi yn y rhaglen cymaint â chlystyrau eraill. Felly, wrth asesu effaith y rhaglen, bydd hi'n bwysig i ystyried y 'ddos'. A yw lefel a dwysedd y gefnogaeth gan Gynghorwyr yn ffactor allweddol mewn penderfynu ar berfformiad ysgol benodol? Neu, yn dibynnu ar anghenion clystyrau unigol, a yw gwahanol glystyrau'n elwa o gael mynediad at Gynghorydd mewn ffyrdd gwahanol (a allai fod yn llai dwys o ran amser)? Yn ogystal, lle bo gwahanol glystyrau LI LI ar wahanol gamau o'u taith gwella ysgol, a ydynt yn cael y

budd mwyaf o elfennau eraill o'r rhaglen (er enghraifft mynediad at gyllid ychwanegol)?

- 4.19 Yn y rhan fwyaf o achosion, dywedodd y cynrychiolwyr Consortia ac Awdurdod Lleol y buom yn siarad â hwy eu bod yn teimlo bod y Cynghorwyr wedi bod yn effeithiol mewn cefnogi clystyrau LI LI i wella. Wedi dweud hynny, roedd y rhan fwyaf yn cwestiynu a oedd hi'n briodol i Gynghorwyr eistedd y tu allan i'r seilwaith gwella ysgol lleol, gan adrodd fel y gwnânt i Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, holodd nifer a ellid gwneud mwy i sicrhau bod Cynghorwyr yn manteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion lleol eraill (er enghraifft, cefnogaeth a gynigir i ysgolion er mwyn gwella ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd) a bod manteision y rhaglen yn cael eu rhannu mor eang â phosibl.

## **Crynodeb Adran: Y gefnogaeth a ddarparwyd gan Gynghorwyr Her**

### **Dulliau a fabwysiadwyd gan Gynghorwyr i ddiwallu anghenion ysgolion LI LI**

- Mae'n ymddangos bod Cynghorwyr wedi gweithredu tri model ymarfer, wedi'u llywio'n bennaf gan gyfeiriad perfformio blaenorol ysgolion LI LI.
  - **Model 1: Canolbwyntio ar wella arweinyddiaeth a rheolaeth.**

Lle roedd Cynghorwyr wedi nodi mai gallu'r Uwch Dîm Arwain mewn ysgol LI LI oedd y prif rwystr i wella, roedd Cynghorwyr wedi cymryd amrywiaeth o rolau i sefydlogi'r ysgol. Roedd rolau o'r fath yn gofyn am lefel ymgysylltiad a oedd ymhell y tu hwnt i'r rhai a gysylltir yn arferol â Chynghorwr allanol.
  - **Model 2: Canolbwyntio ar gynllunio gwella ysgol.** Yn yr ysgolion hynny y canfyddwyd eu bod yn sefydlog, ond lle teimlwyd bod Uwch Arweinwyr angen mwy o gefnogaeth er mwyn i'r ysgol wella, mabwysiadodd y Cynghorwyr rôl cyfaill beirniadol. Fel arfer roeddent yn canolbwyntio ar gefnogi Uwch Arweinwyr i wella ansawdd eu seilwaith hunanwerthuso.
  - **Model 3: Cefnogaeth arbenigol ar gyfer cynllunio gwella ysgol.** Yn yr ysgolion hyn y canfyddwyd eu bod wedi dechrau gwella cyn eu cynnwys yn HYC, roedd Cynghorwyr yn aml wedi chwarae rôl lai. Mewn achosion o'r fath roedd mewnbyn fel arfer wedi'i gyfyngu i gyfarfodydd y Bwrdd Gwella Carlam. Roedd Uwch Arweinwyr yn aml yn pwysleisio pwysigrwydd eu Cynghorydd fel eiriolwr annibynnol ar gyfer yr ysgol, yn arbennig mewn deialog gyda Llywodraeth Cymru a Consortia.

### **Strategaethau a ddefnyddiwyd gan Gynghorwyr i ymgysylltu ag Uwch Arweinwyr mewn ysgolion LI LI**

- Dywedodd cyfweleion bod Cynghorwyr llwyddiannus wedi mabwysiadu nifer o ddulliau cyffredin i sicrhau ymgysylltiad Uwch Arweinwyr mewn ysgolion LI LI.
  - Dod o hyd i'r cydbwysedd cywir rhwng **herio arfer aneffeithiol** a rhoi **digon o gefnogaeth** i alluogi Uwch Arweinwyr i wella. Dywedodd cyfweleion bod eu profiad o weithio â'u Cynghorwyr yn wahanol iawn i'w profiadau yn y gorffennol, lle nad oedd gan eu Cynghorwyr yr amser i'w cynorthwyo i oresgyn y rhwystrau yr oeddent yn eu hwynebu.
  - Dangos eu **hannibyniaeth**. Gwelwyd bod cyfweleion yn gwerthfawrogi'r modd yr oedd eu Cynghorydd wedi mynnu ei annibyniaeth ar eu ALI, Consortia ac yn wir Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod anghenion ysgolion unigol yn cael eu blaenoriaethu.
  - Cynnal **ffocws strategol**. Nododd Uwch Arweinwyr ei bod hi'n rhy hawdd, mewn amgylchedd heriol, i ganolbwyntio ar faterion gweithredol yn hytrach nag ymateb i faterion strategol a fyddai yn y pen draw yn cefnogi gwelliant.

### **Deall priodweddau Cynghorydd llwyddiannus**

- Dywedodd cyfweleion bod gan y Cynghorwyr llwyddiannus nifer o briodweddau cyffredin.
  - Bod â **phrofiad o'r galwadau sydd ar swydd Pennaeth**. Nododd nifer o gyfweleion ei bod hi'n hynod anodd, heb gael profiad yn y rôl, i ddarparu ffynhonnell effeithiol o gefnogaeth a her i rywun yn y rôl hon.
  - Y gallu i feddwl yn **strategol**. Dywedodd nifer o'r cyfweleion y gwnaed argraff arnynt gan pa mor gyflym yr oedd eu Cynghorydd wedi gallu dod i ddeall yr heriau a wynebwyd gan eu hysgol ac wedi cynorthwyo Uwch Arweinwyr i ddatblygu strategaeth ar gyfer symud eu hysgol ymlaen.
  - Sgiliau **rhyngpersonol** cryf. Nodd y cyfweleion ei bod hi'n hollbwysig i beidio â than-werthfawrogi pwysigrwydd y sgiliau hyn mewn galluogi Cynghorwyr i feithrin perthynas ag ymarferwyr mewn ysgolion LI LI.

## **5 Gwaith Byrddau Gwella Carlam**

5.1 Mae'r adran hon yn ystyried gwaith Byrddau Gwella Carlam (BGC) mewn cefnogi gwelliannau mewn clystyrau LI LI. Yn benodol rydym yn archwilio:

- i ba raddau y mae BGC (pan eu bod ar waith) wedi gweithredu mewn modd sy'n gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru
- rôl a chyfraniad mynychwyr cyfarfodydd BGC
- i ba raddau y teimlir bod BGC wedi darparu ffynhonnell effeithiol o gefnogaeth ar gyfer ysgolion LI LI a'u cynorthwyo i wella.

### **Cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyfansoddiad BGC a pa mor rheolaidd y cynhelir cyfarfodydd bwrdd**

5.2 O'r 38 o ysgolion LI LI yr ymwelwyd â hwy yn ystod ein gwaith maes (Mehafin-Gorffennaf 2015), canfuwyd bod 37 yn cynnal BGC gweithredol. Roedd aelodaeth pob BGC yn cynnwys Pennaeth yr ysgol LI LI, Cynghorydd yr ysgol, Cadeirydd Bwrdd Llywodraethu'r ysgol a Phennaeth ysgol gynradd o fewn y clwstwr LI LI. Mewn nifer o achosion, cynrychiolwyd y Consortia priodol yn hytrach na'r Awdurdod Lleol (er bod achosion pan gynrychiolwyd y ddau sefydliad). Mewn llawer o'r ysgolion lle ystyriwyd bod BGC yn fwyaf effeithiol, mynychwyd y cyfarfodydd gan aelodau eraill o'r Uwch Dîm Arwain a oedd â chyfrifoldeb am adrodd ar eu maes cyfrifoldeb o fewn y CDY.

5.3 Yn yr ysgol a oedd yn weddill, ystyriwyd bod sefydlu BGC yn amhriodol o gofio pryderon ynglŷn â pherfformiad yr ysgol. Wedi dweud hynny, roedd cyfarfod rheolaidd rhwng y Pennaeth, Cynghorydd yr ysgol, cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol a'r Consortia yn ymddangos fel petai'n gweithio ar yr un trywydd ag BGC, gyda strwythur aelodaeth ac amllder cyfarfodydd tebyg (yn fisol o leiaf). Yn y dyfodol, gobeithiwyd y byddai Cadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol hefyd yn cael gwahoddiad i fynychu. Ar y cam hwnnw, roedd cyfweleion o'r farn ei bod hi'n amhriodol i wahodd Pennaeth o'r Ysgol Gynradd leol i gyfarfodydd, gan fod yr agenda'n canolbwyntio'n llwyr ar y camau oedd angen eu cymryd i

sicrhau bod yr ysgol mewn sefyllfa i adael Mesurau Arbennig cyn gynted â phosibl.

- 5.4 Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y BGC fel petaent wedi cyfarfod yn rheolaidd, er nad bob amser yn fisol (digwyddodd hyn mewn dim ond 21 o'r clystyrau LI LI y gwnaethom ymweld â hwy). Yn y rhan fwyaf o achosion eraill mae cyfarfodydd fel petaent wedi digwydd unwaith bod hanner tymor. Mae'n ymddangos mai'r prif reswm am gyfarfod yn llai rheolaidd yw logisteg yn unig yn ymwneud â dod o hyd i ddyddiad pryd y gallai pob aelod o'r BGC fynychu (neu o leiaf digon o bobl i wneud y cyfarfodydd hyn yn ystyrion). Fel y nodwyd gan un Cynghorydd, nid oedd dod o hyd i ddyddiad yn hawdd, yn arbennig lle gallai fod yn mynychu un neu ddau gyfarfod o'r fath bob wythnos tuag at ddechrau hanner tymor newydd. O ganlyniad, gallai llawer o amser gael ei dreulio'n canfod pryd y gellid cynnal cyfarfodydd BGC.
- 5.5 Wedi dweud hynny, fe wnaeth cyfweleion mewn nifer o ysgolion (yn arbennig ysgolion Grŵp C) hefyd gwestiynu a oedd gwerth cael cyfarfodydd yn fwy rheolaidd na phob hanner tymor. Dywedasant fod gweithgareddau hunanwerthuso o fewn ysgol yn cael eu cynnal, yn y mwyafrif o achosion, yn unol â'r cylch academaidd, sy'n golygu bod gweithgaredd fel arfer yn digwydd ym mhythefnos olaf pob (hanner) tymor. Er mwyn elwa o gael mynediad at y wybodaeth, roedd angen i gyfarfodydd ddigwydd naill ai ar ddiwedd un hanner tymor neu ar ddechrau'r un nesaf.
- 5.6 Fe wnaeth y cyfweleion hefyd gwestiynau a oedd cyfarfodydd misol yn gosod disgwyliad afresymol o ran pa mor gyflym y gallai unrhyw newidiadau (wedi'u cefnogi drwy'r CDY) gael eu gwreiddio yn arfer yr ysgol. Er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gan y BGC wedi eu seilio ar dystiolaeth, teimlwyd ei bod yn well cael cyfarfodydd llai aml.

### **Rôl a chyfraniad aelodau BGC**

- 5.7 Yn ystod y gwaith maes gofynnwyd i gyfweleion ystyried rôl a chyfraniad y gwahanol randdeiliaid i'r BGC. Drwy'r adborth a gafwyd mae'n amlwg bod gan y BGC mwyaf llwyddiannus ffocws a chylch gwaith clir a phwyslais ar wneud defnydd o arbenigedd y gwahanol aelodau.



*Uwch Arweinwyr mewn ysgol LI LI*

- 5.8 Dywedodd y cyfweleion mai'r cyfarfodydd BGC mwyaf llwyddiannus oedd y rheini a gadeiriwyd gan Bennaeth yr ysgol LI LI, er y cydnabuwyd nad oedd pob un wedi bod yn ddigon hyderus i wneud hynny, o leiaf ar gyfer yr ychydig gyfarfodydd cyntaf. Yn yr achosion hyn, fel arfer Cynghorydd yr ysgol oedd wedi cadeirio'r cyfarfodydd. Wedi dweud hynny, hyd yn oed pan oedd Penaethiaid wedi cadeirio cyfarfodydd, nodwyd y bu adegau pan mai'r Cynghorwyr oedd wedi '*arwain*' yr agenda. Yn y rhan fwyaf o achoson teimlwyd bod hyn yn briodol, ond mewn eraill dadleuwyd ei fod wedi tanseilio awdurdod y Pennaeth. Er enghraifft, dywedodd nifer o Gynghorwyr eu bod wedi teimlo iddynt gael eu gorfodi i arwain mewn cyfarfodydd BGC er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn symud yn ei blaen. Eto, yn yr ysgolion hyn, roedd rhai Uwch Arweinwyr yn dadlau er efallai bod cam o'r fath wedi cael ei gweld fel un angenrheidiol, roedd wedi anfon arwydd grymus i weddill yr ysgol nad oedd y Pennaeth '*mewn rheolaeth*' mwyach.
- 5.9 Gofynnodd nifer o'r cyfweleion hefyd a ddylai'r Pennaeth weithredu fel cadeirydd ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan yr ysgol. Awgrymodd nifer o Benaethiaid y gwnaethom siarad â hwy fod perfformio dwy rôl ar adegau yn golygu bod perygl y gallai cyfarfodydd gael eu '*trwmlytho*' (Pennaeth, Ysgol LI LI) neu'n teimlo fel '*croesholiad*' (Pennaeth, Ysgol LI LI). Roedd hi'n amlwg, ac o bosibl yn rhannol fel ymateb i hyn, bod nifer cynyddol o ysgolion yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen wedi dechrau gwahodd un neu ragor o'r Uwch Dîm Arwain i gyfarfodydd BGC. Yn y cyfarfodydd hyn tra bod y Pennaeth yn cadeirio'r cyfarfod roedd Uwch Arweinwyr wedi cymryd y cyfrifoldeb am gyflwyniadau parthed meysydd o'r CDY yr oedd awdurdod amdanynt wedi'u dirprwyo iddynt, neu ar faterion eraill o ddiddordeb yr oedd aelodau'r BGC wedi dewis eu cynnwys ar yr agenda. Yn wir, yn ystod cyfnod y gwaith maes, roedd ychydig dan dri chwarter y clystyrau LI LI yr ymwelwyd â hwy wedi dweud bod Uwch Arweinwyr nawr yn mynychu cyfarfodydd BGC yn rheolaidd.

- 5.10 Yn ogystal ag ysgafnhau'r pwysau ar y Pennaeth, dywedodd y cyfweleion ysgol y gallai presenoldeb aelodau eraill o'r Uwch Dîm Arwain gael nifer o fanteision pwysig eraill. Y mwyaf pwysig ohonynt efallai yw bod cyfweleion yn teimlo bod cyfraniad Uwch Arweinwyr mewn cyfarfodydd BGC wedi amlygu'r ffaith bod atebolrwydd am berfformiad yr ysgol wedi ei *rannu*, ac nad cyfrifoldeb y Pennaeth yn unig ydoedd.
- 5.11 Hefyd, dywedodd y cyfweleion bod yr angen i gyflwyno gydag awdurdod ar feysydd o'r CDY wedi arwain ar hyrwyddo dull llawer mwy systematig ar gyfer hunanwerthuso. Mewn un ysgol, er enghraifft, wrth ragweld y cwestiynu trwyadl yr oedd Uwch Arweinydd yn disgwyl ei gael mewn cyfarfodydd BGC, roedd wedi cyflwyno cylch rheolaidd o gyfarfodydd rheoli perfformiad gydag Arweinwyr Pwnc er mwyn gwneud yn siŵr bod ganddo fynediad at y wybodaeth perfformiad fwyaf cywir a chyfredol.

*Cynghorwyr Her*

- 5.12 Roedd ymddygiad y Cynghorwyr yn aml yn hollbwysig ar gyfer effeithiolrwydd y BGC o ran cefnogi clwstwr LI LI. Fel y trafodwyd uchod, roedd hi'n ymddangos mai'r BGC mwyaf llwyddiannus oedd y rheini lle roedd y Cynghorydd yn cadw'r cydbwysedd cywir rhwng grymuso'r Pennaeth tra'n sicrhau bod diben i'r cyfarfod. Mewn nifer o enghreifftiau teimlai cyfweleion mai prif gyfraniad y Cynghorydd oedd gosod tŷn ar gyfer y BGC o'r dechrau, gan sicrhau bod cyfarfodydd yn gymharol heriol ac yn canolbwyntio ar y meysydd hynny a oedd yn debygol o gefnogi'r gwelliannau mwyaf. Mewn achosion o'r fath, teimlwyd bod ansawdd eu cyfraniad fel petai wedi arwain rhanddeiliaid eraill i wella ansawdd eu mewnbwn hwythau.
- 5.13 Lle roedd cyfarfodydd wedi bod yn llai llwyddiannus, nododd y cyfweleion bod Cynghorwyr naill ai wedi cymryd y cyfrifoldeb am gyflwyno cynnydd yn erbyn y CDY neu wedi bod yn rhy heriol yn y cyfarfodydd. Yn y ddau achos, teimlwyd mai'r effaith cyffredinol oedd tanseilio awdurdod y Pennaeth. Fodd bynnag, wrth ddehongli'r adborth hwn efallai ei bod yn werth ystyried cylch gwaith ehangach y Cynghorydd. Mewn enghreifftiau o'r fath, er bod Cynghorydd yn ceisio, yn ddilys, nodi meysydd o danberfformio, anaml, os o gwbl, y

defnyddiwyd y BGC fel llwyfan i drafod sut i ddiwallu anghenion cefnogaeth yr ysgol. Mewn gwirionedd roedd hi'n ymddangos, lle nodwyd anghenion cefnogaeth, mai cyfrifoldeb y Cynghorydd oedd dilyn y rhain i fyny gyda'r Pennaeth ar ôl y cyfarfod.

#### *Rôl Cadeirydd y Corff Llywodraethu*

- 5.14 Roedd hi'n ymddangos bod pob un o'r 37 ysgol LI LI wedi gwahodd eu Cadeirydd y Corff Llywodraethu (a elwir wedi hyn yn 'Gadeirydd') i fynychu cyfarfodydd bwrdd. Ar y cyfan, adroddodd cyfweleion bod presenoldeb wedi bod yn gymharol uchel, er mewn rhai achosion bod Cadeiryddion wedi cael anhawster i gael amser o'r gwaith i fynychu'r holl gyfarfodydd (yn arbennig pan gynhaliwyd hwy'n fisol). Mewn achosion o'r fath roedd hi'n ymddangos yn eithaf cyffredin i'r Cadeirydd gyfarfod â'r Pennaeth a'r Cynghorydd ar wahân, cyn cyfarfodydd llawn y Corff Llywodraethu (a gynhaliwyd fel arfer unwaith y tymor). Ar y cyfan roedd Cadeiryddion fel petaent yn eithaf goddefol mewn cyfarfodydd a theimlwyd nad oeddent yn ychwanegu llawer i'r trafodaethau a gynhaliwyd. Er hynny, dywedodd cyfweleion (yn cynnwys nifer o Gadeiryddion y gwnaethom siarad â hwy) ei bod yn bwysig bod y Corff Llywodraethu yn cael ei gynrychioli. Fel y nodwyd gan un o'r Cadeiryddion a holwyd, fel '*person lleyg*' roedd yn gyfle gwerthfawr i Lywodraethwyr ddatblygu gwell dealltwriaeth o '*offer gwella ysgol*' (Cadeirydd Corff Llywodraethu, Ysgol LI LI). Teimlai nifer hefyd ei bod hi'n bwysig nad oedd Corff Llywodraethu yn ymddangos fel petai wedi ei ymyleiddio drwy HYC, oherwydd yn y pen draw ef fyddai'n gyfrifol am ddal yr Uwch Dîm Arwain i gyfrif unwaith y deuai'r rhaglen i ben.
- 5.15 Yn ddiddorol, er bod Cadeiryddion ar y cyfan yn nodi eu bod wedi elwa o brofiad mynychu cyfarfodydd BGC, dywedodd rhai bod mynychu cyfarfodydd o'r fath wedi gwneud iddynt newid y ffordd yr oeddent yn cyflawni eu rôl. Fel y nodwyd gan nifer o'r Cynghorwyr y gwnaethom siarad â hwy, lle teimlwyd bod ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgol wedi bod yn broblem am nifer o flynyddoedd, roedd hi'n werth ystyried a oedd gan y Corff Llywodraethu hefyd beth cyfrifoldeb am hyn. Efallai bydd Llywodraeth Cymru am ystyried a ddylai

cefnogaeth ychwanegol fod ar gael drwy'r rhaglen i wella gallu Cyrff Llywodraethu i gyflawni eu swyddogaeth gwella ysgol.

*Rôl cynrychiolwyr o'r clwstwr LI LI*

- 5.16 Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, roedd aelodaeth BGC gweithredol yn cynnwys Pennaeth ysgol gynradd clwstwr. Yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen, dywedodd cyfweleion bod presenoldeb arweinwyr cynradd wedi bod yn amrywiol. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd hyn yn ymddangos i fod yn gysylltiedig â chryfder gwaith clwstwr cyn lansiad HYC, neu o leiaf gryfder y berthynas rhwng Pennaeth yr ysgol LI LI a'r Pennaeth cynradd a wahoddwyd.
- 5.17 Dywedodd nifer o Benaethiaid ysgolion cynradd clwstwr eu bod wedi croesawu'r cyfle i fynychu cyfarfodydd BGC a dysgu mwy am yr heriau a oedd yn wynebu'r ysgol LI LI. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd cyfweleion o'r farn y byddent yn cael mwy allan o'r cyfarfodydd unwaith yr oedd yr ysgol LI LI mewn sefyllfa i ystyried sut i wella gweithio ar draws cyfnodau addysg. Efallai nad yw felly'n syndod bod lefelau ymgysylltu ag ysgolion cynradd yn llawer gwell yn yr ysgolion hynny y canfyddwyd eu bod â mwy o allu ar gyfer gwella, ac a oedd yn fwy abl i ystyried materion y tu hwnt i glwyd yr ysgol. Nododd y cyfweleion bod gweithio ar y cyd yn arbennig o gryf lle roedd codi perfformiad disgyblion Cyfnod Allweddol 3 yn flaenoriaeth yn y CDY. Nodwyd bod hyn yn aml wedi arwain at drafodaeth eang ei rhychwant am berfformiad disgyblion a oedd yn cael eu derbyn i Flwyddyn 7 a beth ellid ei wneud i wella ansawdd eu pontio o Flwyddyn 6.

*Cynrychiolwyr o'r Consortiwm priodol/Awdurdod Lleol*

- 5.18 Nododd y canllawiau cychwynnol gan Lywodraeth Cymru y byddai BGC yn cynnwys cynrychiolydd o'r Awdurdod Lleol. Yn dilyn trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru penderfynwyd hefyd i ganiatau cynrychiolydd o'r Consortiwm priodol i fynychu. Yn y rhan fwyaf o achosion, mynychodd cynrychiolwyr o'r Consortiwm (fel arfer y Swyddog Cyswllt HYC) yn ogystal â chynrychiolydd o'r Awdurdod Lleol (oni bai bod ganddo ef neu hi rôl rhan amser gyda'r ddau sefydliad). Roedd adborth ynglŷn â rôl a

chyfraniad cynrychiolwyr ALI/Consortiwm yn brin ac mae'r ymgysylltu fel pe bai wedi bod yn amrywiol. Roedd cynrychiolwyr fel petaent yn blaenoriaethu cyfarfodydd lle teimlwyd bod yr ysgol LI LI mewn mwy o angen cefnogaeth (fel arfer ysgolion Grŵp A). Y tu hwnt i hyn teimlwyd mai minimol fu chyfraniad cynrychiolwyr i'r BGC.

- 5.19 Er hynny, awgrymodd cyfweleion ysgol ei bod hi'n bwysig bod y ddau sefydliad yn cael eu cynrychioli. Fel y nododd un cynrychiolydd o'r fath; *'er bod ysgolion, drwy HYC, wedi dechrau adrodd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, rydym ni'n atebol drwy Estyn am eu perfformiad'* (Swyddog Cyswllt HYC). Dywedodd nifer o'r cyfweleion mewn ysgolion y gwnaethom siarad â hwy hefyd eu bod yn croesawu'r cyfle i ddwyn pobl ynghyd o amgylch y bwrdd a datblygu teimlad o berchnogaeth a rennir ar gyfer gwella. Fel y nodwyd gan un Pennaeth; *'yn y gorffennol roedd sgysiau gyda Chynrychiolwyr fel petaent i gyd yn ymwneud â beth sydd angen ei ni ei wneud. Yn dilyn datblygiad y BGC mae'n teimlo bod mwy o deimlad o berchnogaeth a rennir'* (Pennaeth, Ysgol LI LI).

### **Canfyddiadau ynglŷn ag effeithiolrwydd BGC mewn gwella clystyrau LI LI**

- 5.20 Yn yr ysgolion LI LI hynny a oedd wedi sefydlu BGC ar ôl cael eu cynnwys yn HYC, ar y cyfan roedd cyfweleion yn gadarnhaol ynglŷn â phrofiad o weithio gydag un. Yn wir, dywedodd y mwyafrif o gyfweleion mewn ychydig dros dri chwarter (28 o 37) y clystyrau LI LI y gwnaethom ymweld â hwy eu bod yn teimlo bod y bwrdd wedi cyfrannu at welliant yn eu hysgol. Wedi dweud hynny, pan ystyriwyd hynny mewn perthynas â llwybr perfformiad hanesyddol pob ysgol, roedd hi'n ymddangos bod gwahaniaeth amlwg mewn lefelau bodlonrwydd ac effeithiolrwydd canfyddedig o ran perfformiad y bwrdd. Mae'n ddiddorol nodi bod BGC fel petaent wedi gweithredu'n fwyaf effeithiol mewn ysgolion a oedd yn gymharol sefydlog (Grŵp B). Dywedodd staff mewn dim ond un o'r pedair ysgol ar ddeg o'r fath y gwnaethom ymweld â hwy eu bod yn ansicr ynglŷn â chyfraniad eu BGC.
- 5.21 Roedd staff fel petaent yn llai bodlon gyda chyfraniad eu BGC yn yr ysgolion hynny y canfyddwyd eu bod mewn perygl o ddirywiad pellach

(Grŵp A). Dywedodd mwyafrif y staff mewn dros tair o bob pump (pump o'r wyth) o ysgolion eu bod yn ansicr ynglŷn â chyfraniad eu BGC neu'n teimlo ei fod wedi bod yn aneffeithiol.

5.22 Efallai y gellir deall casgliadau o'r fath orau drwy ystyried sut y mae BGC wedi ceisio ymarfer eu swyddogaeth cefnogi. Yn gyffredinol unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru, dywedodd y cyfweleion mewn ychydig dan ddwy ran o dair (24 o 37) o'r clystyrau LI LI y gwnaethom ymweld â hwy mai prif rôl y BGC fu adolygu cynnydd yr ysgol LI LI mewn gweithredu ei CDY (a alwyd mewn nifer o achosion yn Gynllun Gwella Ysgol, neu CGY). Mewn nifer o ysgolion Grŵp A dywedodd cyfweleion bod yr ysgol, am gyfran fawr o flwyddyn gyntaf y rhaglen, heb CDY ar waith, neu fod y seilwaith hunanwerthuso yn wan. Mewn achosion o'r fath, teimlai'r cyfweleion nad oedd gan y cyfarfodydd BGC yn aml y strwythur/offer oedd eu hangen i ddal Uwch Arweinwyr i gyfrif am eu perfformiad. Fel y nododd un Pennaeth *'rwy'n hapus i gyflwyno'r swp mwyaf diweddar o ddata [perfformiad] ond mae pawb ohonom yn gwybod ei fod ar y cyfan yn ddiystyr'* (Pennaeth, Ysgol LI LI). Mewn achosion o'r fath mae'n ymddangos bod ffocws cyfarfodydd BGC yn aml ar fonitro gwario cyllid HYC. Er bod cyfweleion yn derbyn bod hon yn swyddogaeth bwysig, cwestiynodd nifer a oedd hi'n angenrheidiol i ddod â chymaint o bobl o amgylch y bwrdd i gyflawni'r hyn a oedd yn y bôn yn dasg weinyddol.

5.23 I'r gwrthwyneb, mewn ysgolion Grŵp B, roedd cyfweleion yn aml yn llawer mwy hyderus ynglŷn â chryfder eu CDY. Er bod cyfweleion yn dweud yn aml y gellid gwneud mwy i wella ansawdd hunanwerthuso yn yr ysgol, roedd hi'n amlwg bod llawer o systemau a phrosesau priodol ar waith. Mewn achosion o'r fath, roedd hi'n ymddangos bod BGC wedi gweithredu'n llawer mwy effeithiol. Yn wir, drwy ei gwneud hi'n ofynnol i Uwch Dimau Arwain ystyried yn rheolaidd berfformiad yr ysgol yn erbyn ei chynllun, dadleuwyd bod hyn wedi gwneud iddynt drin y rhan hon o'u rôl gyda phwysigrwydd cynyddol. O ganlyniad nodwyd, mewn nifer o achosion, bod yr angen i gyflwyno mewn cyfarfodydd BGC wedi arwain at newidiadau mewn strwythurau rheoli perfformiad yn yr ysgol ochr yn

ochr â *'agwedd mwy fforensig tuag at ddadansoddi data'* (Pennaeth, Ysgol LI LI).

5.24 Er, yn y rhan fwyaf o achosion, bod staff yn y 14 ysgol Grŵp C (y rheini y teimlwyd oedd ar lwybr cadarnhaol cyn eu cynnwys yn HYC) wedi dweud eu bod hefyd yn teimlo bod cyfarfodydd BGC wedi bod yn ddefnyddiol, dywedodd mwyafrif y staff mewn tair ohonynt eu bod yn ansicr ynglŷn â'u cyfraniad i wella ysgol. Mewn ysgolion o'r fath, er bod cyfweleion yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cyllid HYC yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, roedd pryder bod cyfarfodydd BGC yn adlewyrchu un baich gweinyddol arall ar Benaethiaid a oedd yn mynd â hwy oddi wrth eu cyfrifoldebau o ddydd i ddydd. Nododd nifer fod y Pennaeth yn parhau i gyfarfod â nifer o fynychwyr cyfarfodydd BGC yn rheolaidd ac yn aml yn canfod eu hunain yn cyflwyno'r un wybodaeth. Mewn achlysuron o'r fath, roedd cyfweleion yn meddwl a ellid lleihau nifer y cyfarfodydd (fel y mae'n ymddangos sydd wedi digwydd mewn manau eraill).

## **Crynodeb Adran:**

### **Cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru**

- Roedd 37 o'r 38 ysgol LI LI y gwnaethom ymweld â hwy wedi sefydlu BGC. Roedd aelodaeth pob BGC yn cynnwys Pennaeth yr ysgol LI LI, Cynghorydd yr ysgol, Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethu a Phennaeth ysgol gynradd o fewn y clwstr LI LI. Mewn nifer o achosion, cynrychiolwyd y Consortia priodol yn hytrach na'r Awdurdod Lleol. Mewn nifer o ysgolion, mynychwyd cyfarfodydd (pan oedd hynny'n briodol) gan aelodau eraill yr Uwch Dîm Arwain
- Yn y rhan fwyaf o achosion roedd hi'n ymddangos bod y BGC wedi cwrdd yn rheolaidd er bod llai na hanner ohonynt wedi cwrdd yn fisol. Yn y rhan fwyaf o achosion teimlwyd bod cyfarfodydd bob hanner tymor yn fwy priodol (ac yn llai heriol i'w trefnu o ran logisteg).

### **Rôl a chyfraniad aelodau BGC**

- Dywedodd y cyfweleion bod gan y BGC mwyaf llwyddiannus ffocws a chylch gwaith clir a bod pwyslais ar ddefnyddio gwahanol arbenigeddau'r amrywiol aelodau. Yn arbennig:
  - Dywedodd cyfweleion bod BGC yn aml yn fwyaf effeithiol pan fyddent yn cael eu cadeirio gan Bennaeth yr ysgol LI LI. Mewn rhai achosion nodwyd bod Cynghorwyr wedi arwain cyfarfodydd. Er y teimlwyd bod hyn wedi gwneud yn siŵr bod yr ysgol dan sylw wedi symud ymlaen, roedd ganddo'r potensial i danseilio awdurdod yr Uwch Dîm Arwain. Nodwyd bod y BGC yn fwyaf effeithiol pan wahoddwyd aelodau eraill o'r Uwch Dîm Arwain i gyflwyno ar feysydd yr oeddent yn atebol amdanynt ac roedd hyn hefyd yn lleihau'r baich ar Benaethiaid.
  - Ystyriwyd bod ymddygiad Cynghorwyr yn hollbwysig er mwyn gosod y tŷ cywir ar gyfer cyfarfodydd. Nodwyd nad oedd y Cynghorwyr mwyaf llwyddiannus yn arwain y cyfarfodydd ond yn hytrach yn llywio'r deialog tuag at y materion hynny oedd â'r potensial i gael yr effaith fwyaf ar wella ysgol.

### **Canfyddiadau ynglŷn ag effeithiolrwydd BGC**

- Dywedodd cyfweleion mewn dros dri chwarter yr ysgolion LI LI oedd ag BGC eu bod yn teimlo ei fod wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i welliant o fewn yr ysgol.
- Ymddangosai bod y gwahaniaethau yn lefelau'r bodlonrwydd a adroddwyd o ran effeithiolrwydd BGC, yn rhannol o leiaf, yn ymwneud â llwybr gwella blaenorol gwahanol ysgolion LI LI. Mae'n ymddangos bod ystod o ffactorau yn gyfrifol am hyn:
  - Mae'n ymddangos bod BGC wedi gweithredu orau yn yr ysgolion hynny oedd â CDY effeithiol (ysgolion Grŵp B a Grŵp C). Yn yr ysgolion hynny nad oedd â phrosesau gwella ysgol effeithiol ar waith (fel arfer ysgolion Grŵp A), roedd fel petai diffyg cyfeiriad i'r BGC.
  - Mynegodd rhai cyfweleion bryder ynglŷn â'r baich gweinyddol ychwanegol a roddwyd ar benaethiaid (ac yn wir Uwch Arweinwyr eraill) oherwydd yr angen i gefnogi cyfarfodydd BGC. Roedd hyn yn arbennig o wir am yr ysgolion hynny y canfyddwyd eu bod wedi dechrau gwella cyn eu cynnwys HYC, lle cwestiynwyd a oedd yr angen am BGC yn or-fiwrocrataidd.



## 6 Defnyddio cyllid HYC

6.1 Yn yr adran hon rydym yn ystyried y defnydd a wnaed o gyllid HYC mewn cefnogi ysgolion LI LI i gyflawni eu hamcanion gwella ysgol. Mae'r materion allweddol yn cynnwys:

- ceisiadau am gyllid HYC gan ysgolion LI LI
- y ffyrdd y mae ysgolion LI LI wedi defnyddio cyllid HYC
- barn am y polisiau a'r prosesau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru i gefnogi dosbarthiad y cyllid
- i ba raddau y teimlwyd bod cyllid HYC wedi cynorthwyo i ddiwallu anghenion ysgolion LI LI.

### **Diddordeb mewn cyllid HYC gan ysgolion LI LI**

6.2 Efallai nad yw'n syndod bod cyfweleion mewn ysgolion LI LI, bron yn ddieithriad, wedi croesawu'r cyfle i gynnig am gyllid ychwanegol drwy HYC. Yn ogystal, nododd cyfweleion ysgol mewn ychydig dros ddwy o bob pump o'r ysgolion LI LI (15 o 38) na fyddent wedi gallu adnodd rhannau o'u CDY heb fynediad at gyllid HYC. Yn yr ysgolion hynny y canfuwyd yn gyffredinol eu bod yn wynebu'r heriau mwyaf (ysgolion Grŵp A) roedd heriau mewn cefnogi gwella ysgol yn ymddangos yn arbennig o ddifrifol, gyda hanner ohonynt yn nodi bod gan yr ysgol ar hyn o bryd ddiffyg ariannol (4 o 8). Mewn achosion o'r fath, teimlai nifer o gyfweleion bod mynediad ar ffrwd refeniw ar wahân yn amhrisiadwy.

6.3 Roedd yr ysgolion hynny nad oedd yn wynebu prinder ariannol mor ddifrifol yn gwerthfawrogi mynediad at gyllid ychwanegol, ond gofynnodd rhai cyfweleion a oedd mecanwaith cyllido grant yn gwbl briodol ar gyfer annog ysgolion LI LI i ystyried y ffordd orau i gyrraedd eu hamcanion gwella ysgol mewn modd cynaliadwy. Fel y dywedodd un Pennaeth, *'Llynedd cafodd dau ar bymtheg y cant o gyfanswm cyllideb yr ysgol ei derbyn ar ffurf grantiau. Roedd pob grant yn gofyn i ni lunio cynllun gweithredu ac fe'u cynigwyd ar yr amod bod y cyllid yn cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ysgol. Er fy mod i'n cefnogi Llywodraeth Cymru'n ceisio sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n effeithiol, mae'r angen i liniaru yn erbyn y perygl y bydd yr arian yn cael ei dynnu'n ôl yn cael effaith i'r gwrthwyneb. Mae gen i athrawon ar gontractau*

*sefydlog un flwyddyn [Gorffennaf 2015] yr wyf wedi dweud wrthynt y byddaf yn ceisio eu parhau y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, hyd nes y caiff y grantiau eu cytuno, ni fydd gen i arian i'w talu. Mae dull fel hyn o gynllunio yn anghynaliadwy'* (Pennaeth, Ysgol LI LI). Holodd cyfweleion a ddylai cyllid HYC, yn lle hynny, gael ei dalu allan o grant refeniw craidd yr ysgol, neu a allai'r broses grant o leiaf gael ei halinio gyda'r cylch cynllunio academaidd.

### **Ffyrdd y mae cyllid HYC wedi cael ei ddefnyddio gan ysgolion LI LI**

6.4 Gan ystyried yr ystod eang o wahanol heriau a wynebwyd gan glystyrau LI LI (gweler Adran 3 am ragor o wybodaeth), mae'n ymddangos bod ysgolion LI LI wedi ceisio defnyddio cyllid cyfalaf/refeniw HYC i gefnogi ystod eang o wahanol ddibenion, o adnewyddu llyfrgell yr ysgol i gefnogi gwaith cymheiriaid i gymeriad gydag ysgolion uwchradd lleol. Er hynny, drwy ystyried yr adborth gan gyfweleion datgelir nifer o feysydd gwario cyffredin.

- Cyllid i gefnogi **ymyriadau disgyblion wedi'u targedu**. Er bod cyfweleion, mewn nifer o achosion, wedi ei gweld hi'n anodd dadelfennu rhwng gwariant HYC a gwariant nad oedd yn HYC (megis y Grant Amddifadedd Disgyblion)<sup>12</sup>, dywedodd staff mewn llai na chwarter yr ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy (9 o 38) eu bod wedi defnyddio cyllid HYC i gefnogi ymyriadau disgyblion ychwanegol, yn arbennig ar gyfer y disgyblion hynny o gefndiroedd difreintiedig. Er enghraifft, mewn un ysgol, defnyddiwyd y cyllid i gefnogi clwb brechwast ar gyfer y disgyblion hynny a fyddai efallai fel arall yn dechrau'r diwrnod ysgol heb fwyta pryd iawn. Mewn ysgol arall, defnyddiwyd cyllid i gyflwyno rhaglen dal i fyny o ymyriadau llythrennedd ar gyfer y disgyblion hynny y canfyddwyd eu bod mewn perygl o syrthio ar ei hôl hi gyda'u hastudiaethau.

---

<sup>12</sup> Cyflwynwyd y Grant Amddifadedd Disgyblion gan Lywodraeth Cymru yn gyda'r nod o gynorthwyo ysgolion i gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rheini sydd ddim. Fel y nodwyd yng ngwerthusiad y Grant mae cyllid o'r fath wedi ei ddefnyddio'n gyffredin gan ysgolion i gefnogi nifer o'r un mathau o weithgaredd yr oedd cyfweleion yn ddweud y defnyddiwyd cyllid HYC ar ei gyfer (Pye et al, 2015). Fell, mewn rhai achosion mae'n debygol bod cyllid HYC wedi cael ei ddefnyddio u wella gweithgaredd sy'n bodoli yn hytrach na chyllido gweithgaredd newydd.

- Cefnogaeth ar gyfer **datblygiad proffesiynol parhaus** (DPP) athrawon. Dywedodd staff mewn ychydig dan un o bob pump o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy eu bod wedi defnyddio cyllid HYC i gefnogi gweithgareddau datblygu proffesiynol, megis cyrsiau hyfforddiant allanol. Roedd yr hyfforddiant a ddarparwyd yn adlewyrchu anghenion yr ysgolion unigol. Wedi dweud hynny, gwelwyd bod meysydd cyffredin y canolbwyntwyd arnynt yn cynnwys hyfforddiant i gefnogi gwelliannau mewn ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd a'r defnydd o ddata i gefnogi addysgu a dysgu effeithiol.
- Cyllid cyfalaf i wella ansawdd **amgylchedd dysgu** yr ysgol. Dywedodd nifer o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy mai un o'r prif heriau oedd yn eu hwynebu oedd ansawdd yr amgylchedd dysgu presennol. Mewn achosion o'r fath nid oedd hi efallai'n syndod bod cyllid HYC wedi ei ddefnyddio i wella'r amgylchedd yn yr ysgol. Er enghraifft, mewn un ysgol, defnyddiwyd HYC i adnewyddu llyfrgell yr ysgol, yn cynnwys darpariaeth gliniaduron i ddisgyblion eu defnyddio ar ôl ysgol. Dywedodd staff mewn ychydig dan un o bob pump o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy eu bod wedi defnyddio cyllid yn y modd hwn.
- Cyllid i dalu costau recriwtio **staff cymorth ychwanegol** (yn aml mewn rolau bugeiliol). Dywedodd staff mewn ychydig dan un rhan o bump o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy eu bod wedi defnyddio cyllid i recriwtio staff cymorth ychwanegol. Roedd hi'n ymddangos bod y staff, a oedd yn aml wedi'u recriwtio mewn rolau bugeiliol, wedi'u penodi gyda nod deul; er mwyn gwella ansawdd y cymorth sydd ar gael i ddisgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio o ddysgu (sydd yn aml yn amlygu mewn ymddygiad gwael yn yr ysgol neu ddiffyg presenoldeb) a rhyddhau staff addysgu cymwysedig i ganolbwyntio ar wella ansawdd eu hymarfer. O gofio gwaith diweddar gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru a'i gasgliad y gall cymorth bugeiliol fod yn fwyaf effeithiol pan y'i darperir gan staff addysgu fel rhan o ddull ysgol gyfan, bydd hi'n bwysig mewn gwaith maes yn y

dyfodol i ystyried perfformiad y gwahanol ddulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI (Carter-Davies, 2015).

- 6.5 Wrth nodi pa ymyriadau i'w cefnogi gan ddefnyddio cyllid HYC, roedd cyfweleion yn aml yn sôn am bwysigrwydd sicrhau bod gwelliannau'n gynaliadwy dros y tymor canolig i'r hirdymor. Mae'n werth nodi, ar wahân i'r cyllid a ddefnyddiwyd i gefnogi DPP ychwanegol a gwelliannau i'r amgylchedd dysgu, yn y rhan fwyaf o achosion adroddwyd bod cyllid wedi ei ddefnyddio i gefnogi '*gweithgaredd*' ychwanegol. Ar ddiwedd y rhaglen mae perygl amlwg na fydd ysgolion mwyach yn gallu fforddio parhau gyda pheth o'r gweithgaredd hwn, ac ni ellir cynnal unrhyw welliannau tymor byr cysylltiedig yng nghanlyniadau disgyblion carfanau'r dyfodol. O gael eu hwynebu â'r dilema hwn, dywedodd nifer o Benaethiaid y gwnaethom siarad â hwy y byddai'n sicr yn rhaid iddynt dorri'n ôl ar rai elfennau o'u cynllun gwella. Fodd bynnag, drwy ganolbwyntio ar yr hyn oedd fwyaf effeithiol a manteisio ar 'hwb' cychwynnol, roeddent yn gobeithio y gellid osgoi unrhyw adlam mewn canlyniadau, neu o leiaf eu cadw i'r lleiaf posibl. Yng ngoleuni'r casgliad hwn, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried a ellid cymryd camau ychwanegol i gynyddu cynaliadwyedd gwariant rhaglen.

### **Barn am y polisiau a'r prosesau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru i gefnogi dosbarthiad y cyllid**

- 6.6 Er yn gwerthfawrogi'r cyfle a roddwyd i glystyrau LI LI gael mynediad at gyllid er mwyn eu cynorthwyo i ddiwallu eu hamcanion gwella ysgol, roedd mwyafrif y cyfweleion yn feirniadol o'r polisiau a'r gweithdrefnau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru i gefnogi taliad arian HYC, Yn wir, teimlai rhai bod prosesau a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru wedi tynnu sylw oddi wrth effeithiolrwydd y cyllid mewn cynorthwyo i gyflawni amcanion gwella ysgol ar gyfer ysgolion LI LI. Roedd materion allweddol yn cynnwys:
- **Amseriad y cylch cyllido grant:** Nododd y rheini oedd yn rhan mewn dwyn ynghyd y ceisiadau gwreiddiol am gyllid HYC bod y pwysau i gyflwyno cais wedi bod yn niweidiol i ansawdd cynllunio. Fel y dywedodd un Pennaeth, roedd y gofyniad gan Lywodraeth Cymru i

gyflwyno cais am gyllid erbyn mis Rhagfyr 2014 fel petai'n mynd yn groes i'r disgwyliad y byddai ysgolion LI LI yn gweithio tuag at ddatblygiad CDY Sengl. Roeddent yn teimlo y byddai wedi bod yn well petai'r broes gais wedi ei halinio'n well gyda'r cylch hunanwerthuso safonol (sydd fel arfer yn cyd-redeg â'r flwyddyn academaidd).

Mynegodd nifer o'r Cynghorwyr y buom yn siarad â hwy bryderon bod pa mor gyflym yr oedd gofyn i ysgolion LI LI gyflwyno cynigion wedi golygu mai prin, os o gwbl, yr oeddent wedi gallu goruchwyllo'r cynllun. Ar y cyfan teimlai Cynghorwyr bod ansawdd y cais am gyllid a wnaed gan yr ysgol yn aml wedi'i gysylltu'n agos i un eu CDY. Pan fo'r rheini'n isel eu safon roedd pryder nad oedd cyllid wedi cael ei ddefnyddio mor effeithiol ag y gallai fod. Mewn un achos, nododd y Cynghorydd bod cais ysgol am gyllid, a'r CDY yr oedd wedi'i seilio arno, yn rhai '*na fyddai byth yn gweithio*'. Yn yr achos hwn, yn dilyn ei ymgysylltiad â'r ysgol, roedd y Cynghorydd wedi cael Llywodraeth Cymru i gytuno i gyflwyniad cais newydd.

- **Pryderon ynglŷn ag ansawdd canllawiau:** Ymhlith y cyfweleion hynny a oedd wedi bod yn rhan yn y broses gais, cwestiynodd nifer a oedd digon o ganllawiau wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r sail ar gyfer asesu'r cynigion. Roeddent yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi rhyddid i ysgolion nodi'r hyn yr oeddent yn teimlo oedd ei angen – gan olygu'n aml y gallant glustnodi adnoddau i bethau na ellid eu hariannu drwy ffynonellau eraill. Roeddent yn teimlo, fodd bynnag, heb ganllawiau pellach y byddai ysgolion, dros amser, yn dechrau gofyn fwyfwy am bethau yr **ydddangosai** fod Llywodraeth Cymru yn edrych yn ffafriol arnynt yn hytrach na'r pethau a fyddai o bosibl yn cael yr effaith fwyaf. Er enghraifft, dywedodd un Uwch Arweinydd ei fod yn teimlo nad oedd maint dyraniad y cyfalaf yn cyfateb i lefel yr angen mewn ysgolion unigol. Roedd hyn yn awgrymu bod diffyg cysondeb mewn dyfarnu cyllid wedi arwain at rywfaint o ddryswch.

- Pryderon ynglŷn ag **addasrwydd prosesau monitro presennol**: Nododd nifer fechan o'r cyfweleion (ar y cyfan o ysgolion Grŵp A) bod yr ysgolion a ddewiswyd ar gyfer eu cynnwys yn HYC wedi eu dewis yn union oherwydd eu bod yn sefydliadau nad oedd yn '*gweithredu'n normal*'. Mewn amgylchiadau o'r fath, gofynnwyd a oedd hi'n briodol i ofyn i Uwch Arweinwyr fonitro gwariant mewn modd fforensig ar adeg pan eu bod eisoes wedi ymrwymo'n drwm i weithgareddau gwella ysgol. Wedi dweud hynny, nododd nifer o Gynghorwyr bod yr angen i adrodd am wariant prosiect wrth BGC wedi cynorthwyo i feithrin gallu ariannol mewn rhai ysgolion LI LI. Yn y dyfodol, efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried a gafwyd y cydbwysedd cywir ar yr achlysur hwn.

### **Rôl cyllido HYC mewn diwallu anghenion ysgolion LI LI**

- 6.7 Er gwaethaf y feirniadaeth ynglŷn â dosraniad cyllid HYC, teimlai mwyafrif y cyfweleion ysgol (ychydig dan dri chwarter o'r ysgolion LI LI yr ymwelwyd â hwy - 27 o'r 38), ar y cyfan, bod y cyllid wedi cael effaith gadarnhaol ac wedi caniatáu i'w hysgol wneud cynnydd o ran cyflawni eu hamcanion gwella ysgol. Roedd y rhai a gyfwelwyd fel petaent yn arbennig o gadarnhaol ynglŷn â'r hyblygrwydd a roddwyd gan gyllid HYC i ystyried dulliau amgen er mwyn ymateb i'r heriau o fewn yr ysgol. Dadleuwyd y gallai Uwch Arweinwyr, gyda swm sefydlog o arian ar gyfer gwella ysgol, yn y gorffennol fod wedi dewis cadw at ddulliau profedig, yn hytrach na'r rheini a allai gael yr effaith fwyaf. Teimlwyd yn gyffredinol bod argaeledd cyllid HYC wedi rhoi mwy o ryddid i ysgolion LI LI edrych ar y ffyrdd arloesol hyn.
- 6.8 Wedi dweud hynny, roedd i ba raddau y teimlwyd bod y cyllid wedi ei ddefnyddio'n effeithiol yn aml yn ymwneud ag ansawdd cynllunio gwella yr ysgol. Yn drawiadol, o'r pedair ysgol lle dywedodd mwyafrif y staff bod y cyllid wedi bod yn aneffeithiol, roedd tair yn ysgolion Grŵp A (y rheini y ystyrir yn gyffredinol i fod mewn perygl o ddirywiad pellach hyd yn oed wedi iddynt gael eu cynnwys yn HYC). Wrth gyfiawnhau eu barn roedd staff yn aml yn sôn am ddiffyg eglurder ynglŷn â beth y gellid defnyddio cyllid HYC ar ei gyfer. Cwestiynodd eraill a fyddai'r systemau a'r

prosesau a oedd ar waith yn yr ysgol yn cefnogi asesiad perfformiad y cyllid yn erbyn y canlyniadau a ragwelwyd yn y cais gwreiddiol.

6.9 Nododd cyfweleion mewn saith ysgol LI LI eu bod yn ansicr ynglŷn ag effeithiolrwydd cyllido HYC mewn cynorthwyo ysgolion i gyflawni eu hamcanion gwella ysgol. Roedd chwech o'r rhain yn ysgolion Grŵp B (rheini y canfyddwyd eu bod ar lwybr perfformiad sefydlog cyn cael eu cynnwys yn HYC). Mewn ysgolion o'r fath, roedd staff fel petaent ar y cyfan yn fodlon ag ansawdd/addasrwydd eu cynigion, ond yn teimlo bod nifer o faterion eraill wedi golygu nad oedd y cyllid wedi cael cymaint o effaith ag y gallai fod wedi ei gael. Roedd materion a godwyd yn aml yn cynnwys:

- **Maint grant:** Dywedodd cyfweleion ei bod hi'n bwysig, wrth asesu effeithiolrwydd cyllid HYC, i gydnabod y swm cymharol fychan o gyllid a glustnodwyd i ysgolion unigol mewn perthynas â'r swm cyfan o gyllid a glustnodwyd o ffynonellau eraill er mwyn cyflawni amcanion gwella ysgol. Felly, nodwyd y byddai asesu effaith y cyllid o gymharu â'r hyn a gyflawnwyd drwy dulliau eraill yn anodd dros ben.
- **Sicrhau ychwanegoldeb:** Gwnaeth nifer o'r cyfweleion ddadlau er bod Llywodraeth Cymru yn iawn i annog ysgolion i geisio 'ychwanegoldeb' gan gyllid HYC yn hytrach na dyblygu gweithgaredd sy'n bodoli'n barod, roedd hi'n bwysig nad oedd hyn yn cael ei weld fel annog 'ychwanegion'. Fel y nodwyd gan un Pennaeth '*er mwyn bod yn fwyaf effeithiol dylai cyllid HYC gael ei integreiddio i galon cynllun datblygu ysgol*' (Pennaeth, Ysgol LI LI). Teimlwyd, er mewn nifer fechan o achosion, y byddai'r dymuniad i ddangos bod cyllid HYC yn ychwanegu yn hytrach na dyblygu ffynonellau cyllido eraill wedi arwain ysgolion i osgoi dulliau a allai fod wedi cael mwy o effaith.

## Crynodeb Adran: Defnyddio cyllid HYC

### Diddordeb mewn cyllid HYC

- Bron yn ddieithriad, roedd cyfweleion yn gwerthfawrogi'r cyfle a roddwyd i ysgolion LI LI gyrchu cyllid ychwanegol drwy HYC.
- Dywedodd cyfweleion ysgol mewn dros ddwy ran o bump o'r 38 ysgol LI LI y gwnaethom ymweld â hwy na fyddai eu hysgol wedi gallu adnoddau adrannau o'u CDY heb fynediad at gyllid ychwanegol.

### Ffyrdd y mae cyllid HYC wedi cael ei ddefnyddio

- Wrth ystyried adborth gan gyfweleion gwelwn nifer o feysydd cyffredin o ran gwariant<sup>13</sup>.
  - Cyllid i gefnogi **ymyriadau disgyblion wedi'u targedu**. Dywedodd cyfweleion mewn ychydig dan chwarter yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy eu bod wedi defnyddio cyllid at y diben hwn. Yn aml roedd ymyriadau wedi'u bwriadu i gefnogi disgyblion o gefndiroedd difreintiedig y teimlwyd oedd wedi syrthio ar eu hôl hi gyda'u hastudiaethau
  - Cyllid i gynnal **cyrsgau DPP ar gyfer athrawon**. Dywedodd staff mewn ychydig dros un rhan o bump o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy eu bod wedi defnyddio yn y modd hwn. Er bod cynnwys yr hyfforddiant yn cyfateb i anghenion amrywiol gwahanol ysgolion, roedd cefnogaeth mewn addysgu llythrennedd a rhifedd, a sut i ddefnyddio data asesu i gefnogi addysgu a dysgu yn feysydd cyffredin.
  - Cyllid cyfalaf i wella **amgylchedd dysgu yr ysgol**. Er enghraifft, mewn un ysgol roedd cyllid HYC wedi ei ddefnyddio i adnewyddu llyfrgell yr ysgol. Roedd cyllid ar gyfer hyn wedi ei gyrchu gan tua un rhan o bump o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy.
  - Cyllid i recriwtio **staff cymorth ychwanegol**. Dywedodd staff mewn un o bob pump o'r ysgolion LI LI eu bod wedi defnyddio cyllid yn y modd hwn. Roedd hi'n ymddangos bod gan y staff hyn, a recriwtiwyd yn aml i swyddi bugeiliol, rôl ddeuol; gwella ymgysylltiad disgyblion a chaniatáu i staff addysgu ganolbwyntio ar ansawdd addysgu a dysgu yn yr ysgol.

### Adborth ar weinyddiaeth y cyllid gan Lywodraeth Cymru

- Er eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i wneud cais am gyllid ychwanegol, dynododd y cyfweleion nifer o feysydd y gallai'r gweithdrefnau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru i gefnogi dosraniad y cyllid gael ei wella. Yn arbennig:
  - **Amseriad cylch cyllido grant**: Teimlai nifer o'r cyfweleion bod y cyflymder y bu'n rhaid iddynt gyflwyno ceisiadau wedi bod yn niweidiol i'w hansawdd.
  - **Ansawdd y canllawiau cyllido**: Gofynnodd nifer o'r rheini oedd yn rhan yn y broses gais, a oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu digon o ganllawiau i ganiatáu i ysgolion ddatblygu ceisiadau a fyddai'n cael eu trin yn ffafriol.
  - **Addasrwydd y prosesau monitro presennol**: Cwestiynodd rai cyfweleion, yn arbennig y rheini o ysgolion Grŵp A, a oedd hi'n briodol i roi'r baich gweinyddol o roi cyfrif am wariant cyllid HYC ar ysgolion ar adeg pan oedd uwch Arweinwyr wedi ymrwymo'n drwm i'r dasg o wella eu hysgol. Wedi dweud hynny, teimlai nifer o Gynghorwyr bod y gofyniad hwn wedi cynorthwyo i feithrin gallu ymddiriedol.

<sup>13</sup>Noder nad oedd hi'n bosibl ar y cam hwn i ystyried lefelau gwariant cyffredinol yn ôl math o weithgaredd a gyllidwyd. Felly mae dadansoddiad wedi'i deilio ar amllder digwyddiad n hytrach nag asesiad o faint/graddfa.



### Rôl HYC mewn diwallu anghenion ysgolion LI LI

- Dywedodd y mwyafrif o gyfweleion ysgol eu bod yn teimlo bod cyllid HYC wedi cael effaith gadarnhaol.
- Lle teimlwyd bod cyllid HYC wedi ei ddefnyddio'n llai effeithiol, dywedodd cyfweleion bod hyn yn aml yn gysylltiedig â diffyg ansawdd mewn cynllunio gwella ysgol, yn arbennig diffyg eglurder yn yr ysgol ynglŷn â beth fyddai'n cael ei gyflawni pe bai cyllid wedi ei ddefnyddio mewn modd penodol.
- Mewn nifer o ysgolion, roedd cyfweleion yn fodlon gydag ansawdd/addasrwydd eu cais, ond yn teimlo y gellid gwella effeithiolrwydd cyllid HYC pe bai:
  - **Maint cyffredinol grantiau'n cael ei gynyddu:** Teimlai cyfweleion ei bod hi'n bwysig cydnabod maint cymharol fychan y grantiau yr oeddent wedi eu derbyn a'u cyfraniad cymharol i gyflawniad cynllun gwella eu hysgol.
  - **Ysgolion yn cael eu hannog i geisio am gyllid grant HYC:** Dywedodd nifer o gyfweleion, er bod Llywodraeth Cymru yn iawn i sicrhau nad oedd cyllid HYC yn cael ei ddefnyddio i ddyblygu gweithgaredd presennol, ni ddylid di-annog ysgolion rhag ceisio effaith ffynonellau cyllido lluosog, lle bo hyn yn briodol.
  - **Amseriad y cylch grant yn cael ei addasu i gyd-fynd â'r cylch academiaidd:** Cwestiynodd cyfweleion a oedd gan yr angen i wario cyllid grant dros un flwyddyn academiaidd y potensial i annog mabwysiadu dulliau llai cynaliadwy ar gyfer gwella ysgol.

## 7 Dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI

- 7.1 Bydd yr adran hon yn edrych ar y dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI, yn dilyn cael eu cynnwys yn HYC, a'r ffordd(ffyrdd) y maent wedi ceisio ymateb i'w rhwystrau ar gyfer gwella. Yn arbennig rydym yn ystyried pa fodel(au) ymarfer, os o gwbl, sy'n tanategu'r dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI.

### Goresgyn rhwystrau i wella

- 7.2 Fel y trafodwyd yn Adran 2, mae ystyriaeth o'r adborth gan gyfweleion yn dangos yr heriau cymhleth ac weithiau cydberthnasol sy'n wynebu ysgolion LI LI. Er gwaethaf hynny, mae'n bosibl nodi nifer o nodweddion cyffredin, sef, yr angen i fynd i'r afael â diffygion yn ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol, gwella ansawdd addysgu a dysgu (yn arbennig mewn pynciau craidd), a mynd i'r afael â chanlyniadau amddifadedd economaidd-gymdeithasol ar gyrhaeddiad disgyblion. Felly, mae'n gysur bod y dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI er mwyn ceisio gwella yn adlewyrchu'n bennaf y blaenoriaethau troswaol hyn. Gan danategu ymatebion ysgolion i'r blaenoriaethau hyn, mae'n bwysig meddwl i ba raddau y maent wedi eu hystyried yn gydradd o ran pwysigrwydd a'r strategaethau neu'r dulliau a fabwysiadwyd er mwyn cyflawni amcanion gwella pob ysgol.

### *Cefnogi gwelliannau mewn ansawdd yr arweinyddiaeth a rheolaeth*

- 7.3 Efallai nad yw'n syndod mai gweithgareddau wedi'u bwriadau i gefnogi gwelliannau mewn ansawdd a rheolaeth oedd y rheini a ddisgrifiwyd fwyaf aml gan staff mewn ysgolion LI LI, gyda dros bedair o bob pump o'r ysgolion (32 o 38) yn disgrifio gweithgareddau penodol yn y maes hwn. Yn drawiadol, fodd bynnag, roedd ffocws gwaith o'r fath yn fwy aml ar **wella ansawdd y broses yn ymwneud â, a'r systemau i gefnogi, hunanwerthuso manwl gywir** yn hytrach na gwella sgiliau arweinyddiaeth a rheolaeth Uwch Arweinwyr. Dywedodd staff mewn 24 o'r 38 clwstwr y gwnaethom ymweld â hwy bod eu hysgol wedi gwneud gwaith i wella ansawdd hunanwerthuso'r ysgol, yn aml drwy gyflwyno system olrhain data newydd neu drwy ddiwygio protocolau/polisiau

rheoli perfformiad. Staff mewn dim ond 16 o'r 38 clwstwr yr ymwelwyd â hwy a ddywedodd bod eu hysgol wedi buddsoddi'n uniongyrchol mewn hyfforddiant i gefnogi gwelliannau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth Uwch Arweinwyr. Yn ymarferol, mae ffigurau o'r fath yn dueddol o eithrio'r gwaith datblygu arweinyddiaeth a wnaed gan y Cynghorydd (na fyddai wedi cael ei gynnwys yn y CDY), ac efallai y bydd cwestiwn ynglŷn ag a yw hyfforddiant o'r fath yn cael digon o flaenoriaeth.

- 7.4 Adroddodd yr ysgolion hynny a oedd wedi cyrchu **hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer Uwch Arweinwyr** ei fod wedi bod yn hynod effeithiol. Mewn un ysgol LI LI dywedodd y Pennaeth bod ei Huwch Dîm Arwain cyfan wedi mynychu rhaglen breswyl tri diwrnod i gefnogi datblygiad '*arweinwyr rhagorol*'. Teimlai bod mynychu'r cwrs hwn wedi bod yn amhrisiadwy o ran ailddiffinio ethos yr ysgol a gosod 'rheolau pendant' sydd erbyn hyn yn llywodraethu eu harfer proffesiynol. Roedd hi'n gobeithio y byddai hyn yn gosod sylfaen gadarn y gallai'r ysgol adeiladu arni yn y dyfodol.

*Lliniaru effaith amddifadedd economaidd-gymdeithasol ar gyrhaeddiad disgyblion*

- 7.5 Mewn dros ddau o bob tri chlwstwr LI LI y gwnaethom ymweld â hwy (26 o 38), dywedodd staff eu bod wedi ceisio buddsoddi mewn **staff cymorth ychwanegol**. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y staff hyn wedi eu cyflogi gyda dau ddiben; i gynorthwyo athrawon (lle bo angen) yn y dosbarth a hefyd i **liniaru effaith amddifadedd economaidd-gymdeithasol** ar gyrhaeddiad disgyblion drwy ryddhau staff addysgu i ganolbwyntio ar wella ansawdd eu hymarfer o ddydd i ddydd. Er enghraifft, mewn nifer o ysgolion nodwyd bod Pennaethiaid Blwyddyn, yn y gorffennol, wedi treulio llawer o amser yn ceisio mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ymddygiad, presenoldeb neu ymgysylltiad disgyblion. Fel y dadleuodd un Pennaeth '*er ei fod yn waith pwysig, dechreuom ofyn i'n hunain a oedd athrawon, wrth geisio mynd i'r afael â'r materion hyn, yn colli sylw ar eu gwaith yn yr ystafell ddosbarth a pherfformiad y disgyblion hynny a oedd yn eistedd o'u blaenau*' (Pennaeth, Ysgol LI LI). O ganlyniad, roedd ysgolion o'r fath wedi

recriwtio Swyddog Presenoldeb neu Swyddog Lles Addysg i ymateb i'r materion hyn. Gyda chefnogaeth y gallu ychwanegol hwn, nododd cyfweleion fod gan Benaethiaid Blwyddyn (a ailenwyd weithiau'n Reolwyr Cynnydd) fwy o amser i gymryd agwedd llawer mwy rhagweithiol tuag at fonitro perfformiad disgyblion unigol, a sicrhau bod ymyriadau'n cael eu rhoi ar waith lle bo angen hynny.

#### *Gwelliannau mewn addysgu a dysgu*

- 7.6 Er mwn cefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu, dywedodd staff mewn ychydig dros ddwy ran o dair o'r clystyrau LI LI eu bod, drwy eu CDY, wedi buddsoddi mewn **offer TG ychwanegol**. Yn ymarferol, mae'n ymddangos bod buddsoddiad wedi cefnogi tri math o wariant:
- **Buddsoddiad mewn isadeiledd TG:** Mewn nifer fechan o achosion, dywedodd staff fod diffyg seilwaith craidd effeithiol, megis rhwydwaith diwifr gweithredol a mynediad at gyfrifiaduron bwrdd gwaith a gliniaduron dibynadwy, yn eu hatal rhag mabwysiadu dulliau addysgeg a allai fynd i'r afael yn well ag anghenion eu disgyblion. Mewn ysgolion o'r fath, ystyriwyd uwchraddio seilwaith TG yn yr ysgol yn flaenoriaeth ganolog.
  - **Cyllid ar gyfer cymhorthion addysgu:** Yn tua hanner yr ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy (19 o 38) roedd Uwch Arweinwyr wedi buddsoddi cyllid HYC mewn technoleg IRIS Connect™. Roedd mynediad at wersi fideo, a ddatblygwyd fel rhan o fodel hyfforddi, yn cael ei ddefnyddio i ganfod a rhannu arfer effeithiol ar draws gwahanol ddisgyblaethau, a hefyd yn lleihau costau cyflenwi a'r tarfu a achosir i ddysgu'r disgyblion yn ystod absenoldeb athrawon ar gyrsiau hyfforddi wyneb yn wyneb<sup>14</sup>.
  - **Buddsoddiad mewn dyfeisiau i'w defnyddio gan ddisgyblion:** Mewn ychydig dros un rhan o dair o'r ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy (13 o 38) dywedodd staff bod yr ysgol, yn 2014/15,

---

<sup>14</sup>System DPP video a ysgogir gan athrawon yw hwn y gellir recordio gwersi a hwyluso hyfforddi byw o bell, gellir gweld gwybodaeth am IRIS Connect yn: <http://www.irisconnect.co.uk/>

wedi buddsoddi mewn offer TG i'w ddefnyddio'n uniongyrchol gan ddisgyblion. Er enghraifft, mewn un ysgol defnyddiwyd cyllid HYC i gynorthwyo i greu canolfan adnoddau dysgu newydd lle gallai disgyblion gael mynediad at offer TG i wneud eu gwaith cartref. Mewn ysgol arall, roedd holl ddisgyblion CA4 wedi cael cyfrifiadur tabled (a arianwyd yn rhannol gan arian HYC).

- 7.7 Dywedodd staff mewn ychydig dan ddwy ran o dair o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy (26 o 38) eu bod wedi buddsoddi mewn **hyfforddiant DPP ar gyfer staff addysgu**. Yn ymarferol, mae barn o'r fath yn debygol o fod wedi tanamcangyfrif swm y ddarpariaeth fewnol a ddarparwyd gan Uwch Arweinydd mewn ysgolion LI LI (er enghraifft i gefnogi cyflwyniad IRIS Connect™).
- 7.8 Roedd cynnwys yr hyfforddiant a ddarparwyd ar gyfer staff addysgu wedi amrywio yn dibynnu ar farn Uwch Arweinydd yr ysgol. Wedi dweud hynny, roedd hi'n ymddangos bod pwyslais ar uwch-sgilio athrawon Saesneg, Mathemateg a Chymraeg (er i raddau llai), sy'n cysylltu i'r Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.
- 7.9 Yn gyson â phwyslais ar wella ansawdd addysgu Saesneg a Mathemateg, dywedodd staff yn tua hanner yr ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy eu bod, yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, wedi recriwtio **staff addysgu** ychwanegol i'r Adrannau/Cyfadranau hyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, defnyddiwyd yr athrawon hyn i naill ai leihau maint dosbarthiadau, neu i leihau nifer oriau cyswllt ymarferwyr profiadol er mwyn darparu **ymyriadau dal i fyny** ar gyfer y disgyblion hynny (yn aml ym Mlwyddyn 10 neu 11) y canfyddwyd eu bod mewn perygl o syrthio ar ei hôl hi yn eu hastudiaethau.
- 7.10 Er bod cyfweleion yn yr ysgolion hynny oedd wedi buddsoddi mewn staff ychwanegol (mewn rolau addysgu a rhai nad ydynt yn addysgu) yn hyderus bod y rolau hyn wedi cefnogi gwelliant mewn canlyniadau disgyblion, mae'n bwysig ystyried cynaliadwyedd hyn, yn arbennig pan fo rolau o'r fath wedi'u cyllido gan arian HYC (y mae'n rhaid ei wario erbyn diwedd 2015/16). Fodd bynnag, mae'n werth ystyried i ba raddau,

yng nghyd-destun nifer o ysgolion LI LI, y gall rhai *'enillion cyflym'* yn y tymor byr eu hunain fod yn rhag-amod ar gyfer gwella.

- 7.11 Yn unol â'r casgliad hwn, mae'n werth nodi y gwelwyd bod tua dwy ran o dair o holl ysgolion Grŵp A a B (yr ysgolion hynny y canfyddwyd eu bod yn sefydlog neu mewn perygl o ddirywiad pellach) wedi buddsoddi mewn staff addysgu ychwanegol. Cyfran yr ysgolion Grŵp C (yr ysgolion hynny y canfyddwyd eu bod ar lwybr perfformiad cadarnhaol cyn eu cynnwys yn HYC) oedd wedi buddsoddi yn y modd hwn oedd ychydig dros un o bob pump. Mae canlyniadau o'r fath yn gwahodd archwiliad ac ystyriaeth bellach ynglŷn ag a oes tystiolaeth o un neu fwy o fodelau arfer y gellir eu nodi sy'n tanategu'r dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion HYC. Rydym yn archwilio hyn yn yr adran nesaf.


### **Cysyniadu'r dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI**

- 7.12 Mae'n amlwg bod y dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI wedi cynnwys nifer o elfennau cyffredin yn cynnwys buddsoddi mewn prosesau hunanwerthuso, sgiliau'r Uwch Dîm Arwain, offer TG i gefnogi datblygiad amgylchedd dysgu modern a recriwtio staff addysgu a rhai nad sy'n addysgu/cymorth ychwanegol. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae lefel y buddsoddiad mewn meysydd unigol fel petai wedi gwahaniaethu'n fawr yn dibynnu ar y gwahaniaethau yn yr hyn y canfyddwyd o ran anghenion yr ysgol.
- 7.13 Er mwyn deall y dewisiadau a wnaed gan ysgolion LI LI unigol, mae'n bwysig ystyried y berthynas rhwng y gwahanol ddulliau/ymyriadau hyn ac i gydnabod er y gallai Cynlluniau Datblygu Ysgol gynnwys nifer o elfennau ar wahân, efallai mai'r rhyngweithio rhwng yr elfennau hyn sy'n arwain at y canlyniadau a ragwelir. Er enghraifft, buddsoddodd nifer o ysgolion LI LI mewn staff cymorth ychwanegol gyda'r bwriad o gefnogi gwelliant mewn ymgysylltiad disgyblion. Gwnaeth nifer o'r ysgolion hyn hefyd annog athrawon i gyrchu DPP er mwn cefnogi gwelliannau yn ansawdd eu hymarfer. Er y cânt eu hystyried yn aml fel elfennau ar wahân yn eu CDY, mewn gwirionedd (er yn aml ymhlyg) mae cyfweleion wedi cydnabod eu cyd-ddibyniaeth. Fel y dywedodd un Pennaeth: *'os nad yw disgyblion yn yr ysgol ni allant ddysgu'* (Pennaeth, Ysgol LI LI).

At hwn waeth i ni ychwanegu, hyd yn oed os yw yn y dosbarth, mae disgybl yn annhebygol o ymgysylltu'n llawn os nad yw ei athro neu athrawes yn cyflwyno gwers sy'n ei ysgogi.

- 7.14 Yn y modd y mae ysgolion LI LI wedi dewis cysyniadu eu CDY, mae hi hefyd yn bwysig ystyried a yw llawer o'r canlyniadau a geisiwyd gan ysgolion LI LI, mewn rhai achosion, nid yn unig yn cael eu gweld fel bod yn rhyngddibynnol ond eu bod wedi'u lleoli o fewn hierarchaeth a ddiffinnir. Fel y dywedodd un Pennaeth: '*cyn HYC ni allem ymddiried yn y data yr oeddem yn ei gasglu*' (Pennaeth, Ysgol LI LI). Heb fynediad at hunanwerthuso o ansawdd uchel dywedodd ei bod bron yn amhosibl nodi pa feysydd addysgu a dysgu oedd angen eu gwella fel bod adnoddau'r ysgol yn cael eu targedu'n briodol.
- 7.15 Mae cysyniadu'r rhaglen yn y modd hwn (fel y crynhoir yn Ffigur 7.1) o bosibl yn darparu offeryn esboniadol grymus, ond hefyd yn codi nifer o heriau ar gyfer asesiad parhaus o welliant ysgolion LI LI. Rhoddir esboniad byr o gynnwys y fframwaith yn Ffigur 7.1.

**Ffigur 7.1: Cysyniadu'r dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI**



Ffynhonnell: SQW



### *Rhwystrau i wella*

7.16 Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r cynlluniau CDY, mae'n ymddangos bod ysgolion LI LI wedi ceisio mynd i'r afael â thri phrif rwystr i wella; ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn eu hysgol, ansawdd yr addysgu a'r dysgu, a lefelau ymgysylltiad disgyblion.

### *Nodau ac Amcanion*

7.17 Mewn ymateb i'r meysydd her eang hyn, mae ysgolion LI LI wedi nodi ystod o amcanion gwella ysgol. Mae cymeriad amcanion unigol wedi dibynnu ar anghenion ysgolion unigol a'r hyn a ffafrir gan Uwch Arweinwyr, ond mae rhai nodweddion cyffredin.

- Er mwyn cefnogi gwelliannau mewn ansawdd **arweinyddiaeth a rheolaeth** mae ysgolion LI LI ar y cyfan wedi ceisio targedu ansawdd y polisiau a'r gweithdrefnau presennol o ran cefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliant a datblygiadau yn sgiliau a chymhwysedd eu Huwch Dîm Arwain.
- Er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ansawdd yr **addysgu a dysgu** mae ysgolion LI LI wedi ceisio archwilio cyfleoedd i wella ansawdd yr amgylchedd dysgu (yn cynnwys y seilwaith TG) a hyder, gwybodaeth a dealltwriaeth addysgol ymarferwyr.
- Lle nodwyd **ymgysylltiad disgyblion** fel her, mae nifer o ysgolion LI LI wedi ceisio gwella ansawdd y gefnogaeth fugeiliol sydd ar gael i ddisgyblion (yn arbennig y rheini o gefndiroedd difreintiedig).

7.18 Yn ogystal â'r gwaith a gynhaliwyd yn yr ysgol, yn aml roedd y staff hyn wedi edrych y tu hwnt i glwyd yr ysgol ac wedi gweithio gyda'r gymuned ehangach, boed hynny'n uniongyrchol gyda rhieni neu ochr yn ochr â sefydliadau eraill (megis ysgolion cynradd clwstwr).

### *Gweithgareddau a Chanlyniadau a Ragwelir*

7.19 Mae ysgolion LI LI yn aml wedi mabwysiadu dull amlweddog yn cynnwys ystod eang o weithgareddau gwella ysgol. Er hynny, mae dadansoddiad o'r adborth gan gyfweleion yn nodi presenoldeb nifer o ddulliau cyffredin, gyda nifer ohonynt wedi eu hamlygu yn Ffigur 7.1. Er enghraifft, er mwyn

cefnogi gwelliannau yn ansawdd yr addysgu, mae nifer o ysgolion LI LI wedi annog ymarferwyr i gyrchu cyrsiau DPP ac wedi recriwtio staff addysgu ychwanegol (yn aml mewn disgyblaethau 'craidd' megis Saesneg a Mathemateg) er mwyn lleihau maint dosbarthiadau a chaniatáu ar gyfer ystod eang o ymyriadau dal i fyny.

#### *Theori Newid*

- 7.20 Nid oes amheuaeth bod dwyster y gweithgaredd a gefnogir gan Uwch Arweinwyr yn debygol o fod yn wahanol yn dibynnu ar yr hyn y maent yn ystyried i fod y flaenoriaeth bwysicaf i'w hysgol. Wedi dweud hynny, yn tanategu'r dull a fabwysiadwyd gan y mwyafrif, os nad pob un, o'r ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy oedd y dybiaeth ymhlyg mai sail ysgol effeithiol yw Uwch Dîm Arwain medrus sydd ag ysgogiad cryf. Er nad dyma sut y mae hi bob amser, mae hyn fel petai'n rhag-amod ar gyfer addysgu a dysgu mwy effeithiol.

#### *Effaith a Ragwelir*

- 7.21 Yn gyson â chanllawiau lefel rhaglen cyffredinol, roedd cyfweleion yn tybio y byddent, drwy fynd i'r afael â'u rhwystrau i wella, dros amser yn gweld gwelliant yng nghanlyniadau dysgu disgyblion.

#### **Gwerthuso cynnydd ysgolion LI LI**

- 7.22 Er o bosibl yn darparu offeryn grymus ar gyfer disgrifio'r dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI, fel yr awgrymwyd yn yr adran flaenorol, mae'r fframwaith yr ydym wedi ei hamlinellu yn amlygu nifer o heriau ar gyfer gwerthuso'r cynnydd a wneir gan ysgolion LI LI.

- **Asesu cynnydd cymharol gwahanol ysgolion LI LI:** Yn ddiamau, y canlyniad perfformiad cenedlaethol allweddol ar gyfer ysgolion LI LI yw perfformiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn Adran 2, dechreuodd pob ysgol LI LI ar lwybr perfformiad gwahanol (ac weithiau'n canolbwyntio ar wahanol garfanau). Wrth asesu perfformiad ysgolion unigol dros gyfnod y rhaglen bydd hi'n bwysig cadw hyn mewn cof.

- Cydnabod gwahaniaethau yn y canlyniadau canolraddol y gellid eu disgwyl mewn gwahanol ysgolion LI LI:** Mae'r adrannau blaenorol wedi amlygu'r ffaith, er efallai bod ysgolion LI LI yn aml wedi dewis dulliau tebyg i gyrraedd eu hamcanion gwella ysgol, bod y pwyslais/dwysedd cymharol wedi bod yn wahanol, yn dibynnu ar yr anghenion a deimlwyd oedd gan ysgolion unigol. Mae gan hyn oblygiadau pwysig ar gyfer asesu perfformiad cyffredinol strategaeth gwella ysgol unigol. Er enghraifft, pan fo ysgol wedi canolbwyntio ar wella sgiliau ei Huwch Arweinwyr, dros y tymor byr, bydd hi'n fwy priodol i asesu perfformiad y strategaeth drwy ystyried tystiolaeth yn ymwneud ag ansawdd arweinyddiaeth. Dim ond dros y tymor canolig i'r hirdymor y gallai rhywun ddisgwyl y byddai gwelliant yng nghymhwysedd Uwch Arweinwyr yn cefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu yn yr ysgol (ac yn y diwedd canlyniadau dysgu disgyblion).
- Cydnabod rhyngddibyniaeth gweithgareddau gwella ysgol mewn cefnogi gwell canlyniadau:** Fel y mae dadansoddiad wedi dangos, mae ysgolion LI LI yn gyffredinol wedi mabwysiadu strategaeth gwella ysgol amlweddol. Wrth geisio canfod pa strategaethau sydd fwyaf effeithiol mewn cefnogi gwelliant, bydd hi'n bwysig ystyried y rhyng-chwarae rhwng gwahanol weithgareddau. Er enghraifft, pan fo ansawdd addysgu fel petai wedi gwella mewn ysgol LI LI, bydd hi'n bwysig ystyried pa ffactorau eraill allai fod wedi cyfrannu i'r canlyniad hwn heblaw am gyflwyniad rhaglen DPP newydd er enghraifft, gweithrediad system fwy effeithiol ar gyfer monitro cynnydd disgyblion a alluogodd athrawon i dargedu eu hymyriadau'n fwy effeithiol.
- Ystyried cynaliadwyedd strategaeth gwella ysgol LI LI:** Mae hyn yn cynnwys dulliau wedi'u hanelu at gefnogi'n uniongyrchol welliannau mewn canlyniadau dysgu disgyblion, yn ogystal â'r dulliau hynny a fabwysiadwyd i wella gallu ymarferwyr. Lle bydd ysgolion wedi buddsoddi'n uniongyrchol mewn cefnogi disgyblion (yn arbennig y rheini yng Nghyfnod Allweddol 4), a lle bo ymyriadau yn effeithiol ac

wedi'u targedu'n briodol, byddai rhywun yn disgwyl i ganlyniadau dysgu'r disgyblion hynny i wella. Fodd bynnag, lle na fydd lefel uchel o fuddsoddiad mewn carfannau penodol yn goroesi terfyniad cyllid HYC, bydd hi'n bwysig adolygu pa mor addas yw'r strategaeth hon ac a yw gwelliant o'r fath mewn canlyniadau disgyblion yn debygol o gael eu cynnal.

- **Nodi dulliau mesur canlyniadau priodol:** Fel y dangoswyd yn Ffigur 7.1, dywedodd cyfweleion bod ysgolion wedi nodi ystod i ganlyniadau a ragwelir. Er bod rhai o'r rhain yn fesuradwy, megis gwell presenoldeb disgyblion (gyda lleihad yn nifer yr absenoldebau gyda/heb awdurdod gan ddisgyblion yn ystod blwyddyn academaidd), mae eraill yn anos i'w meintio. Er enghraifft, mae arolygwyr Estyn yn gyfrifol am asesu ansawdd llywodraethu a rheolaeth mewn ysgol ac nid yw arolygiadau bob amser yn digwydd yn flynyddol (ac eithrio ysgolion mewn Mesurau Arbennig lle bydd arolygiadau yn aml bob tymor). Mewn achosion o'r fath bydd hi'n anodd mesur yn fanwl gywir y newid dros amser, ac felly cymharu cynnydd gwahanol ysgolion.

## **Crynodeb Adran: Dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI**

### **Goresgyn rhwystrau i wella**

- Wrth geisio goresgyn eu rhwystrau i wella mae ysgolion LI LI wedi ceisio ymateb (er i wahanol raddau) i un o dair blaenoriaeth.
  - **Cefnogi gwelliannau yn ansawdd yr arweinyddiaeth a rheolaeth:** Dywedodd staff mewn pedair o bob pump o'r ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy eu bod wedi ceisio gwneud gwaith yn y maes hwn. Yn drawiadol, yn y rhan fwyaf o achosion roedd y pwyslais wedi ei roi ar wella ansawdd y seilwaith hunanwerthuso, yn hytrach nag ar feithrin gallu'r Uwch Dîm Arwain. Roedd dulliau'n cynnwys cyflwyno system olrhain data newydd neu ddiwygio trefniadau rheoli perfformiad a oedd yn bodoli'n barod. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol i danamcangyfrif cyfraniad Cynghorwyr mewn cefnogi/mentora Uwch Arweinwyr mewn ysgolion LI LI.
  - **Gwella ymgysylltiad disgyblion:** Mewn dros ddwy ran o dair o'r ysgolion LI LI roedd uwch Arweinwyr wedi ceisio recriwtio staff cymorth ychwanegol er mwyn gwella ymgysylltiad disgyblion (i liniaru effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad disgyblion) a lleihau baich gwaith staff addysgu fel y gallant ganolbwyntio ar wella ansawdd eu hymarfer. Mewn nifer o achosion cafodd staff eu recriwtio i rolau bugeiliol, er enghraifft Swyddog Presenoldeb neu Swyddog Lles Addysg.
  - **Cefnogi gwelliannau yn ansawdd yr addysgu a dysgu:** Er mwyn cefnogi gwelliannau yn y maes hwn roedd hi'n ymddangos bod ysgolion LI LI wedi buddsoddi mewn gwella eu seilwaith TG a darpariaeth ar gyfer cyfleoedd DPP ychwanegol i ymarferwyr.

### **Cysyniadau'r dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI**

- Er ei bod yn ymddangos bod ysgolion LI LI wedi mabwysiadu nifer o ddulliau cyffredin i oresgyn eu rhwystrau i wella, yn ymarferol mae'r lefelau buddsoddi fel petaent wedi amrywio'n fawr.
- Er mwyn deall y dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI unigol, mae'n bwysig cydnabod y bydd llawer o'r ymyriadau ar wahân a gefnogir gan ysgolion LI LI dim ond yn cyflawni'r canlyniadau ar y cyd. Yn ogystal, mae llwyddiant pob ysgol LI LI yn debygol o ddibynnu ar asesiad realistig o'u lefel o angen ym mhob maes.
- Mae ystyriaeth o'r adborth gan gyfweleion yn dangos bod cynlluniau gwella ysgol yn aml wedi cael eu datblygu mewn modd sy'n tybio bod y canlyniadau a geisir gan ysgolion LI LI yn gweithredu o fewn hierarchaeth ddiffiniedig, lle gall gwelliannau mewn ymgysylltiad disgyblion ond cael eu cyflawni dros yr hirdymor ochr yn ochr â gwelliannau mewn addysgu a dysgu. Yr un mor ymhlyg yn y dulliau a fabwysiadwyd gan nifer o ysgolion LI LI y mae cydnabyddiaeth y byddai nodi dulliau priodol yn y meysydd hyn, mewn rhai ysgolion, yn ddibynnol ar welliannau yn ansawdd yr arweinyddiaeth.

### **Gwerthuso cynnydd ysgolion LI LI**

- Mae mewnwelediadau fel hyn yn peri nifer o heriau ar gyfer gwerthuso.
  - **Asesu cynnydd cymharol gwahanol ysgolion LI LI:** Bydd hi'n hollbwysig i ystyried gwahanol fannau cychwyn pob ysgol LI LI wrth asesu perfformiad y rhaglen.
  - **Cydnabod pwysigrwydd canlyniadau canolraddol:** Lle mae gwahanol ysgolion LI LI wedi dewis canolbwyntio ar wahanol flaenoriaethau mae'n bwysig cydnabod y nodir, lle bo'n bosibl, ganlyniadau canolraddol sy'n cefnogi asesiad effeithiolrwydd gweithgareddau. Er enghraifft, lle cafodd staff bugeiliol eu recriwtio i wella ymgysylltiad disgyblion, efallai mai canlyniad canolraddol priodol fyddai nifer yr absenoldebau heb awdurdod a gofnodir bob tymor gan ddisgyblion a dargedir.

- **Ystyried cynaliadwyedd strategaeth gwella ysgol LI LI:** Mae'n bwysig cydnabod na fydd gwelliant mewn canlyniadau dysgu disgyblion bob amser yn ddull mesur effeithiol o gynnydd hirdymor ysgol benodol o fewn ffrâm amser y gwerthusiad.

## 8 Nodi effeithiau sy'n dod i'r amlwg o gyfranogi yn Her Ysgolion Cymru ar ysgolion LI LI a'r camau nesaf ar gyfer y gwerthusiad

- 8.1 Yn yr adran hon rydym yn ystyried yr effeithiau sy'n dod i'r amlwg o gyfranogi yn HYC ar ysgolion LI LI ac yn ystyried goblygiadau hyn ar gyfer camau nesaf y gwerthusiad. Wrth wneud hyn rydym yn cadw mewn cof nifer o ffactorau, yn bennaf y ffrâm amser realistig y gellir ei defnyddio i nodi canlyniadau 'caled', megis newidiadau yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni L2 Cynhwysol. Pan fo ysgolion wedi gweithredu ymyriadau i gefnogi disgyblion Blwyddyn 11, byddai rhywun yn disgwyl gweld gwelliant yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, bydd asesiad realistig o effeithiolrwydd y strategaeth gynhwysfawr a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI ond yn debygol o gael ei wireddu dros nifer o flynyddoedd.
- 8.2 Yn y tymor byr i dymor canolig, er mwyn asesu cynnydd ysgolion LI LI ac effeithiolrwydd eu strategaeth gwella ysgol, bydd hi'n bwysig ystyried canlyniadau canolraddol megis gwelliannau yn ansawdd yr addysgu, neu ymgysylltiad disgyblion. Wrth fabwysiadu'r dull hwn, mae'n bwysig cydnabod efallai na fydd amcanion o'r fath wedi'u safoni ac felly mae'n atal cymhariaeth uniongyrchol rhwng gwahanol ysgolion LI LI. Yn hytrach, mae ein gwerthusiad yn canolbwyntio ar y cynnydd a wneir o fewn pob ysgol LI LI.

### Canlyniadau a ragwelir

- 8.3 Fel y dangosir yn yr adran flaenorol (gweler Ffigur 7.1 am grynodedb), nododd y cyfweleion ystod o wahanol ddulliau mesur canlyniadau yr oeddent yn eu defnyddio i asesu perfformiad strategaeth gwella eu hysgol. Er hynny, gellir nodi nifer o ddulliau mesur a oedd yn gyffredin:
- Dywedodd Uwch Arweinwyr mewn dros hanner y clystyrau LI LI yr ymwelwyd â hwy (21 o 38) mai mesur allweddol y byddent yn bwriadu ei ddefnyddio i asesu'r cynnydd a wnaed gan ysgolion LI LI fyddai **ansawdd arweinyddiaeth**. Pan ofynnwyd sut y byddai eu hysgol yn asesu eu cynnydd yn y maes hwn, dywedodd y rhan fwyaf

o'r cyfweleion y byddent, yn y pen draw, yn dibynnu ar ddilysiad gan Estyn o'r farn a amlinellir yn eu cynllun hunanwerthuso. Nodwyd y byddai hyn, ar gyfer yr ysgolion hynny sydd mewn Mesurau Arbennig, yn debygol o ddarparu ffynhonnell reolaidd o wybodaeth perfformiad (yn aml bydd ysgolion o'r fath yn cael ymweliad tymhorol). Yn y rhan fwyaf o achosion cydnabuwyd nad oedd ymweliadau arolwg yn debygol o ddigwydd yn ddigon rheolaidd er mwyn defnyddio'r mesur hwn o fewn y cylch gwella ysgol.

- Fel y trafodwyd uchod, o gofio natur hanfodol cyfyngiadau **data perfformiad disgyblion** mewn rhoi asesiad tymor byr neu ganolig o gynnydd ysgolion LI LI, mae'n ddiddorol bod y cyfweleion mewn tua hanner y clystyrau LI LI yr ymwelwyd â hwy wedi nodi bod hwn yn ddull mesur allweddol yr oeddent yn bwriadu ei ddefnyddio i asesu cynnydd. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad hwn yn debygol o gael ei ysgogi gan nifer o ffactorau, yn arbennig; y pwysau ar Uwch Arweinwyr i ddangos cynnydd yn erbyn y dull mesur hwn (yn arbennig yn CA4), argaeledd data prawf dibynadwy (wedi'i gadarnhau'n allanol) o'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (a wneir gan ddisgyblion Blwyddyn 2 hyd at Flwyddyn 9 ers tymor yr haf 2013) ac (fel y dangoswyd uchod) diffyg dulliau mesur amgen (dibynadwy).
- Dywedodd cyfweleion mewn ychydig dros chwarter y clystyrau LI LI yr ymwelwyd â hwy mai un o'r prif ddulliau mesur canlyniad y byddent yn eu defnyddio i asesu cynnydd a wnaed gan eu hysgol oedd dangosyddion cyd-destunol megis **cyfraddau absenoldeb a gwaharddiadau** disgyblion. Er yn cydnabod natur hanfodol cyfyngiadau y ffynhonnell hon, dywedodd y cyfweleion mai'r rhain oedd y dulliau mesur o un flwyddyn i'r llall mwyaf dibynadwy yr oedd ganddynt fynediad atynt wrth asesu newid mewn ymgysylltiad disgyblion.



## **Effaith ganfyddedig cyfranogi yn HYC**

- 8.4 Ar adeg ein gwaith maes, nododd y cyfweleion bod ysgolion LI LI yn y rhan fwyaf o achosion yn y broses o gasglu data perfformiad diwedd blwyddyn. O ganlyniad, yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd hi'n bosibl eto i feintioli effaith gweithgaredd gwella ysgol. Wedi dweud hyn, nododd y mwyafrif o'r cyfweleion eu bod yn teimlo bod cyfranogi yn HYC wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hysgol (mwyafrif y staff yn 32 o'r 38 clwstwr LI LI y gwnaethom ymweld â hwy). Yn y chwe chlwstwr LI LI oedd yn weddill, roedd cyfweleion yn gyffredinol o'r farn, tra bo gwaith yn dal i fynd rhagddo, ei bod yn rhy gynnar i ddweud beth fyddai effaith hyn.
- 8.5 Yn ystod ein gwaith maes ym mhob un o'r clystyrau LI LI, ystyriodd gwahanol gyfweleion berfformiad eu hysgol yn erbyn nifer o ddulliau mesur perfformio. Yn gyson â'r pwyslais cyffredinol a roddwyd gan nifer o ysgolion LI LI ar wella ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn eu hysgol, dywedodd staff mewn ychydig dan ddwy ran o bump o'r clystyrau LI LI y gwnaethom ymweld â hwy (15 o'r 38) eu bod, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi gweld gwelliannau yn y maes hwn. Fel y dangoswyd gan un ysgol teimlwyd, yn dilyn blwyddyn gyntaf HYC, bod staff (ar bob lefel) yn llawer cliriach ynglŷn â'u rôl a'u cyfrifoldebau. Trwy egluro llinellau atebolrwydd drwy'r timau arwain uwch a chanol teimlwyd bod yr ysgol wedi bod mewn sefyllfa llawer gwell i nodi ac yna fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag addysgu a dysgu.
- 8.6 Er i gyfweleion nodi nad oedd ganddynt hyd yma fynediad at wybodaeth perfformio diwedd blwyddyn, mewn tua un rhan o dair o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy (13 o 38) nododd staff eu bod, yn ystod y flwyddyn, wedi gweld gwelliant mewn data olrhain disgyblion mewnol (a gasglwyd fel arfer yn dymhorol). Er yn dal yn wylidwrus o union gywirdeb gwybodaeth o'r fath (roedd llawer o ysgolion yn ceisio cryfhau eu prosesau hunanwerthuso), dywedodd cyfweleion bod gwelliannau amlwg yn lefel cyrhaeddiad disgyblion (a aseswyd gan athrawon) yn debygol o fod yn ddangosydd cadarn o gynnydd yr ysgol yn gyfan.
- 8.7 Dywedodd cyfweleion mewn ychydig dros chwarter o'r ysgolion LI LI yr ymwelwyd â hwy eu bod yn teimlo eu bod, ar ôl cael eu cynnwys yn

HYC, wedi gweld gwelliant yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Gallai casgliad o'r fath o bosibl beri syndod o gofio'r nifer cymharol fychan o gyfweleion a ddywedodd mai hwn oedd un o'r prif ddulliau mesur y byddent yn ei ddefnyddio i asesu cynnydd eu hysgol (dywedwyd hynny gan gyfweleion mewn ychydig dros un o bob pump – 9 o'r 38 – o glystyrau LI LI yr ymwelwyd â hwy). Fodd bynnag, mewn realiti, mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r heriau mewn asesu'n fanwl gywir y gwelliannau yn hyn o beth. O'r cyfweleion hynny a ddywedodd y byddent yn asesu cynnydd yn y maes hwn, y dull a ddefnyddiwyd amlaf ar gyfer gwneud hyn oedd arsylwi ar wersi. Ar yr adeg y cynhaliom ein gwaith maes, roedd ysgolion yn adolygu sut yr oedd arsylwi gwersi yn cael ei gynnal ac yn cymedroli'r farn a wnaed gan y rheini a oedd yn eu harwain er mwy gwella cywirdeb eu hunanwerthuso. Mae'n debygol y gallai data o'r fath, felly, ddod yn fwy dibynadwy dros amser o fewn ysgolion unigol.

- 8.8 O gofio natur llawer o'r wybodaeth perfformio hon, mae meintoli (ac yn wir cymharu) y cynnydd a wneir gan ysgolion LI LI yn anodd. Er hynny, mae ystyried yr adborth gan gyfweleion yn rhoi ychydig o fewnwelediad diddorol. Yn allweddol ymhlith y rhain oedd gwahanol ddisgwyliadau cyfweleion mewn gwahanol ysgolion LI LI. Efallai y gellir deall gwahaniaethau o'r fath orau drwy ystyried llwybr perfformio blaenorol ysgolion LI LI. Mewn ysgolion Grŵp A (lle roedd ansawdd darpariaeth yn dirywio cyn HYC) mae'n amlwg mai dim ond rhai, os o gwbl, oedd yn teimlo eu bod erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf mewn sefyllfa i hawlio y bu gwelliant amlwg mewn arweinyddiaeth a rheolaeth yn eu hysgol. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd y pwyslais fel petai ar sefydlogi.
- 8.9 I'r gwrthwyneb, mewn ysgolion y canfyddwyd eu bod yn sefydlog cyn eu cynnwys yn HYC, roedd hi'n ymddangos bod pwyslais Blwyddyn 1 ar sicrhau bod y blociau adeiladu yn eu lle i gefnogi'r ysgol i gyrraedd sefyllfa lle byddai lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn dechrau codi. Mewn 14 o'r 16 o'r ysgolion hyn, dywedodd cyfweleion eu bod wedi gweld gwelliant mewn arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol. Teimlai llawer bod hyn wedi bod yn hanfodol i gefnogi gwelliant mewn canlyniadau dysgu disgyblion (roedd cyfweleion mewn 7 o'r 16 ysgol yn disgwyl y

byddai'r canlyniadau diwedd blwyddyn yn dangos gwelliant mewn cyrhaeddiad disgyblion).

- 8.10 Yn yr ysgolion hynny a ystyriwyd yn gyffredinol fel rhai oedd ar lwybr perfformio cadarnhaol cyn eu cynnwys yn HYC, yn aml roedd cyfweleion o'r farn bod cael eu cynnwys yn y rhaglen yn gyfle i wneud '*cynnydd cyflym*'. Yn y rhan fwyaf o achosion (9 o'r 14 ysgol o'r math hwn) ystyriwyd mai'r prif ddulliau mesur perfformiad oedd codi cyrhaeddiad disgyblion (yn arbennig yng Nghyfnod Allweddol 4). Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, dywedodd cyfweleion y byddent yn disgwyl i ganlyniadau diwedd blwyddyn gael eu cyhoeddi cyn asesu a oedd yr ysgol wedi gwneud cynnydd yn hyn o beth.
- 8.11 Mae gan y targedau gwahanol hyn oblygiadau mawr ar gyfer asesiad lefel rhaglen. Drwy gam olaf y gwerthusiad bydd hi'n bwysig ystried y cynnydd a wnaed gan ysgolion unigol yn erbyn eu targedau ac, ar lefel rhaglen, archwilio a yw'n fwy priodol i ystyried perfformiad pob un o'r tri math gwahanol o ysgolion LI LI yn annibynnol yn hytrach nag fel un grŵp o 39 ysgol LI LI.

### **Cynaliadwyedd canfyddedig y canlyniadau a gyflawnwyd**

- 8.12 Gofynnwyd hefyd i gyfweleion mewn clystyrau LI LI i feddwl am gynaliadwyedd y canlyniadau a gyflawnwyd gan ysgolion LI LI. O gofio'r dull amlweddog a fabwysiadwyd gan y rhan fwyaf o ysgolion LI LI a'u rhyngddibyniaeth ar wahanol elfennau dull pob ysgol mewn cyflawni canlyniadau a ragwelwyd, teimlai'r cyfweleion nad oedd hwn yn gwestiwn hawdd i'w ateb. Yn ymarferol, cydnabu cyfweleion yn y rhan fwyaf o ysgolion LI LI yr ymwelwyd â hwy bod y dull a fabwysiadwyd gan yr ysgol yn cynnwys nifer o weithgareddau a fyddai'n cefnogi gwelliannau hirdymor ym mherfformiad yr ysgol, megis gwelliannau yn ansawdd yr hunanwerthuso a '*enillion cyflym*' fel mwy o gefnogaeth ar gyfer disgyblion Blynnyddoedd 10 ac 11. Felly, byddai asesu cynaliadwyedd cyffredinol y dull yn dibynnu ar lwyddiant gwahanol ddulliau mesur, ac ar y cydbwysedd cyffredinol rhwng '*atebion hirdymor a thymor byr*'. Ar y cam hwn nid yw felly'n syndod nad oedd cyfweleion yn gallu dod i farn gyffredinol yn y rhan fwyaf o achosion.

## **Camau nesaf ar gyfer y gwerthusiad**

8.13 Yn seiliedig ar ein casgliadau hyd yma, rydym yn cynnig ystod o weithgareddau i'w gwneud yn 2016. Bydd y rhain yn cynorthwyo i gynhyrchu adroddiad yn y dyfodol. Dylai gweithgareddau allweddol gynnwys:

- ton 2 yr 'Arolwg Chi a'ch Ysgol'
- cyfweiliadau dal i fyny gyda chyfweleion strategol, yn arbennig Cynghorwyr Her a Swyddogion Cyswllt HYC
- ymweliadau â phob ysgol LI LI, yn cynnwys cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid allweddol ac yn eu plith Uwch Arweinwyr ym mhob ysgol ac aelodau o BGC gweithredol
- adolygiad o'r holl ddogfennau ysgol/rhaglen sydd ar gael
- dadansoddiad o'r data perfformiad ysgol sydd ar gael gan ddefnyddio detholiad o'r Gronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion.

### *Ton 2 yr 'Arolwg Chi a'ch Ysgol'*

8.14 Yn nhon 2, ac er mwyn cefnogi dadansoddiad hydredol o brofiad y disgyblion hynny a ymatebodd i'r arolwg yn 2015, rydym yn cynnig targedu'r holiadur at ddisgyblion ym mhob un o'r 39 ysgol LI LI ym Mlwyddyn 7, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 10. Er mwyn eu gwneud yn haws i'w llenwi, rydym yn awgrymu bod yr holiadur (fel yn 2015) ar gael ar-lein ac ar bapur.

### *Cyfweiliadau gydag unigolion strategol*

8.15 Fel ag yn 2015, rydym yn cynnig cynnal cyfarfodydd dal i fyny a chyfweiliadau gydag unigolion strategol. Bydd y rhain yn cynnwys:

- arweinwyr polisi yn Llywodraeth Cymru, er mwyn dyfnhau ein dealltwriaeth o ddatblygiadau ar lefel rhaglen
- aelodau o'r Grŵp Hyrwyddwyr, i ystyried effeithiau'r rhaglen sy'n dod i'r amlwg

- Cyngorwyr Her, er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r cynnydd a wnaed gan ysgolion LI LI ac ystyried perfformiad cyffredinol y rhaglen
- Swyddogion Cyswllt HYC, i roi cyfrif am farn y Consortia ynglŷn ag effaith y rhaglen
- cyfweiliadau gydag unigolion strategol, yn arbennig Cyngorwyr Her a Swyddogion Cyswllt HYC.

#### *Ymweliadau â phob ysgol LI LI*

8.16 Er mwyn cefnogi asesiad o effaith HYC, rydym yn cynnig cynnal ymweliadau dilyn i fyny â phob ysgol LI LI. Fel ag yn 2015, byddwn yn cyfweld, lle bo hynny'n bosibl:

- aelodau'r Uwch Dîm Arwain ym mhob ysgol LI LI
- mynychwyr cyfarfodydd BGC
- Uwch Arweinwyr mewn ysgolion cynradd clwstwr
- Uwch Arweinwyr mewn ysgolion partner uwchradd.

8.17 Yn ystod yr ymweliadau byddwn yn ystyried, yn arbennig, unrhyw newidiadau i'r dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI er mwyn goresgyn eu rhwystrau i wella, asesu'r cynnydd a wnaed gan ysgolion LI LI mewn cyflawni eu hamcanion gwella ysgol ac ystyried cyfraniad cyfranogi yn HYC o ran cynorthwyo ysgolion LI LI i wella.

#### *Adolygu dogfennaeth ysgol/rhaglen*

8.18 Gan adeiladu ar y data a gasglwyd yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion LI LI byddem yn croesawu'r cyfle i gynnal adolygiad o'r holl ddogfennaeth ysgol/rhaglen sydd ar gael. Byddai adnoddau allweddol yn cynnwys:

- cynllun datblygu pob ysgol LI LI
- cofnodion yn dangos gwariant cyllid HYC.

*Dadansoddiad o ddata perfformiad ysgol*

Gan ddefnyddio detholiad o'r Gronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion rydym yn cynnig cynnal asesiad o'r cynnydd a wnaed gan ysgolion LI LI mewn gwella canlyniadau dysgu disgyblion yn dilyn cael eu cynnwys yn HYC.

## Nodi effeithiau sy'n dod i'r amlwg o gyfranogi yn Her Ysgolion Cymru ar ysgolion LI LI a'r camau nesaf ar gyfer y gwerthusiad

### Canlyniadau a ragwelir

- Ar draws y 38 ysgol LI LI y gwnaethom ymweld â hwy, noddodd y cyfweleion ystod eang o ddulliau mesur y byddent yn eu defnyddio er mwyn asesu effeithiolrwydd strategaeth gwella eu hysgol. Er hynny roedd hi'n bosibl nodi nifer o ddulliau mesur cyffredin.
  - **Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth:** Yn dros hanner yr ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy dywedodd staff bod hwn yn ddull mesur allweddol i fesur eu cynnydd. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion dywedodd cyfweleion y byddent yn y pen draw yn ddibynol ar Estyn i roi asesiad o'u cynnydd. Cydnabuwyd nad oedd barn o'r fath, mewn rhai achosion, yn debygol o fod ar gael yn ystod hyd bywyd HYC.
  - **Canlyniadau dysgu disgyblion:** Roedd cyfweleion yn cydnabod bod data o'r fath ond yn debygol o ddarparu ar gyfer asesiad cywir o waith gwella ysgol dros yr hirdymor. Gan nad oedd dulliau mesur eraill ar gael, dywedodd staff yn tua hanner yr ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy mai hwn fyddai'r dull mesur allweddol yr oeddent yn bwriadu ei ddefnyddio i asesu eu cynnydd.
  - **Cyfraddau absenoldeb a gwaharddiadau disgyblion:** Yn ychydig dros hanner yr ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy, roedd dulliau mesur cyd-destunol o'r fath yn un o'r prif ddulliau yr oedd ysgolion yn bwriadu ei ddefnyddio i asesu eu cynnydd, yn arbennig fel dull mesur dirprwyol ar gyfer lefelau ymgysylltiad disgyblion.

### Effaith ganfyddedig cyfranogi yn HYC

- Dywedodd mwyafrif y cyfweleion yn 32 o'r 38 o ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy eu bod yn teimlo bod cyfranogi yn HYC wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hysgol.
- Ar adeg ein gwaith maes nododd cyfweleion eu bod yn dal yn y broses o gasglu data perfformiad diwedd blwyddyn. Felly, nid oedd hi'n bosibl meintoli effaith gweithgaredd gwella ysgol.

### Cynaliadwyedd canfyddedig y canlyniadau a gyflawnwyd

- Ar y cam hwn roedd cyfweleion yn ei chael hi'n anodd asesu cynaliadwyedd canlyniadau a gyflawnwyd drwy gyfranogi yn HYC. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd hi'n ymddangos bod ysgolion wedi cefnogi ystod o weithgareddau'n canolbwyntio ar gyflawni nodau tymor byr a hirdymor. Mewn amgylchiadau o'r fath nodwyd bod cynaliadwyedd dull ysgol, yn y pen draw, yn dibynnu nid yn unig ar gydbwysedd cymharol gweithgaredd ond hefyd ar gyd-lwyddiant y rhain.

## Cyfeiriadau

- Carter-Davies (2015) *Effective Pupil Support in Secondary Schools* (Ar-lein)  
Available at: <http://ppiwi.org.uk/files/2016/01/PPIW-Summary-of-Expert-Workshop-Discussion-Effective-Pupil-Support-in-Secondary-Schools-Final.pdf>  
(Cyrchwyd: 20/04/2016)
- Donaldson G (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* (Ar-lein) Ar gael yn:  
<https://hwbplus.wales.gov.uk/schools/6714052/Documents/Donaldson%20Report.pdf> (Cyrchwyd: 20/04/2016)
- Hadfield M (2007) *Co-leaders and middle leaders: The dynamic between leaders and followers in networks of schools* *School Leadership and Management* 27 tud 259-283
- Hill R (2013) *Adolygiad ar Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol* (Ar-lein) Ar gael yn:  
<http://gov.wales/docs/dcells/consultation/130621-delivery-of-education-report-en.pdf> (Cyrchwyd: 20/04/2016)
- Huxham C a Vangen S (2000) *Ambiguity, complexity and dynamics in the membership of collaboration* *Human Relations* 53 tud 771-806
- Morris, M a Rutt S (2005) *An Analysis of Pupil Attendance Data in Excellence in Cities (EIC) Areas and Non-EIC EAZs: Adroddiad Terfynol* (Ar-lein) Ar gael yn:  
<http://dera.ioe.ac.uk/5697/1/RR657.pdf> (Accessed: 20/04/2016)
- Muijs D (2015) *Improving schools through collaboration: a mixed methods study of school-to-school partnerships in the primary sector* *Oxford Review of Education* 41 (5) tud 563-586
- Muijs D, Chapman C, Ainscow M a West M (2011) *Networking and collaboration in education* (Dordrecht: Springer)
- Pye J, Mollitor C, Taylor C a Huxley K (2015) *Gwerthusiad y Grant Amddifadedd Disgyblion: 2<sup>il</sup> Adroddiad Interim* (Ar-lein) Ar gael yn:  
<http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151203-evaluation-pupil-deprivation-grant-year-2-en.pdf> (Cyrchwyd: 20/04/2016)
- Llywodraeth Cymru (2014) *Cymwys am Oes* (Ar-lein) Ar gael yn:  
<http://gov.wales/docs/dcells/publications/141001-qualified-for-life-cy.pdf>  
(Cyrchwyd: 20/04/2016)



Llywodraeth Cymru (2014a) *Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol* (Ar-lein) Ar gael yn:  
<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/national-model-for-regional-working/?lang=cy> (Cyrchwyd: 20/04/2016)

Llywodraeth Cymru (2014b) *Her Ysgolion Cymru: cyflwyniad ar gyfer ysgolion Llwybrau Llwyddiant* (Ar-lein) Ar gael yn:  
<http://gov.wales/docs/dcells/publications/140620-schools-challenge-cymru-introduction-brochure-cy.pdf> (Cyrchwyd: 20/04/2016)

Llywodraeth Cymru (2015) *Cynlluniau datblygu ysgol* (Ar-lein) Ar gael yn:  
<http://learning.gov.wales/yourcareer/school-development-plans/?lang=cy>  
(Cyrchwyd: 20/04/2016)

Llywodraeth Cymru (2016) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol* (Ar-lein) Ar gael yn: <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/nlnf/?lang=cy> (Cyrchwyd: 20/04/2016)

Llywodraeth Cymru (2016a) *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol* (Ar-lein) Ar gael yn:  
<http://learning.gov.wales/resources/improvementareas/assessment-and-target-setting/national-reading-and-numeracy-tests/?lang=cy> (Cyrchwyd: 20/04/2016)

Llywodraeth Cymru (2016b) *Fy Ysgol Leol* (Ar-lein) Ar gael yn:  
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym> (Cyrchwyd: 20/04/2016)

## Atodiad A: Dyluniad yr Ymchwil

Mae'r adran hon yn trafod y dull a fabwysiadwyd gan y tîm gwerthuso er mwyn diwallu nodau'r astudiaeth. Crynhoir gweithgareddau ymchwil allweddol yn ôl llinyn yn Nhabl A.1.

**Tabl A.1: gweithgareddau ymchwil allweddol yn ôl llinyn**

<b>Gweithgareddau gwerthuso</b>	<b>Disgrifiad</b>
Adolygu dogfennau	Adolygiad o ddogfennaeth lefel ysgol ym misoedd Ionawr-Chwefror 2015
Cyfweliadau strategol	Cyfweliadau ag unigolion strategol ym misoedd Mawrth-Ebrill 2015
Ymweliadau ag ysgolion	Ymweliadau ag ysgolion LI LI ym misoedd Ebrill-Gorffennaf 2015
Cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol	Cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol ym mhob clwstwr LI LI ym misoedd Mehefin-Gorffennaf 2015
Arolwg disgyblion	Arolwg cyfrwng cymysg (papur ac ar-lein) gyda disgyblion mewn clystyrau LI LI ym misoedd Mai-Gorffennaf 2015

Ffynhonnell: SQW

### Adolygu dogfennau

Rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2015 cynhaliom adolygiad o'r ddogfennaeth lefel ysgol, yn cynnwys pan ar gael, ar gyfer pob un o'r 39 ysgol LI LI:

- School on a Page
- CDY (neu Gynllun Gweithredu CDY)
- Cofnodion Cyfarfodydd Bwrdd Gwella Carlam.

Adolygwyd 217 dogfen. Roedd y dogfennau hyn yn rhoi mewnwelediad i'r dulliau a ddefnyddiwyd gan ysgolion LI LI yn dilyn eu cynnwys yn HYC ac fe'u defnyddiwyd i lywio ein trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol mewn clystyrau LI LI.

## **Cyfweliadau strategol**

Dilynwyd y cyfweliadau gwreiddiol â rhanddeiliaid, a gynhaliwyd ym misoedd Ionawr-Chwefror 2015, gan gyfarfodydd ychwanegol ym misoedd Mawrth-Ebrill 2015. Byddwn yn cynnal rownd arall o gyfweliadau ym misoedd Mawrth-Ebrill 2016. Mae'r cyfweleion wedi cynnwys:

- Arweinwyr Prosiect yn Llywodraeth Cymru
- Aelodau Grŵp Hyrwyddwyr HYC
- Swyddogion Cyswllt HYC ym mhob un o'r pedwar Consortiwm Addysg Rhanbarthol
- Pob un o'r 12 Cyngorydd Her HYC.

Cynhaliwyd cyfweliadau gan ddefnyddio canllawiau pwnc rhannol strwythuredig. Pan fo hynny'n bosibl, cynhaliwyd y cyfarfodydd wyneb yn wyneb ond mewn rhai achosion fe'u cynhaliwyd dros y ffôn. Roedd 23 o gyfweliadau wedi'u cynnal erbyn diwedd mis Ebrill 2015. Defnyddiwyd y cyfweliadau hyn i gyfoethogi ein dealltwriaeth o'r rhaglen, a'r dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LI LI yn dilyn eu cynnwys yn HYC.

## **Ymweliadau ag ysgolion**

Rhwng misoedd Ebrill-Gorffennaf 2015 ein bwriad oedd ymweld â phob un o'r 39 ysgol LI LI. Ym mhob ysgol ceisiom gyfweld ag ystod o wahanol randdeiliaid yn cynnwys; y Pennaeth, un neu ddau Uwch Arweinydd a Chadeirydd Corff Llywodraethu'r Ysgol. Gyda chefnogaeth gan Gyngorydd Her HYC bob ysgol llwyddom i ymweld â 38 o'r 39 ysgol LI LI. Mewn un ysgol, oherwydd colled drasig y Pennaeth yn ystod tymor yr haf, penderfynwyd gohirio'r ymweliad hyd nes tymor yr Hydref 2015/16. Cynhaliwyd cyfweliadau yn unigol ac ar ffurf grŵp trafod. Mae nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda phob rhanddeiliad wedi eu crynhoi yn Nhabl A.2.

**Tabl A.2: Nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd yn 2014**

<b>Grŵp rhanddeiliad</b>	<b>Nifer y cyfweiliadau</b>
Penaethiaid	38
Uwch Arweinwyr <sup>15</sup>	80
Cadeirydd y Llywodraethwyr	34
<b>Cyfanswm</b>	<b>152</b>

Ffynhonnell: SQW

Cynhaliwyd cyfweiliadau gan ddefnyddio canllawiau pwnc rhannol strwythuredig a, lle bo hynny'n bosibl, cawsant eu recordio. Defnyddiwyd meddalwedd dadansoddi ansoddol<sup>16</sup> i godio'r ymatebion ac y gefnogi a dadelfennu barn yr is-boblogaethau, megis arweinwyr ysgol neu ymarferwyr.

### **Cyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol**

Ochr yn ochr â'n hymweiliadau ag ysgolion LI LI cynhaliwyd cyfweiliadau gydag ystod o rhanddeiliaid allweddol eraill, yn bennaf aelodau eraill o Fyrddau Gwella Carlam gweithredol ac Uwch Arweinwyr mewn ysgolion partner.

O'r 38 ysgol y gwnaethom ymweld â hwy roedd gan 37 ohonynt BGC ar waith ar adeg ein hymweiliad. Ym mhob un o'r achosion hyn roedd aelodaeth o'r BGC wedi'i ymestyn yn ffurfiol i Uwch Arweinydd ar lefel clwstwr cynradd. Fodd bynnag, gwelwyd bod ymgysylltiad yr Uwch Arweinwyr yn gwahaniaethu'n fawr (yn aml yn dibynnu ar flaenoriaeth gweithio traws-gyfnod y Bwrdd). Pan oedd lefelau ymgysylltu blaenorol yn isel cafodd y cyfweiliadwr hi'n anodd amserlennu cyfarfod, ac mae hynny'n ddealladwy. Llwyddom i gyflawni tua dwy ran o dair o'r nifer targed o gyfweiliadau gyda'r grŵp hwn. Wynebodd y cyfweiliadwr heriau tebyg o ran ymgysylltu ag Uwch Arweinwyr mewn ysgolion clwstwr cynradd eraill. Unwaith eto llwyddom i gyflawni tua dwy ran o dair o'r nifer targed o gyfweiliadau. Lle bo hynny'n bosibl cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb yn wyneb ond fe'u cynhaliwyd hefyd dros y

<sup>15</sup>Mewn rhai achosion mae'n debygol bod rhai cyfweiliadwr yn Arweinwyr Canol yn hytrach nag Uwch Arweinwyr.

<sup>16</sup>Gwnaed y dadansoddiad gan ddefnyddio MaxQDA.

ffôn. Caiff nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda phob grŵp rhanddeiliaid ei grynhoi yn Nhabl A.3.

Dros gyfnod ein gwaith maes daeth yn amlwg bod cynrychiolwyr o'r Consortia yn hytrach na'r Awdurdod Lleol wedi bod yn mynychu cyfarfodydd BGC mewn rhai ardaloedd. Yn ogystal, mewn nifer o achosion roedd un cynrychiolydd Awdurdod Lleol yn gyfrifol am gefnogi nifer o glystyrau LI LI. Llwyddom i gyfweld â chynrychiolwyr ALI neu HYC (fel oedd yn briodol) o 33 o'r 37 o ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy oedd ag BGC gweithredol. Mewn dau achos nid oedd cynrychiolydd ALI wedi'i sefydlu yn dilyn newid diweddar mewn personél. Mewn dau achos arall nid oedd y cynrychiolydd a enwyd yn gallu cwrdd â ni yn ystod cyfnod y gwaith maes.

O'r ysgolion LI LI y gwnaethom ymweld â hwy, roedd 23 o 38 ohonynt yn gweithio gydag o leiaf un ysgol bartner ar adeg ein hymweliad. Llwyddom i gyfweld ag un neu ragor o Uwch Arweinwyr mewn ysgol bartner ar gyfer ychydig dros dair rhan o bump o'r ysgolion LI LI oedd ag un. Fel uchod, mewn nifer o achosion roedd Uwch Arweinwyr mewn ysgolion partner yn gyndyn i ymgysylltu yn yr ymchwil ar adeg y gwaith maes gan fod eu perthynas â'r ysgol LI LI yn ei chamau cynnar. Rydym yn rhagweld cyfradd ymateb well yn yr ail rownd o ymweliadau unwaith y bydd trefniadau cydweithio wedi eu sefydlu'n well.

**Tabl A.3: Nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd yn 2014**

<b>Grŵp rhanddeiliaid</b>	<b>Nifer y cyfweiliadau</b>
Cynrychiolwyr Awdurdod Lleol	26
Uwch Arweinydd mewn ysgol gynradd clwstwr (ac yn aelod o BGC)	26
Uwch Arweinydd mewn ysgol gynradd clwstwr (ddim yn aelod o BGC)	25
Uwch Arweinydd mewn ysgol bartner	21
<b>Cyfanswm</b>	<b>98</b>

Ffynhonnell: SQW

## **Arolwg Disgyblion**

Sefydlwyd yr arolwg *Chi a'ch Ysgol* gyda'r nodau canlynol:

- Cynnal rhaglen beilot o'r dull ar gyfer cynnal arolwg Llais y Disgybl. Er mwyn mynd i'r afael â'r nod hwn roeddem yn teimlo hefyd bod angen arbennig i fynd i'r afael â chwestiynau'n ymwneud â'r canlynol:
  - a fyddai ysgolion yn cyfranogi mewn arolwg carfan gyfan o ddisgyblion ai peidio
  - y dull (ar-lein neu bapur) fyddai'n well gan ysgolion ei ddefnyddio i gwblhau'r arolwg
  - i ba raddau y cafodd cyfrwng y cwblhau effaith ar ymatebion disgyblion.
- Cael barn disgyblion ar ystod o agweddau o'u profiad ysgol (yn cynnwys barn am agweddau o'r HYC sy'n effeithio arnynt):
  - beth, os o gwbl, allai arolwg o'r fath ei ddweud wrth Lywodraeth Cymru am gynnydd ac effaith Her Ysgolion Cymru?
  - cael darlun mwy systematig o sut y gellir ymgorffori barn disgyblion i lywodraethu ysgol a'u defnyddio i gefnogi cynlluniau gwella ysgol.

## **Cyfranogiad ysgolion**

Cynlluniwyd yr arolwg gwreiddiol ar gyfer tymor y Gwanwyn 2014/15, ond oherwydd oedi ni chynhaliwyd yr arolwg hyd nes tymor yr Haf 2014/15. Gan nad oedd yr arolwg yn mynd i bob ysgol yng Nghymru, ond yn hytrach i ysgolion a dargedwyd (yr ysgolion uwchradd hynny a oedd yn cael cefnogaeth o dan gynllun Her Ysgolion Cymru a'u hysgolion cynradd clwstwr), recriwtiwyd ysgolion gan ddefnyddio dull aml-gam:

- E-bost cychwynnol (yn Gymraeg a Saesneg) i bob ysgol yn y rhaglen (39 ysgol uwchradd a 253 ysgol gynradd) yn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil.
- Llythyr pdf (yn Gymraeg a Saesneg) i ysgolion ei anfon i rieni, yn eu hysbysu am yr ymchwil, ac yn rhoi cyfle i optio allan i'r rhieni hynny nad oedd am i'w plentyn gymryd rhan yn yr arolwg.

- Proses recriwtio CATI<sup>17</sup> gydag ysgolion, gan ddefnyddio siaradwyr Cymraeg a Saesneg (fel sy'n briodol).
- Casglu manylion gan ysgolion a oedd yn cytuno i gyfranogi er mwyn rhoi gwybodaeth am y canlynol:
  - nifer y dosbarthiadau a'r disgyblion ym mhob carfan (pwysig ar gyfer argraffu'r arolygon papur)
  - manylion cyswllt a ffafrir ar gyfer yr ysgol (yn cynnwys cyfeiriadau e-bost) fel y gellid anfon adborth wedi'i ddiennu a'i ddadelfennu am yr arolwg yn uniongyrchol i'r ysgol
  - amseroedd/dyddiadau a ffafrir ar gyfer anfon dolenni i'r arolygon ar-lein (neu ar gyfer postio'r arolygon papur).
- Casglu manylion gan ysgolion sydd ddim yn cytuno i gymryd rhan er mwyn deall eu rhesymau dros beidio cyfranogi.

Er gwaethaf yr amseriad hwyr yn y tymor, hwylusodd 57 o ysgolion (yn cynnwys 19 o'r 39 ysgol LI LI a 28 ysgol gynradd) gyfranogiad eu disgyblion yn yr arolwg. Derbyniwyd 3,918 o ymatebion i'r arolwg; 802 gan ddisgyblion Blwyddyn 6, 1,526 gan ddisgyblion Blwyddyn 7 a 1,590 gan ddisgyblion Blwyddyn 9. Roedd y rhesymau a roddwyd dros beidio cyfranogi yn ymwneud yn bennaf â'r canlynol:

- **amseriad** yr arolwg, gyda mwyafrif yr ysgolion na gyfranogodd yn dweud bod gwersi eisoes wedi'u cynllunio ac (mewn ysgolion cynradd) bod staff yn rhy brysur yn paratoi, goruchwyllo, marcio neu'n cymedroli arholiadau ysgol a/neu allanol
- canfyddiad o **berthnasedd** yr arolwg i'w hysgol; roedd ysgolion cynradd yn benodol yn teimlo, o gofio'r cysylltiad gyda Her Ysgolion Cymru, nad oedd yr arolwg yn berthnasol iddynt hwy
- y **pwnc**, gyda rhai ysgolion yn dweud na fyddai gan eu disgyblion ddiddordeb mewn rhoi eu barn am yr ysgol.

Er mwyn cefnogi gwerthusiad perfformiad ysgolion LI LI ategwyd dadansoddiad o ymatebion cyfanredol disgyblion gan roi ystyriaeth i fath ysgol

---

<sup>17</sup> Defnyddiwyd system cyfweled dros y ffôn gyda chymorth cyfrifiadur i gefnogi'r broses recriwtio. Roedd hyn yn sicrhau bod cofnod cyson yn cael ei greu ar gyfer pob ysgol oedd yn cyfranogi.

damcaniaethol (fel y trafodir uchod gan ddefnyddio cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol dosbarthwyd ysgolion LI LI i un o dri grŵp yn dibynnu ar gyfeiriad eu perfformiad blaenorol). Wrth ddehongli'r dadansoddiad hwn, mae'n bwysig rhoi nodyn o rybudd oherwydd nifer yr ysgolion (ac felly disgyblion) a gymerodd ran:

- Cymerodd dair o'r wyth ysgol a ddosbarthwyd yn Grŵp A ran, gan gyfrif am ychydig dros un rhan o ddeg (339) o'r disgyblion a ymatebodd i'r arolwg.
- Roedd ychydig dan ddwy ran o bump o'r disgyblion a ymatebodd i'r arolwg o ysgolion Grŵp B (1,100). Derbyniwyd ymatebion o wyth o'r 16 ysgol Grŵp B.
- Roedd ychydig dros hanner yr ymatebion a dderbyniwyd gennym gan ddisgyblion mewn ysgolion Grŵp C. Cymerodd wyth o'r 14 ysgol a ddosbarthwyd yn y Grŵp hwn ran.

Mae hi felly'n debygol na fyddai'r ymatebwyr wedi bod yn gynrychioliadol. Yn gyntaf, efallai bod elfen o duedd o ran ymateb ar lefel ysgol (dewisodd bump o'r ysgolion yn y categori hwn beidio â gweinyddu'r arolwg). Yn ail, efallai bod rhywfaint o duedd o ran dethol (derbyniwyd ymateb disgyblion gan gymedr o 68 disgybl fesul ysgol, fesul carfan, a oedd yn awgrymu mai dim ond rhai dosbarthiadau a/neu rhai disgyblion y gofynnwyd iddynt gymryd rhan).